CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

# Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*
Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

*Golygydd y Gyfres*
Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*
R. Iestyn Daniel, BA, PHD
Dylan Foster Evans, BA
Rhiannon Ifans, BA, PHD
Erwain Haf Rheinallt, MA

*Golygyddion Ymgynghorol*
Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,
MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA
Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, FBA

*Bwrdd Golygyddol*
Gareth A. Bevan, MA
Dafydd H. Evans, BA, DPHIL
Dafydd Johnston, BA, PHD
A. Cynfael Lake, MA, PHD
Peredur Lynch, BA, PHD

*Swyddog Golygyddol*
Glenys Howells, MA, ALA

# GWAITH
# GRUFFUDD AP DAFYDD AP TUDUR, GWILYM DDU O ARFON, TRAHAEARN BRYDYDD MAWR AC IORWERTH BELI

golygwyd gan

N.G. COSTIGAN (BOSCO)
R. IESTYN DANIEL
DAFYDD JOHNSTON

ABERYSTWYTH
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU
1995

ⓗ Prifysgol Cymru ©, 1995.
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded CC BY-NC-SA 4.0.

Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISNB 13: 978 947531 24 9
ISBN 10: 0 947531 24 6

Diolchir i'r Academi Brydeinig, Ymddiriedolaeth Leverhulme ac Ymddiriedolaeth L.J. Skaggs a Mary C. Skaggs am bob cymorth i'r prosiect hwn.

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

# *Dull y golygu*

Ceir testun cerddi 1–13 ac Atodiad I yn Llyfr Coch Hergest a chan mai dyma ffynhonnell yr holl gopïau diweddarach o'r cerddi hyn, ni ddangoswyd darlleniadau amrywiol ohonynt. Os diwygir darlleniad yn nhestun y Llyfr Coch, dangosir y darlleniad gwreiddiol ar waelod y testun.

Ceir testun cerdd 14 mewn dwy lawysgrif o droad yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r ganrif honno, ac mae'r ddau destun yn debyg iawn i'w gilydd. Tipyn yn fwy cymhleth yw hanes llawysgrifol y gerdd yn Atodiad II sy'n digwydd mewn chwe llawysgrif, a cherdd 15 sy'n digwydd mewn pedair ar bymtheg o lawysgrifau. Gan nad oedd modd canfod prif destun yma, crëwyd testun cyfansawdd, gan ddangos y darlleniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os yw darlleniad amrywiol yn digwydd mewn sawl llawysgrif, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes llinell ar goll yn un o'r llawysgrifau, dynodir hynny drwy roi bachau petryal o gwmpas llythyren y llawysgrif. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Fodd bynnag, os yw'r gair neu'r geiriau'n annarllenadwy neu wedi cael eu dileu oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny gyda bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Cymraeg Canol (gw. GDG[3] xlvi); er enghraifft, diwedderir -*aw*-, -*aw* yn *o* pan fydd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac -*ei*-, -*ei* yn *ai*. Ond ni ddiwedderir geiriau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no*(*g*), *gwedy*, *uddun* (sef 'iddynt'), *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Yn y Mynegai ar ddiwedd gwaith pob bardd rhestrir pob gair a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'); rhestrir yma hefyd rai geiriau dieithr, yn enwedig os nad ydynt yn ymddangos yn y *Geiriadur Mawr*, geiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r ystyr a roddir ar eu cyfer yno a hefyd eiriau y mae iddynt arwyddocâd arbennig yn y testun. Rhoddir llythyren fechan i bob enw cyffredin, er bod rhai enwau â phriflythyren yn y testun pan fônt yn cyfeirio at Dduw, Crist neu'r Drindod.

# *Diolchiadau*

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol wrth baratoi'r gyfrol hon: Golygydd a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; Mr Tomos Roberts o Brifysgol Cymru Bangor; Mr Daniel Huws; yr Athro J. Beverley Smith a Dr Huw Meirion Edwards o Brifysgol Cymru Aberystwyth.

# *Cynnwys*

*Tud.*
DULL Y GOLYGU ..... v
DIOLCHIADAU ..... vi
BYRFODDAU
Llyfryddol ..... ix
Termau a Geiriau ..... xvii

GWAITH GRUFFUDD AP DAFYDD AP TUDUR golygwyd gan Dafydd Johnston
RHAGYMADRODD ..... 3
TESTUN AC ARALLEIRIAD
1. Gofyn nawdd Cedig Sant ..... 7
2. Gofyn bwa ..... 9
3. I ddiolch am gae ..... 13
4. Y ferch fud ..... 16
5. Cwyn serch ..... 24
ATODIAD I
*I'm naf a garaf* ..... 28
NODIADAU ..... 29
MYNEGAI ..... 39
Mynegai i enwau personol ..... 41
Mynegai i enwau lleoedd ..... 42

GWAITH GWILYM DDU O ARFON golygwyd gan R. Iestyn Daniel
RHAGYMADRODD ..... 47
TESTUN AC ARALLEIRIAD
6. Moliant Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd o Dregarnedd ..... 51
7. Moliant Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd o Dregarnedd ..... 57
8. Marwnad Trahaearn Brydydd Mawr ..... 61
9. Awdl i Iesu ..... 64

ATODIAD II
Coffáu coroni Edward II ..... 66
NODIADAU ..... 67
MYNEGAI ..... 81
Mynegai i enwau personol ..... 85
Mynegai i enwau lleoedd ..... 86

GWAITH TRAHAEARN BRYDYDD MAWR golygwyd gan N.G. Costigan (Bosco)
RHAGYMADRODD ..... 91
TESTUN AC ARALLEIRIAD
10. Awdl i Dduw ..... 99
11. Marwnad Hywel o Landingad yn Ystrad Tywi ..... 103
12. Dychan i Gadwgawn Ficar a'i ferch a'i ddaw ..... 108
13. Dychan i Gasnodyn ..... 110
14. Dychan ..... 118
NODIADAU ..... 121
MYNEGAI ..... 139
Mynegai i enwau personol ..... 144
Mynegai i enwau lleoedd ..... 145

GWAITH IORWERTH BELI golygwyd gan R. Iestyn Daniel
RHAGYMADRODD ..... 149
TESTUN AC ARALLEIRIAD
15. Cwyn yn erbyn Esgob Bangor ..... 151
NODIADAU ..... 157
MYNEGAI ..... 163
Mynegai i enwau personol ..... 165
Mynegai i enwau lleoedd ..... 165

LLAWYSGRIFAU ..... 167
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF ..... 171
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU ..... 173

# *Byrfoddau*

## *Llyfryddol*

| | |
|---|---|
| AAST | *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions*, 1913– |
| ACDC | G.J. Ballinger, 'Astudiaeth o waith Casnodyn, Dafydd y Coed ac eraill yng nghyd-destun barddoniaeth y 14ddeg ganrif' (M.Phil., Cymru [Aberystwyth], 1991) |
| AH | *Astudiaethau ar yr Hengerdd*, gol. R. Bromwich ac R. Brinley Jones (Caerdydd, 1978) |
| AP | *Yr Areithiau Pros*, gol. D. Gwenallt Jones (Caerdydd, 1934) |
| Arch Camb | *Archaeologia Cambrensis*, 1846– |
| B | *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–94 |
| P.C. Bartrum: WG1 | *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974) |
| BD | *Brut Dingestow*, gol. H. Lewis (Caerdydd, 1942) |
| BDe | *Buched Dewi*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1965) |
| Beirn | *Y Beirniad*, gol. J. Morris Jones, 1911–20 |
| BL | Llawysgrif yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig |
| BL Add | Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig |
| Bl BGCC | *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. M. Haycock (Llandybïe, 1994) |
| Bl B XIV | *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989) |
| $BrM^3$ | *Breuddwyd Maxen*, gol. Ifor Williams (trydydd arg., Bangor, 1927) |

| | |
|---|---|
| BRh | *Breudwyt Ronabwy*, gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948) |
| ByCy | *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953) |
| C | *The Black Book of Carmarthen*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Pwllheli, 1906) |
| CA | *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938) |
| CAMBM | *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1841–1845* (London, 1850) |
| CAMBM 1876–81 | *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1876–81* (London, 1882) |
| Card | Llawysgrif yn Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd |
| CLC | *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Caerdydd, 1986) |
| CLlH | *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935) |
| CM | Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| CMCS | *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–1993; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993– |
| CO | *Culhwch ac Olwen*, gol. R. Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1988) |
| CO² | *Culhwch and Olwen*, ed. R. Bromwich and D. Simon Evans (Cardiff, 1992) |
| CT | *Canu Taliesin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1960) |
| Cylchg HC | *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960– |
| Cylchg LlGC | *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939– |
| ChO | *Chwedleu Odo*, gol. Ifor Williams (Wrecsam, 1926) |

| | |
|---|---|
| D | *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632) |
| R.R. Davies: CCC | R.R. Davies, *Conquest*, *Coexistence*, *and Change*: *Wales 1063–1415* (Oxford & Cardiff, 1987) |
| DGG$^2$ | *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935) |
| DIL | *Dictionary of the Irish Language* (Dublin, 1913–75). |
| DWB | *The Dictionary of Welsh Biography down to 1940* (London, 1959) |
| EL | Henry Lewis, *Yr Elfen Ladin yn yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd, 1943) |
| Études | *Études celtiques*, 1936– |
| EWGP$^2$ | K. Jackson, *Early Welsh Gnomic Poetry* (second ed., Cardiff, 1961) |
| FABW | W.F. Skene, *The Four Ancient Books of Wales* (Edinburgh, 1868) |
| G | *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63) |
| GBDd | *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994) |
| GBF | *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian Andrews *et al*. (i ymddangos) |
| GCBM i | *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991) |
| GCBM ii | *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995) |
| GCH iii | *Glamorgan County History*, iii, ed. T.B. Pugh (Cardiff, 1971) |
| GDB | *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al*. (Caerdydd, 1995) |

| | |
|---|---|
| GDG[3] | *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979) |
| GGH | *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990) |
| GGl[2] | *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961) |
| GGrG | *Gwaith Gronw Gyriog*, *Iorwerth ab y Cyriog*, *Gronw Ddu a Mab y Clochyddyn*, gol. W. Dyfed Rowlands (i ymddangos) |
| GHC | *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963) |
| GIG | *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988) |
| GLGC | *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. D. Johnston (Caerdydd, 1995) |
| GLM | *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975) |
| GLlF | *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K.A. Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994) |
| GLlLl | *Gwaith Llywarch ap Llywelyn* '*Prydydd y Moch*', gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989) |
| GMB | *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al*. (Caerdydd, 1994) |
| GmG | *Gemau'r Gogynfeirdd*, gol. Arthur Hughes (Pwllheli, 1910) |
| GMW | D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964) |
| GMWL | Timothy Lewis, *A Glossary of Mediaeval Welsh Law* (Manchester, 1913) |
| GO | *L'œuvre poétique de Gutun Owain*, gol. E. Bachellery (Paris, 1950–1) |
| GP | *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934) |
| GPC | *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950– ) |

| | |
|---|---|
| GSCMB | 'Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University of North Wales, Bangor' (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor, 1962) |
| GSRh | *Gwaith Sefnyn*, *Rhisierdyn*, *Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995) |
| Gwyn | Llawysgrif yng nghasgliad Gwyneddon yn Llyfrgell Prifysgol Cymru Bangor |
| HAA | Rhŷs W. Hays, *The History of the Abbey of Aberconway 1186–1537* (Cardiff, 1963) |
| HAW | William Rees, *An Historical Atlas of Wales from Early to Modern Times* (Cardiff, 1951) |
| HG Cref | *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931) |
| HMNLW | *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943– ) |
| ID | *Casgliad o Waith Ieuan Deulwyn*, gol. I. Williams (Bangor, 1909) |
| IGE² | *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937) |
| J | Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen |
| O. Jones: Cymru | Owen Jones, *Cymru*: *Yn Hanesyddol*, *Parthedegol a Bywgraphyddol* (Llundain, 1875) |
| LBS | S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13) |
| LlCy | *Llên Cymru*, 1950– |
| LlDC | *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982) |
| LlGC | Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| J.E. Lloyd: HW | J.E. Lloyd, *A History of Wales* (London, 1911) |

| | |
|---|---|
| J.E. Lloyd: HW$^3$ | J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939) |
| Llst | Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| MA$^2$ | *The Myvyrian Archaiology of Wales* (second ed., Denbigh, 1870) |
| MAng | A.D. Carr, *Medieval Anglesey* (Llangefni, 1982) |
| Math | 'Yr Efengyl yn ôl Mathew' yn y Testament Newydd |
| MED | *Middle English Dictionary* (Michigan, 1963– ) |
| MLl | *Gweithiau Morgan Llwyd*, gol. T.E. Ellis a J.H. Davies (1899, 1908) |
| J. Morris-Jones: CD | John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925) |
| Mos | Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| MWRL | Catherine A. McKenna, *The Medieval Welsh Religious Lyric* (Belmont, Massachusetts, 1991) |
| NLWCM | J.H. Davies, *The National Library of Wales*: *Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921) |
| ODCC | *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross (London, 1958) |
| OED | *The Oxford English Dictionary* (Oxford, 1933) |
| OED$^2$ | *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989) |
| G. Owen: DP | *The Description of Penbrokshire by George Owen*, ed. Henry Owen (London, 1892–1936) |
| P | *A Welsh and English Dictionary*, ed. W. Owen-Pughe (London, 1793–1803) |
| Pant | Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| PBA | *Proceedings of the British Academy*, 1903– |
| Pen | Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |

| | |
|---|---|
| PKM | *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930) |
| PRO | Public Records Office, London |
| P Tal | *The Poems of Taliesin*, ed. Ifor Williams, English version by J.E. Caerwyn Williams (Dublin, 1968) |
| R | *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911) |
| RB | *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. J. Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890) |
| RC | *Revue celtique*, 1870–1934 |
| Rec C | *Registrum vulgariter nuncupatum*, '*The Record of Caernarvon*', ed. H. Ellis (London, 1838) |
| RWM | *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E. |
| SC | *Studia Celtica*, 1966– |
| J.B. Smith: LlaG | J. Beverley Smith, *Llywelyn ap Gruffudd: Tywysog Cymru* (Caerdydd, 1986) |
| TA | *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926) |
| TCHSDd | *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952– |
| THSC | *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3– |
| D.R. Thomas: HDStA | D.R. Thomas, *The History of the Diocese of St. Asaph* (Oswestry, 1908–13) |
| TLlM | G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948) |
| Traeth | *Y Traethodydd*, 1845– |
| Treigladau | T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952) |
| TW | Geiriadur Syr Thomas Wiliems, *Thesaurus Linguæ Latinæ et Cambrobritannicæ* yn Pen 228. |

| | |
|---|---|
| TYP[2] | *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978) |
| VSB | *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*, ed. A.W. Wade-Evans (Cardiff, 1944) |
| WATU | Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969) |
| WCD | P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993) |
| WG | J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913) |
| I. Williams: BWP | Ifor Williams, *The Beginnings of Welsh Poetry*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1980) |
| I. Williams: ELl | Ifor Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945) |
| Wy | Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| YB | *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965– ) |

## *Termau a geiriau*

| | |
|---|---|
| a. | ansoddair, -eiriol |
| *a.* | *ante* |
| adf. | adferf |
| amhff. | amherffaith |
| amhrs. | amhersonol |
| anh. | anhysbys |
| ardd. | arddodiad, -iaid |
| arg. | argraffiad |
| *art.cit.* | *articulo citato* |
| b. | benywaidd |
| be. | berfenw |
| bf. | (f.) berf, -au |
| *c.* | *circa* |
| c. | (g.) canrif |
| C. | Canol |
| cf. | cymharer |
| Cym. | Cymraeg |
| cys. | cysylltair, cysylltiad |
| d.g. | dan y gair |
| dib. | dibynnol |
| diw. | diweddar |
| dyf. | dyfodol |
| e. | enw |
| eb. | enw benywaidd |
| e.c. | enw cyffredin |
| ed. | *edited by*, *edition* |
| e.e. | er enghraifft |
| eg. | enw gwrywaidd |
| e.p. | enw priod |
| *ex inf.* | *ex informatione* |
| f. | ffolio |
| *fl.* | *floruit* |
| ff. | ffolios |
| g. | (c.) canrif |
| g. | gwrywaidd |
| gol. | golygydd, golygwyd gan |
| grb. | gorberffaith |
| grch. | gorchmynnol |
| grff. | gorffennol |
| gthg. | gwrthgyferbynier, -iol |
| gw. | gweler |
| Gwydd. | Gwyddeleg |
| H. | Hen |
| h.y. | hynny yw |
| *ib.* | *ibidem* |
| *id.* | *idem* |
| *l.c.* | *loco citato* |
| ll. | lluosog; llinell |
| Llad. | Lladin |
| llau. | llinellau |
| llsgr. | llawysgrif |
| llsgrau. | llawysgrifau |
| m. | mewnol |
| myn. | mynegol |
| neg. | negydd, -ol |
| *ob.* | *obiit* |
| *op.cit.* | *opere citato* |
| p. | priod |
| pres. | presennol |
| prff. | perffaith |
| prs. | person, -ol |
| pth. | perthynol |
| r | *recto* |
| rh. | rhagenw, -ol |
| S. | Saesneg |
| *sc.* | *scilicet* |
| *s.n.* | *sub nomine* |
| td. | tudalen |
| un. | unigol |
| v | *verso* |
| vols. | *volumes* |

# GWAITH GRUFFUDD AP DAFYDD AP TUDUR

golygwyd gan

DAFYDD JOHNSTON

# *Rhagymadrodd*

## *Bywyd y bardd*

Ni cheir dim gwybodaeth am Ruffudd ap Dafydd ap Tudur y tu allan i'r pum cerdd o'i waith a gadwyd yn Llyfr Coch Hergest. Dywed ef ei hun mai Môn oedd ei gynefin (4.7), ond yn yr un gerdd mae hefyd yn ei Fleoli ei hun *uwch Caer Rhun* (4.32), sef yn sir Gaernarfon. Abergwyngregyn yn sir Gaernarfon yw lleoliad cerdd 5 hefyd. Ond dengys yr awdl 'Gofyn Bwa' (cerdd 2) iddo dderbyn nawdd gan ŵr eglwysig yn esgobaeth Llanelwy, a sir Ddinbych hefyd oedd cynefin y ferch a gyferchir yng ngherdd 4. Gellir dweud, felly, mai bardd o Wynedd Uwch Conwy ydoedd, ond bod tystiolaeth iddo fod yn clera ac yn caru yng Ngwynedd Is Conwy yn ogystal.

O ran cyfnod ei weithgarwch, yr unig dystiolaeth gwbl bendant yw'r cyfeiriad at *sir Gaer Arfon* (5.25), sy'n profi bod y gerdd honno wedi ei chanu ar ôl creu'r sir honno gan Statud Cymru yn 1284. Mae'r un gerdd hefyd yn cynnwys darn o dystiolaeth werthfawr ond amwys, sef y cyfeiriad at *Yr unfed flwyddyn … / Ar ddeg … / O oed y brenin* (5.15, 17–18). Fel yr eglurir yn y nodiadau ar y gerdd honno, os at Edward I y cyfeirir, yna 1283 oedd dyddiad achlysur y gerdd (sef llofruddiaeth honedig y bardd), ac os at Edward II, yna 1318 oedd y dyddiad.[1] Oherwydd y cyfeiriad at Lywelyn y Llyw Olaf fel *naf a gollais* (5.22), tueddir i dderbyn y cynharaf o'r ddau ddyddiad, ond ni ellir torri'r ddadl yn derfynol. Yr unig beth arall yn ei gerddi a allai fod yn gymorth i ddyddio gweithgarwch y bardd yw'r ffaith iddo ofyn bwa gan ŵr eglwysig o'r enw Hywel yn esgobaeth Llanelwy. Efallai mai rheithor eglwys Llanarmon-yn-Iâl a anfonwyd i'r senedd yn 1307 oedd hwnnw (gw. nodyn cefndir y gerdd), ond prin y gellir defnyddio'r dyddiad fel tystiolaeth i sefydlu cyfnod y bardd. Mae'r ffaith fod Dafydd ap Gwilym yn dyfynnu cwpled o waith Gruffudd ap Dafydd yn ei farwnad i'w ewythr (4.3–4 = GDG$^3$ 34 (13.23–4)) yn cynnig *terminus ad quem* i o leiaf un o gerddi Gruffudd, sef tua 1346. Gwelir yng ngwaith Gruffudd rai o'r themâu serch a ddatblygwyd gan Ddafydd ap Gwilym, ac mae'n debyg felly fod Gruffudd yn perthyn i genhedlaeth gynharach na Dafydd. Diau fod y *Cydymaith* yn lled agos i'w le yn rhoi *floruit* Gruffudd

[1] Sylwer bod Lloyd-Jones, G 593, yn cymryd mai dyddio o ddiwedd oed y brenin a wneir yma (oherwydd y gair *terfyn*, mae'n debyg). Awgryma'n betrus mai Llywelyn ap Gruffudd oedd y brenin, ac felly cynigia ddyddiad oddeutu 1293. Ond mae'n fwy tebygol mai dyddio yn ôl teyrnasiad y brenin presennol a wneir.

ap Dafydd tua 1300,[2] ond dylid cadw mewn cof y posibilrwydd iddo fod yn canu mor gynnar â *c*. 1285.

## *Ei waith*

O'r pum cerdd a gadwyd o waith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, mae dwy yn awdlau ar fesur cyhydedd hir gydag englyn unodl union i gloi (cerddi 2 a 5), a'r tair arall yn gyfresi o englynion unodl union, yr un hwyaf (cerdd 4) yn cynnwys rhai englynion proest hefyd. Mae'r englynion wedi eu cynganeddu yn llawn, ond gyda nifer o gynganeddion pengoll, a dengys cynganeddiad y penillion o gyhydedd hir ddatblygiad ar arfer Beirdd y Tywysogion (yn enwedig yng ngherdd 2), ond sylwer nad yw'r cynganeddu mor gaeth ag y mae yng ngwaith rhai o'r Gogynfeirdd diweddarach fel Gruffudd ap Maredudd. Mae arddull y cerddi yn nodweddiadol o waith y Gogynfeirdd o ran defnyddio brawddegau amlgymalog yn cynnwys sangiadau a llawer o ymadroddion epithetig cyfochrog, heb sôn am gyfartaledd uchel y gynghanedd sain.

Mae cynnwys y pum cerdd yn amrywiol: ceir dwy gerdd serch (cerddi 4 a 5), un yn gofyn bwa (cerdd 2), un yn diolch am wregys (cerdd 3), ac un yn gofyn am nawdd Cedig Sant (cerdd 1). Ond mewn gwirionedd, mae serch yn bwnc sy'n chwarae rhyw ran ym mhob un o'r pump. Awgryma'r gair *nwyf* (1.16) mai gofyn i Gedig ei ryddhau o boen serch y mae'r bardd. Er mai diolch i noddwraig a wna'r bardd yng ngherdd 3, mae naws serch cwrtais yn drwm ar y gerdd, ac er mai gŵr eglwysig a gyferchir yng ngherdd 2, ceir cryn sôn am serch a'i ddefodau yn y gerdd honno hefyd (gan gynnwys yr enghraifft gynharaf o'r gair *llatai*, yn y ffurf luosog *llateion*, 2.14).

Rhaid mai cyfran fechan o holl waith y bardd sydd wedi goroesi, ond serch hynny ceir argraff ddigon clir o'i bersonoliaeth yn y gyfran honno. Ymhyfrydai yn ei ddoniau a'i statws fel bardd, a gwyddai ei fod yn haeddu ei wobrwyo *am wawd / Ei dafawd* (3.5–6). Yr oedd yn ddigon hyderus i dynnu coes ei noddwr, gan fygwth gogan rhianedd Gwynedd arno (2.22), ac i ddatgan yn ffyddiog, *Diau mi biau'r bwa!* (2.40). Ceir elfen ddramatig yn niweddglo'r gerdd honno ac yng ngherdd 5 ar ei hyd, sy'n awgrymu cymeriad eofn. Gwelir ei ddyfeisgarwch yn ei ddefnydd cellweirus o gonfensiwn y carwr dioddefus yng ngherdd 5, ac mae'n feiddgar hyd at gabledd wrth wahodd y ferch i garu yn y deildy yng ngherdd 4. Rhwng popeth, yr oedd yn rhagflaenydd gwiw i Ddafydd ap Gwilym.

Mae i Ruffudd ap Dafydd ap Tudur le pwysig yn hanes y traddodiad barddol, nid yn unig am ei fod yn un o'r beirdd cyntaf a ganai ar ôl cyfnod y tywysogion, ond hefyd am fod ei waith yn cynnwys yr enghreifftiau cynharaf o nifer o themâu a ddaeth yn bwysig yng ngwaith Beirdd yr Uchelwyr. Ganddo ef y ceir yr enghraifft sicr gynharaf o gerdd ofyn (cerdd 2), a

[2] CLC 235.

diddorol yw nodi ei fod yn cysylltu'r arfer honno â'r glêr. Math sy'n gysylltiedig â'r cerddi gofyn yw'r gerdd ddiolch (cerdd 3), ac er nad cerdd Gruffudd yw'r enghraifft gynharaf o'r math hwn,[3] eto mae'r ddwy gerdd gyda'i gilydd yn arwydd o ddatblygiad yn y maes hwn ar ddechrau cyfnod yr uchelwyr. Fel y sylwyd eisoes, yng ngwaith Gruffudd y digwydd y gair *llatai* am y tro cyntaf, sef y negesydd serch a ddaeth yn ganolog yng ngherddi llatai nodedig Dafydd ap Gwilym. Thema arall ganddo a flodeuodd yng ngwaith y genhedlaeth ganlynol o feirdd serch yw'r deildy fel man i garu'n ddirgel, ac yn gysylltiedig â hynny y gred mai mis Mai oedd yr adeg ddelfrydol i garu—*Da y gwnaeth Mai dai o'r dail* (4.90). At ei gilydd, mae gwaith Gruffudd ap Dafydd yn dyst i ffyniant y traddodiad barddol ac i fywiogrwydd y canu mewn cyfnod a ystyriwyd yn un o argyfwng ar y beirdd.

O ran dilysrwydd y cerddi, yr unig gwestiwn sy'n codi yw awduriaeth yr englyn sy'n dilyn cerdd 1 yn y Llyfr Coch (gw. Atodiad I). Mae tystiolaeth fewnol yn ddigon i brofi nad yw'n perthyn i'r gerdd sy'n ei ragflaenu yn y llawysgrif, ac ymddengys mai englyn strae ydyw o ryw farwnad goll. Nid oes modd penderfynu i sicrwydd ai gwaith Gruffudd ap Dafydd ydyw ai peidio.

## *Y llawysgrifau*

Ceir y copïau cynharaf o'r pum cerdd yn Llyfr Coch Hergest, llawysgrif a ysgrifennwyd tua 1400. Digwyddant mewn dau floc, cerddi 2 a 5 yng ngholofnau 1253–5, a rhifau 4, 1, a 3 yng ngholofnau 1264–6, y cwbl yn llaw Hywel Fychan.[4] Mae'r copïau diweddarach i gyd yn tarddu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o'r Llyfr Coch.

[3] Ceir cerdd ddiolch gan Gynddelw, GCBM i, cerdd 6.

[4] Gw. G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LlGC xxi (1979–80), 255.

## *1*
## *Gofyn nawdd Cedig Sant*

Dug gwledig Cedig o du coedydd—Rhos,
(Nid nawd rhus ar ddedwydd)
O rwym garw, o rym gerydd,
O’r anoddun Rhun yn rhydd.

Doeth Rhun Hir i dir, dewrair—o belltrig
Gan Gedig, cain gadair,
Lle y gwnaeth Rhun, gyfun gyfair,
Aberth o fawrwerth i Fair.

Trwy nerth gair Mab Mair, mawr eiddun—cadoedd,
Gwnaeth Cedig gredadun,
Amlwg fodd o’r anoddun,
Ymddangos i Ros o Run.

Rhun goeth, fal y doeth o daith gaentach—gyrch,
O garchar dieiriach,
O ras bwyll i Ros bellach,
Y delwyf o nwyf yn iach.

Yn iach, eryr gwŷr, gwawr bendefig—rin,
Y doeth Rhun fonheddig
I Ros, nid er dangos dig,
O rwym cadr o rym Cedig.

*Ffynonellau*
A—BL Add 15001, 208$^{r}$ B—J 111, 1265 C—LlGC 4973B, 298$^{v}$ D—LlGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 12$^{v}$ E—Pen 118, 206

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i’r holl lawysgrifau eraill un ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniad y llawysgrif*
5 abelldric.

## *Gofyn nawdd Cedig Sant*

Rhyddhaodd yr arglwydd Cedig o ochr[au] coedwig Rhos,
(Nid yw’n arferol fod rhwystr ar ddyn ffodus)
O lyffethair llym, o’r gosb rymus,
O’r dwnsiwn, Run yn rhydd.

Daeth Rhun Hir i dir, anogaeth gref o drigfa bell
Gan Gedig, awdurdod gwych,
Lle y gwnaeth Rhun, ardal unedig,
Aberth gwerthfawr i[’r Forwyn] Fair.

Trwy nerth gair Mab Mair, eidduniad mawr lluoedd,
Parodd Cedig ffyddlon,
[Mewn] modd amlwg o’r dwnsiwn,
I Run ymddangos i Ros.

Fel y dychwelodd Rhun teg o gyrch ymrafael taith,
O garchar didostur,
O ddoethineb grasol i Ros erbyn hyn,
Boed i minnau ddod yn iach o [boen] angerdd.

Yn iach, eryr gwŷr, arglwydd [o] natur bendefigaidd,
Y daeth Rhun bonheddig
I Ros, nid er mwyn dangos atgasedd,
O lyffethair cadarn trwy nerth Cedig.

## *2*
## *Gofyn bwa*

Erfid newid nwyf, arfer clêr a'm clwyf,
Erfyniaid i'm rhwyf ydd wyf ei dda.
Arwyddwawd erfyn, ar oed un flwyddyn,
A warawd topyn-felyn fwa.
Arwyddion rhoddi a wna haelioni,
Caledi cronni, crynnu a wna.
Eraill a roddai, arwyddrwydd fydd rhai,
Peid fai a'i dyrrai môr i derra.
Eryr gwŷr gwarant, arwyrain moliant,
Arddunant ffyniant yt y ffynia.
Edrydd gweinydd gwawd adnau cerdd dafawd,
Arawd o'm meithwawd yt ni metha.
Er mwyn mireinson morwynol ddynion
A sôn llateion a'i lletya,
Er mwyn llifddwyn llaith gwawr geinllawr Gynllaith,
Gwawd obaith, gweniaith a'm gweinydda,
Er lliw lluch Ionawr, er nef llef a llawr,
Er mwyn gwawr Faelawr, na'm gofala.
Er cof dof dyfrwys bun loywlun liwlwys,
Cannwyll Bowys lwys, na'm dilysa.
Fy rhwyf a'm rheufedd, o rhoi'r gair gomedd,
Rhianedd Gwynedd a'th ogana.
Celi a droses wrthyd fy neges,
Culwydd a'th roddes lles niw llaesa.
Colofn Prystatun, coelfeinau Awrtun,
Catgun cain eiddun, ail Cunedda,
Calanddydd pan ddêl, celennig ddigel,
Hywel, aer drafel, ni ŵyr drofa,
Cydwedd buelin, cadwedig Ladin,
Cyfrin câr iesin mywn côr Asa,
Ciried nawddged Nudd, câr pruddfar preiddfudd,
Canid eirch Gruffudd na'th rudd na'th ra,
Cadair air eurbost, cadarn laesfarn lost,
Cadr ffrost, da fuost, eithr dy fwa,
Cynnal gywirdeb ac enw ac wyneb
Er neb rhyw ateb, na'm rhyoeta.

Dos gennad teithfad, tuthfa—poenddethol,
Poni ddeuthost etwa?
Duw a rydd i ddedwydd ei dda;
Diau mi biau'r bwa!

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, $205^{v}$ B—J 111, 1253 C—LlGC 4973B, $294^{v}$ D—Pen 118, $202^{v}$

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 cỽlyf. 4 vỽla. 6 crynu. 10 itt. 20 amdilyssa. 28 drauael. 34 kadyr ffraethl ffrost. 38 deuthost di.

## *Gofyn bwa*

Angerdd cyfnewid dyrnodiau, arfer [y] glêr sy'n fy mrifo,
Taergeisio gan f'arglwydd yr wyf ei dda.
Cerdd [sy'n] arwydd [o] ddeisyfiad, o fewn un flwyddyn,
A sicrhaodd fwa brigfelyn.
Arwyddion rhoi a wna haelioni,
Cybydd-dod yw crynhoi, crebachu a wna.
Byddai eraill yn rhoi, parod eu harwyddion fydd rhai pobl,
Hyd yn oed petai'r môr yn ei yrru i dir.
Eryr gwŷr [sy'n] sicrwydd [iddynt], dyrchafu clod,
Anrhydedd llwyddiant sy'n ffynnu i ti.
Bydd darparwr barddoniaeth yn adrodd yr hyn a ymddiriedwyd iddo [o] gerdd dafod,
Mawl o'm cerdd faith i ti ni fetha.
Er mwyn geiriau hardd merched diwair
A geiriau negeswyr serch sy'n rhoi llety iddynt [h.y. y geiriau],
Er mwyn difodiant sy'n peri dylifiad arglwyddes Cynllaith hardd ei thir,
Gobaith cerdd, gweniaith a ddarpara i mi,
Er [y ferch o] liw lluwch eira Ionawr, er cri nef a daear,
Er mwyn arglwyddes Maelor, paid â pheri gofid imi.
Er cof mwyn [a] chryf merch deg a disglair,
Cannwyll Powys hardd, paid â'm gwrthod.
Fy arglwydd a'm cyfoeth, os rhoddi [di]'r gair o nacâd,
Bydd merched Gwynedd yn dy ddifrïo.
Duw a drosglwyddodd fy neges wrthyt,
[Yr] Arglwydd a roddodd elw i ti nad yw'n ei leihau.
Cynhaliwr Prestatyn, rhoddion Owrtun,
Arweinydd gwych [a] dewisol mewn brwydr, ail Gunedda,
Pan ddaw dydd Calan, amlwg [ei] galennig,
Ni ŵyr Hywel osgoi [rhoddi], ymegnïwr [mewn] brwydr,
Cydymaith corn yfed, [a] Lladin wedi ei chadw [ganddo],
Cyfaill mynwesol yw['r] un annwyl yn eglwys Asa,
Haelioni rhodd gynhaliol Nudd, cyfaill doeth yn ei angerdd sy'n ennill ysbail [helaeth],
Gan nad yw Gruffudd yn gofyn na'th [ddillad] coch na'th ffwr,
Gair awdurdodol cynhaliwr gwych, [cludwr] gwaywffon cadarn [ei] farn dawel,
Ymffrost grymus, da fuost, ond yn hytrach [yn gofyn] dy fwa,
Cynnal uniondeb ac enw da ac anrhydedd
Beth bynnag fo'r ateb, na'm gohiria'n ormodol.

Dos, negesydd rhwydd ei daith, taith [sy’n] dileu poen,
Onid wyt wedi cyrraedd eto?
Duw a rydd i ddyn ffodus ei gyfoeth;
Heb os, myfi biau’r bwa!

## *3*
## *I ddiolch am gae*

Aur a main, coelfain eu cael,—cae melyn,
    Da efyn dwy afael;
  Arwyddion mad ei adael,
  O rodd dawn hoywfodd dyn hael.

Rhodd hael, rheg afael, rhy gafas—am wawd
    Ei dafawd, y difas;
  Unllythr llathrwaith cyweithias,
  Unlliw ag aur gwiw gae'r gwas.

Y gwas a gafas gofain,—rhodd argais,
    Rhudd eurgae teg riain;
  Gwaethaf na ŵyr arwyrain
  Gwaith eiriau maith, aur a main.

Budd difeth mwynbleth manblaid—main sidan,
    Mywn arian maen euraid;
  Bun a'i rhoes, ran einioes raid,
  Bu'n cylchynu cylch enaid.

Gwae rhag ofn Duw y dyn o'r fan—y bo
    A geisio gwregysan;
  Gwaneg deg, gofeg reg ran,
  Gwead gosodiad sidan.

Nid mau rheg adnau: rhag adnair—dilys
    Rhoi gwregys gwraig ddiwair;
  Doe y'm doeth cyfoeth cywair,
  Da o fywn gra a fu'n grair.

*Ffynonellau*
A—BL Add 15001, 208$^{v}$ B—J 111, 1266 C—LlGC 4973B, 298$^{v}$ D—LlGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 13$^{v}$ E—Pen 118, 206

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
7 llathweith. 9 a [ ]auas. 17 duϭ dyn.

## *I ddiolch am wregys*

Aur a meini gwerthfawr, rhodd oedd eu cael, gwregys melyn,
Cadwyn dda [â] dau fwcl;
Arwyddion da oedd ei adael,
Rhodd graslonrwydd ewyllys barod merch haelionus.

Rhodd hael, caffaeliad anrheg, a gafodd am gerdd
Ei dafod, yr un meddylgar;
Un llythyren wedi'i haddurno'n ddisglair [a] chywrain,
Unlliw ag aur hardd yw gwregys y gwas.

Cafodd y gwas gofion, rhodd a ddymunid yn daer,
Gwregys rhuddaur merch deg;
Gwael iawn yw'r sawl na fedr ganmol
Aur a meini gwerthfawr [mewn] gwaith [o] eiriau helaeth.

Elw sicr wedi'i blethu'n hyfryd yn llen denau [o] sidan main,
[A] gem gwych mewn arian;
Merch a'i rhoddodd, ran o raid bywyd,
Bu'n amgylchynu o amgylch enaid [byw].

Gwae rhag ofn Duw y sawl o ble bynnag y bo
A geisio [ddwyn y] gwregys bach;
[Un] hardd [ei] ffurf, rhaniad rhodd feddylgar,
Gwead haen [o] sidan.

Nid anrheg i'w thalu'n ôl yw fy un i: diogel rhag edliw
Yw rhoi gwregys gwraig bur;
Doe y daeth [y] trysor cywrain imi,
Peth da a fu'n drysor o fewn ffwr.

## *4*
## *Y ferch fud*

Gŵyl fun a dry hun drwy hud,—cur ortho,
Câr wrthyf ddywedud.
Nid diboen na'm atebud,
Nid hawdd ymadrawdd â mud.

Mud a balch, hil gwalch gweilch nwyf,—y'th welaf
O'th farnaf, iaith fawrnwyf.
Môn oedd henw men ydd henwyf,
Minnau, llaes gofau, llesg wyf.

Gwanllesg wyf, hud rwyf hoed drwg,—am ungair
O du maengaer amlwg;
Gwannach a digach y'm dwg,
Gwenllys hil, gwanllaes olwg.

Dy olwg, treiswg trosof,—wyf alltud,
A â filltir hebof;
Dyn a rydd gefyn ar gof,
Dywed air diwyd erof.

Dywed air cywair yn ôl cawad—nwyf,
Can gorwyf cwyn girad,
Ai er gwerth, cannerth ceniad,
Ai o'th fodd, enw rhodd yn rhad.

Ym ni chad yn rhad, rhaid ateb—eilwydd,
Eiliw gwendon moreb,
Nac er gwerth nac er nerth neb,
I gan hon eton ateb.

Ateb dihaereb, hir orchwyl—enaid,
A ddywaid, hawlblaid hwyl;
Ys addef, feingan annwyl,
Addau brad golau bryd gŵyl.

Ni’m bydd dydd llonydd â llun—llary gwanllaes
Ar llawr gwenllys Eitun,
A minnau, hydr ym anun,
Mau nwyf cur rhwyf, uwch Caer Rhun.

Cymered, haeled hoywlun,—o’m dolur
Am dalu pwyth fy hun,
Ar blas glas glwyslawr Eitun,
Ar blaid ei henaid ei hun.

Ni’m gwnaeth gwayw alaeth gwiw elyn—hyd hyn
Onid hon yn Eitun,
Na chof na chanu arofun
Na chawdd uthr anawdd eithr un.

Gwyddiwn na haeddiwn haddun,—hygerais
Hoyw gares yn Eitun;
Gwyddiai agwyddior anun,
Gweddaidd elynaidd ŵyl lun.

Wythnos ymannos o’m anun—gyffro,
Aeth eto wyth Eitun;
Wyth ateb a aeth atun,
Aethant dan gudd heb fudd un.

Aml drwy hiraeth ydd aethan’,
Amod rhwydd awydd awen,
O’m genau, eiriau eirian,
Eurddylad, atad Eitun.

Yd oedd cam, llwrw cytgam llif,
Nad anfonud, hud hoywdwf,
O Eitun gennad ataf
Hyd tra gaid enaid ynof.

Diau y cymer Nêr nef
Y ddau enaid ddianaf:
Enaid yw hirwen gennyf,
A’r enaid a ŵyr ynof.

Hoffter fydd, doethder deithdud,—a ddysger
I ddysgawdr ddywedud,
A’r gorau, Geirioel fynud,
I gain bwyll, hydwyll a hud.

Trwy hud bwyll astud o bell ystyr—gwen
Tua'i gwan a'i hepgyr,
Tro mwyfwy traha myfyr,
Trech o dwyll no gwirbwyll gwŷr.

Gwŷr nwyf, gwir gannwyf gwawr gannwyll—lethrid
A'm llithrawdd i'm gorffwyll,
Daith wylboen dyn detholbwyll,
Doethion mal deillion a dwyll.

Twyll a symud pwyll, pell ddefnydd—meddwl,
Mal dyn meddw diawdrydd,
Hoen gwaeddgreg gwaneg gweunydd,
Hun am neb un ym ni bydd.

Cyntaf fu Addaf o ddyn
A morwyn ŵyl am aeron,
A dau gymar, trydar trin,
Y'u gelwid, gofid gyfun.

Un fu Addaf am afal
Ag Efa, cyd bai goful,
A roes o'i merched fedel,
O'i meibion doethion dethol.

Yn ôl Addaf, naf nwyfradd,
Cyn cyfraith pab na'i drabludd,
Y gorug pawb ei garedd
Â'i gares yn ddigerydd.

Digerydd fydd, rhydd rhwyddgael,
(Da y gwnaeth Mai dai o'r dail)
Deuoed dan goed i dan gêl
I minnau, fi a'm annwyl.

Gwylia, bwyll hirdwyll hwyrdwf,
Golwg cyn modd dioddef;
Ag ennill dysg ac ynnif
Ac antur, bydd yn gyntaf.

*Ffynonellau*
A—BL Add 15001, 207$^{r}$ B—J 111, 1264 C—LlGC 1984B [= Pant 15], 84
D—LlGC 4973B, 296$^{v}$ E—Pen 118, 204

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
51 eryeu. 65 abell. 69 llethryd. 72 doethyom.

## *Y ferch fud*

Ferch wylaidd sy'n gyrru ymaith gwsg drwy hudoliaeth, gorchudd poen,
Gwêl yn dda lefaru wrthyf.
Nid di-boen yw na'm hatebit,
Nid hawdd yw sgwrsio â mud.

Yn falch ac yn fud yr wyf yn dy weld, ddisgynnydd arwr [gydag] asbri arwyr,
Os wyf i'th farnu [gydag] iaith angerddol.
Môn oedd enw'r lle'r wyf yn hanfod ohono,
Minnau, cofion trist, heb nerth wyf.

Gwan a heb nerth ydwyf, gormod hudoliaeth hiraeth blin, o eisiau un gair
O['r] gaer faen hysbys;
Mae hi'n fy ngwneud yn wannach ac yn chwerwach o hyd,
[Honno o] linach y llys gwyn [sydd â'r] llygaid lleddf a gwylaidd.

Mae dy lygaid, gwg orthrechol drosof, dyn alltud ydwyf,
Yn mynd filltir heibio i mi;
Merch sy'n llyffetheirio'r meddwl,
Dywed air dibynadwy er fy mwyn i.

Dywed air addas ar ôl hyrddiad chwant,
Gan imi wneud cwynfan chwerw,
Naill ai am dâl, cymorth caniatâd,
Neu o'th wirfodd, proffes anrheg yn hael.

Ni chafwyd i mi yn hael—mae angen ateb [ynglŷn â] phwyntmant serch,
Lliw fel ton wen glan y môr—
Nac am dâl na thrwy nerth neb,
Ateb eto gan hon.

Ateb diarhebol, hir dasg [i'r] enaid,
A ddywed [hi yng] nghwrs plaid yn hawlio;
Cyfaddefiad, [y] feinwen annwyl,
Yw cyffesu brad [yr un â] phryd disglair [a] hawddgar.

Ni chaf ddiwrnod tawel gyda'r [un â'r] ffurf addfwyn, dyner a gostyngedig
Ar lawr llys gwyn Eutun,
A minnau, grymus fy niffyg cwsg,
Eiddof i yw dwyster gormod poen, uwch Caer Rhun.

Cymered [hi], mor hael [ei] ffurf gain, ran o'm poen
Am ddial ar fy nghwsg,
Ym mhlas glas Eutun â'r llawr hardd,
Ar gownt ei henaid [hi] ei hun.

Ni wnaeth gelyn teilwng wewyr gofid imi hyd hyn
Heblaw hon yn Eutun,
Na chof na chanu [i fynegi] dymuniad
Na [chanu am] boen ofnadwy anodd heblaw un.

Gwyddwn na haeddwn ddymuniad, yn eofn y cerais
Gyfeilles fywiog yn Eutun;
Gwyddai [hi] grefft [achosi] anhunedd,
Ffigur wylaidd-elyniaethus brydferth.

Wythnos [i'r] noson o'r blaen oherwydd cynnwrf fy anhunedd
Aeth wyth [neges] arall i Eutun;
Wyth ateb [cyfatebol] a ymunodd â hwy,
Aethant yn llechwraidd heb fudd [yr] un [ohonynt].

Yn fynych oherwydd hiraeth yr aethant,
Yn gytundeb chwant hawdd [yr] awen,
O'm genau, eiriau teg,
Lif coeth, i Eutun atat.

Cam oedd, yn null chwarae llif,
Nad anfonit, corff hudol o siapus,
Negesydd ataf o Eutun
Cyhyd ag y ceid enaid ynof.

Diau y derbynia Arglwydd nef
Y ddau enaid dianaf:
Enaid [h.y. anwylyd] yw['r un] dal wen yn fy ngolwg,
A'r enaid a adnebydd [Ef] ynof.

Hyfrydwch fydd, [chwi] bobl deithgar [lawn] doethineb, yr hyn a ddysger
[Ei] ddywedyd i ddysgawdr,
A'r doethineb gorau [fyddai hynny], ffordd Gregori,
I [un o] synnwyr gain, hudoliaeth a swyn.

Trwy synnwyr cyson swyn o hir ystyriaeth [y] ferch wen
Ar ei chariad gwan sy'n [gorfod] gwneud hebddi,
Camp gynyddol balchder meddwl
[Sy'n] drech trwy gast na synnwyr diffuant gwŷr.

Angerdd gwŷr, gwir angerdd mawr [am] arglwyddes [o] ddisgleirdeb cannwyll
A barodd imi syrthio i'm gwallgofrwydd,
Taith o boen dirion [at] ferch [sy'n] dileu synnwyr,
Mae'n twyllo dynion doeth mor rhwydd â deillion.

Twyll sy'n newid synnwyr, pwnc maith myfyrdod,
Fel dyn meddw helaeth ei ddiod,
[Un ac iddi] fywiogrwydd cryglyd ei sŵn ton [y] gwastadeddau,
Ni fedraf gysgu oherwydd rhywun.

Adda oedd y dyn cyntaf [i golli cwsg]
A morwyn hael oherwydd ffrwythau,
A dau gymar, twrw brwydr,
Y gelwid hwy, uniad gofidus.

Un oedd Adda oherwydd yr afal
Ag Efa, er ei bod yn ffôl,
A roes waith cynaeafu i'w merched
[Ac] alltudiaeth i'w meibion doethion.

Ar ôl Adda, arglwydd safle angerdd,
Cyn deddfau pab a'i drafferth,
Cyflawnodd pawb ei drachwant
Â'i gariadferch heb fai.

Heb fai fydd, rhydd [a] rhwydd gael [ei gilydd],
(Da y gwnaeth Mai dai o'r dail)
Dau gyfarfod dan goed dan gêl
I minnau, fi a'm hanwylyd.

Gwylia [di], [yr un o] synnwyr castiau maith [ac â] chorff tyner,
Olwg, cyn [iddi fod yn] gyfrwng dioddefaint;
[Ynglŷn] ag ennill dysg a grym
96 Ac antur, bydd yn gyntaf.

## *5*
## *Cwyn serch*

Nid lle ym geisiaw, llafur brwyngur braw,
  Rhof a phryd alaw, fal ffrwd wylais,
Llunio tangnefedd, llifran gwahan gwedd,
  Braint cyflafaredd cyflafuriais.
Llidiog fu genthi, llidiant rhwyddiant rhi,
  Beiddio ei henwi pan ‘i henwais.

‘Llithged, breinged brwyn, llaes firain forwyn,
  Llyma fy mawrgwyn, nid am eurgais,
Rhag lliw ton ertrai, mae fy llaw arnai,
  Rhai a’i rhyfeddai nas rhwy feddais:
Llifo fy ngruddiau a’m lladd heb arfau—
  Minnau, ei maddau nis meddyliais—
Yn y Llun cyntaf o ddechrau gaeaf,
  Pan fydd anaraf ton fasaf fais,
Yr unfed flwyddyn—o oed a therfyn
  Iawnder yw gofyn, hyn a honnais—
Ar ddeg, rwymdeg rin, trwy lid a gorddin,
  O oed y brenin, breiniog Cemais,
Yn llygrant i’m gran, yn lle y gelwir Llan,
  Yn llogawd Fodfan, hoedran hydrais,
Yng ngheindref Aber, angheudraul llawer,
  Lle y bu nêr nifer, naf a gollais,
Yng nghymwd pennaf Arllechwedd Uchaf—
  Y dyn a garaf nis digerais—
Yn siryddiaeth Ddôn, yn sir Gaer Arfon,
  Lle y bu rôn dragon, dreigau Emrais.
O mynnwn fy nghlwyf gan liw ton wrth rwyf,
  Nwyf nid esgorwyf can dwys gerais.
Er deugain swllt nod o ysterlingod
  Fy namaes amod mi a’i symais.
Ys gŵyr fy nifa, ys gwan y’m adwna,
  Os gwen a’i gwada, gwydn ydd holais,
Mae ym braw glywed, gwybod, a gweled,
  Carwed, Ednyfed, Ednywen Sais.’

Gwen—a hoyw yw hon, gwynlliw ertrai ton
   Pan fydd eglur fron, a llon ei llais—
A'i gwadodd yn faith i'r llys, dyfrys daith,
   Cam ac anghyfraith, gwaith gwythlon drais:

'Dy gŵyn fu gynnau dy ladd heb arfau
   Â llafnau geiriau gwyron llednais;
A'm llw, bei'th leddid â gair, llesmair llid,
   Yn fyw na'th welid, edlid adlais;
A byw y'th welaf, i bawb y tystiaf,
   A brawd a archaf ac a erchais.'

'Na ddilynwch dlawd ni ddilynwy wawd
   Ar ôl aur dafawd, lliw eiry difais.
Dedlis hoed yn haf, didlawd y'th welaf,
   Dadlau ni allaf ac ni ellais,
A diallu wyf, a deallwr clwyf,
   A dyellydd nwyf, can dyellais.'

'Dealled doethion ddyfod dialon
   O gwnaeth Pendragon drwg i Wrlais.'

Nid eilhaws, dignaws dygnais—dawn, dadlau
         Â'r dyn didlawd cwrtais
      No myned, hwyrged hirgais,
      Iwerddon o Fôn i fais.

*Ffynonellau*
A—BL Add 15001, 206$^r$  B—J 111, 1254  C—LlGC 4973B, 295$^r$  D—Pen 118, 203

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
1 geissaỽ. 5 genti. 6 beidaỽ. 13 adechreu. 17 ac ordin. 26 lle bu. 31–4 *ar ymyl y ddalen*. 40 geireu. 42 atreis. 43 tystaf. 45 dilynaw. 50 dyelluyd.

## *Cwyn serch*

Nid oes cyfle i mi geisio, llafur poen drist ddychrynllyd,
Rhyngof a[’r ferch â’r] pryd [fel] lili, wylais fel ffrwd,
Lunio tangnefedd, grudd [ac arno] lifeiriant [dagrau sy’n] newid gwedd,
Braint cydymgynghoriad [mewn llys barn] ymdrechais [amdani].
Dig fu ganddi, [â] dicter helaeth brenin,
[Am imi] feiddio ei henwi pan wneuthum hynny.

‘Rhodd sy’n denu, rhodd freiniol [o] dristwch, morwyn arafaidd hardd,
Dyma fy nghwyn fawr, nid am gais am aur,
Am y ferch o liw ewyn ton, mae fy llaw arni,
Synnai rhai na fu imi ei meddiannu yn hawdd:
[Iddi] ffrydio fy ngruddiau a’m lladd heb arfau—
Minnau, nid ystyriais roi’r gorau iddi—
Y [dydd] Llun cyntaf ar ôl Calan Gaeaf,
Pan fydd ton fasaf [y] rhyd [yn llifo]’n gyflym,
[Yn] yr unfed flwyddyn (am [yr] amser penodol
Iawn yw holi, dyma fy natganiad)
Ar ddeg, cyfrinach deg gaethiwus, trwy ddicter a thrais,
O deyrnasiad y brenin, [yr] un sydd â braint Cemais,
Yn niwed i’m grudd, mewn lle a elwir Llan,
Yn eglwys Bodfan, gofid gorthrymus,
Yn nhref hardd Aber, cost tranc llawer [o ddynion],
Lle y bu pennaeth llu, arglwydd a gollais,
Yn Arllechwedd Uchaf, y cwmwd pennaf
(Ni fu imi droi heibio’r ferch a garaf)
Yn siryfiaeth Dôn, yn sir Gaernarfon,
Lle y bu gwaywffon arweinydd, dreigiau Emrys.
Pe dymunwn fy niwed gan y ferch o liw ton o gwmpas rhwyf,
Ni fyddwn am gael gwared â’r chwant gan imi garu’n angerddol.
Er deugain swllt hardd o arian sterling
Y cyfrifais fy iawndal.
Fe ŵyr iddi fy nifetha, fe’m gwna eto yn wan,
Os yw’r ferch wen yn gwadu hynny, holais yn daer,
Mae gennyf brawf trwy glywed, gwybod, a gweld
Gan Garwed, Ednyfed [ac] Ednywen Sais.’

[Y] ferch wen—a bywiog yw hon, gwynder ewyn ton
Pan fydd ei hymchwydd yn olau, a llon ei llais—
A’i gwadodd yn helaeth i’r llys, taith frysiog,
Cam ac anghyfiawnder, gweithred o orthrwm ffyrnig:

‘Dy gŵyn gynnau oedd [iti gael] dy ladd heb arfau
Â llafnau geiriau anghyfiawn gwylaidd;
A’m llw, pe buasid wedi dy ladd â gair, gwasgfa traserch,
Na fyddit i’th weld yn fyw, atsain hiraeth;
A byw y’th welaf, i bawb y tystiaf,
A dedfryd a fynnaf ac a fynnais [o’r blaen].’

‘Peidiwch â dilyn un tlawd na fo’n glynu wrth fawl
Yn ôl tafod aur, lliw eira di-sathr.
Dadleuodd hiraeth yn [yr] haf, nid wyt yn ymddangos yn dlawd i mi,
Ni allaf ddadlau, ac ni ellais [o’r blaen ychwaith],
A di-rym wyf, ac un a brofodd glwyf,
Ac un sy’n amgyffred chwant cnawdol, oherwydd deellais.’

‘Boed i[’r] rhai doeth gofio y bydd dial(au) yn dyfod
Os gwnaeth Pendragon niwed i Wrlais.’

Nid yw’n haws ychwaith, gallu chwerw sy’n poeni’r fynwes, dadlau
Â’r ferch ddiwall fonheddig
Na mynd, ymgais hir sy’n araf i lwyddo,
I Iwerddon o Fôn ar draed.

*Atodiad I*

I'm naf a garaf, a fedr gwyriaw—glaif
Ac a saif heb syrthiaw,
Aergledd radd, eurgledd ruddaw,
Arglwydd, boed rhwydd y byd draw.

*Ffynonellau*
A—BL Add 15001, $208^{r}$ B—J 111, 1266 C—LlGC 4973B, $298^{v}$ D—LlGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], $12^{v}$ E—Pen 118, 206

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

I'm harglwydd a garaf, sy'n medru troi heibio bicell
Ac sy'n sefyll yn gadarn heb syrthio,
Urddas cleddyf rhyfel, [un sy'n] cochi cleddyf gwych,
O Arglwydd Dduw, boed y byd nesaf yn esmwyth.

# *Nodiadau*

## *1*

Mae'r gyfres hon o englynion yn cyfeirio at chwedl anhysbys am Gedig Sant yn rhyddhau Rhun Hir ap Maelgwn Gwynedd o garchar. Ychydig sy'n hysbys am Gedig Sant, ond digwydd enw Cedig ap Ceredig ap Cunedda yn rhai o achau'r saint yn daid i Ddewi Sant.[1] Teitl y gerdd yn y *Myvyrian* yw 'I Fynon Cedig',[2] ond ni cheir y teitl hwnnw yn yr un o'r llawysgrifau, ac ni wyddys am unrhyw ffynnon yn gysylltiedig ag enw Cedig.[3] Yn Llyfr Coch Asa ceir hanes cymeriad o'r enw Cedig Draws (y cyfeirir ato gan Gasnodyn, R 1240.19) yn bwrw Rhun dros ei ben â chorn yfed yn llys Maelgwn ac yna'n ffoi i seintwar Cyndeyrn (Kentigern) yn Llanelwy.[4] Tybed a fu cymysgu ar y ddwy chwedl? Mae'n werth nodi bod y bardd yn ei leoli ei hun *uwch Caer Rhun* yn 4.32.

Ymddengys fod y bardd yn gofyn am nawdd Cedig iddo ef ei hun (ll. 16), efallai i'w ryddhau oddi wrth gaethiwed serch ofer.

Mae llinell 20 wedi ei gwasgu i mewn ar waelod colofn 1265 yn y Llyfr Coch, ac ar ben y golofn ddilynol ceir englyn arall ar ei ben ei hun (gw. Atodiad I). Cymerwyd bod hwnnw'n englyn olaf y gadwyn hon yn y copïau o'r Llyfr Coch ac yn y *Myvyrian*, ond ymddengys mai englyn strae ydyw o ryw farwnad goll. Sylwer nad ydyw'n cynnal y cyrch-gymeriad sy'n rhedeg trwy weddill y gadwyn, a hefyd fod y gair olaf yn llinell 20 yn cyrchu'n ôl i linell gyntaf y gerdd.

1 **gwledig** Ymddengys mai teitl ydyw a berthynai i arweinwyr milwrol blaenllaw tua diwedd y cyfnod Rhufeinig, a diddorol yw nodi bod y teitl gan dad a thaid Cedig, Ceredig Wledig a Chunedda Wledig. Ymhellach, gw. TYP[2] 453–4.

**Rhos** Yr oedd llys Maelgwn yn Negannwy yng nghantref Rhos.

2 Mae naws ddiarhebol ar y ll. hon, ond ni chafwyd hyd i ddihareb sy'n cyfateb.

5 **o belltrig** Llsgr. B *abelldric;* am y diwygiad, cf. 4.65 isod lle ceir *abell* am *o bell* eto yn y Llyfr Coch.

[1] Gw. LBS ii, 287.
[2] MA[2] 318.
[3] Ni chyfeirir, e.e., at ffynnon wedi ei chysegru i Gedig Sant yn F. Jones, *The Holy Wells of Wales* (Cardiff, 1954).
[4] Gw. LBS iv, 385 am y fersiwn Lladin o'r 13g. a hefyd TYP[2] 503.

6 **cadair** Mae ei ystyr eglwysig yn ymddangos yn addas yn y cyd-destun, isod 2.33n.

16 **nwyf** Awgryma'r gair hwn mai serch gwrthodedig sy'n poeni'r bardd, cf. ID 26 (XIV.47–8) *o ryw nwyf i rwyf afiach / gwen o gwnae oed am gwnae n iach*.

*2*

Ni cheir unrhyw wybodaeth bendant am wrthrych y gerdd heblaw ei enw, Hywel, ond awgryma'r cyfeiriadau at gôr Asa (ll. 30), ac at ei wybodaeth o'r Lladin (ll. 29), mai gŵr eglwysig yn esgobaeth Llanelwy ydoedd. Mae cofnodion yr esgobaeth honno am y bedwaredd ganrif ar ddeg yn fylchog iawn, a'r unig Hywel y cafwyd cyfeiriad ato yn D.R. Thomas: HDStA a allai fod yn berthnasol yw'r 'Magister Howel ap Ithel' a gysylltir â phlwyf Llanarmon-yn-Iâl yn y flwyddyn 1314.[1] Mae'n debyg mai'r un gŵr yw'r Hywel a anfonwyd i'r senedd yng Nghaerliwelydd yn 1307, ac a ddisgrifir fel 'rheithor eglwys Llanarmon'.[2] O chwilio yn yr achau, cafwyd hyd i Hywel ab Ithel Goch ap Cynwrig Ddewis Herod, a oedd yn byw yn Nyffryn Clwyd tua dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.[3] Mae'n bosibl mai'r gŵr hwnnw yw gwrthrych y gerdd. Ymddengys oddi wrth linellau 17–20 ei fod yn cadw gwraig ordderch, a honno o Faelor ym Mhowys Fadog.

Hon yw'r enghraifft bendant gynharaf o gerdd ofyn, a gwelir yn y llinellau agoriadol fod y bardd yn ymdeimlo â'r angen i gyfiawnhau ei waith yn mabwysiadu arfer a berthynai i'r glêr yn bennaf. Diddorol yw nodi bod hon hefyd yn cynnwys yr enghraifft gynharaf o'r term *llatai* (yn y ffurf *llateion*, ll. 14), sef y negesydd serch a welir mewn nifer o gerddi enwog gan Ddafydd ap Gwilym ychydig yn ddiweddarach.

Mesur yr awdl hon yw cyhydedd hir gydag un englyn unodl union i gloi. Mae trydydd a phedwerydd cymal y gyhydedd hir yn ffurfio un llinell o gynghanedd sain bob tro, a cheir cynghanedd yn y ddau gymal cyntaf yn aml hefyd (sain gan amlaf, er mai dau guriad sydd yn y cymal, gw. J. Morris-Jones: CD 338). Mae cynganeddiad hon yn gyflawnach na'r awdl arall a ganodd y bardd ar fesur cyhydedd hir (cerdd 5). Dim ond un enghraifft a geir yma o gynghanedd bengoll, sef llinell 6.

1 **erfid newid** Cf. *kyunewid eruid*, 'cyfnewidiad dyrnod[au]', GCBM i, 10.43, a hefyd yr ymadrodd *newidaw dyrnodeu* yn y Brutiau (gw. G

[1] Gw. D.R. Thomas: HDStA iii, 343.

[2] 'Howelum R. eccl'ie de Llanarmon', gw. *ib*. i, 317 lle dyfynnir y cofnod o *Rotuli Parliamentorum* 35 Edw. 1, K. Camgymeriad yw'r dyddiad 1317 a roddir am y cofnod hwn *ib*. ii, 83.

[3] Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Hedd' 2 a GIG xv.

484). Yr awgrym yw fod arfer y glêr o ofyn am roddion yn ddigywilydd yn clwyfo'r bardd fel cyfnewid dyrnodau.

**arfer clêr** Fel yr awgryma Huw M. Edwards, Traeth cxlix (1994), 51, mae'n debyg fod hyn, ynghyd â'r f. *erfyniaid* yn y ll. nesaf, yn cyfeirio at y Trioedd Cerdd, lle sonnir am ymbil y clerwr, tra bo'r teuluwr yn arfer *eruyn da yn deulueid heb rwy ymbil amdanaw*, GP 17.

4 **gwarawd** Ffurf 3 un.grff.myn. y f. *gwaredu*. Dibynna union ystyr y f. ar y modd y dehonglir gweddill y ll. Wrth ddiwygio *fwla* i *fwa*, sef y rhodd a erchir, cymerir mai rhyddhau neu adbrynu yw ystyr y f. Ond dylid nodi bod Huw M. Edwards, *l.c.*, yn cymryd bod *bwla* yn cyfeirio at ryw glerwr, ac felly'n deall *gwarawd* fel 'gyrrodd ymaith'.

**bwa** Llsgr. B *v6la*; diwygiwyd er mwyn gwella'r synnwyr. Mae'n wir fod y gynghanedd yn llai boddhaol fel hyn (diau mai dyna paham yr ychwanegwyd yr *l* gan ryw gopïydd), ond ceir digon o enghreifftiau o gyfatebiaeth gytseiniol anghyflawn mewn cynghanedd sain ym marddoniaeth y 14g., e.e. R 1206.9 *o boen hoen hebdaw* (Gruffudd ap Maredudd). Cymerir bod *topyn-felyn* yn a. cyfansawdd yn disgrifio'r bwa. Pren yw a ddefnyddid gan amlaf i wneud bwa, a byddai'r bwâu gorau wedi eu peintio neu eu farneisio i gadw'r pren rhag sychu; gw. cerddi Morgan Llwyd am yr hen fwa melyn, MLl i, cerddi XV a XVI.

6 **crynnu** Llsgr. B *crynu*. Dichon mai'r f. *crynnu* o *crwn* sydd yma (er na roddir esiampl gynnar yn GPC 624) yn yr ystyr 'crynhoi, casglu' ac o estyn hynny, 'crebachu'.

8 **terra** Lladin, yn golygu tir.

9 **Eryr gwŷr gwarant** Cymerir bod *gwarant* yma yn e. yn y cyflwr genidol, yn dilyn ac yn disgrifio'r *eryr gwŷr*.

14 **llateion** Negeswyr serch, gw. y nodyn cefndir uchod.

15 **Cynllaith** Cwmwd yn Swydd y Waun.

17 **nef llef** Deellir y cyfuniad i olygu 'cri nef'; disgwylid i ail elfen cyfuniad o'r fath dreiglo'n feddal ar lun y cyfuniad *hydref ddail*, ond mae angen cadw'r *ll-* yma ar gyfer y gynghanedd sain.

20 **na'm** Llsgr. B *am;* diwygiwyd gan ddilyn awgrym G 355 d.g. *dilyssu*[1].

25 **Prystatun** Yr oedd Prestatyn yn enw ar gwmwd ac ar dref yng nghantref Tegeingl, sef rhan o sir y Fflint yn ddiweddarach.

**Awrtun** Sef Owrtyn (Overton), plwyf ym Maelor Saesneg, ger Bangor Is-coed. Y tebyg yw fod hwn yn un o'r plwyfi a ddeuai dan ofal Hywel.

26 **Cunedda** Yn ôl traddodiad daeth Cunedda Wledig o'r Hen Ogledd a sefydlu brenhiniaeth yng Ngwynedd tua diwedd y 4g., gw. TYP[2] 312–13.

27–8 **Calanddydd … / … drofa** Cf. GCBM i, 21.123 *Nyd oet am Galan yt ymgelei—hael*.

28 **trafel** Llsgr. B *drauael;* diwygiwyd er mwyn y gynghanedd.

30 **côr Asa** Eglwys Gadeiriol Llanelwy, a oedd wedi ei chysegru i Asa Sant.

31 **Nudd** Sef Nudd ap Senyllt, un o'r 'Tri Hael' y cyfeiria'r beirdd ato yn aml fel safon o haelioni, gw. TYP[2] 476–7 a cf. isod 6.2 a 7.11.

33 **cadair** Fe'i defnyddir am sedd esgob mewn eglwys gadeiriol. Nid oedd Hywel yn esgob, ond awgryma'r term ei safle uchel yn Llanelwy.

34 Ymddengys mai gair cyfansawdd anorffenedig yw'r ffurf *ffraethl* a geir yn llsgr. B, ond mae hyd y ll. yn gywir hebddo fodd bynnag.

37 **poenddethol** Cymerir mai ffurf ar *dehol* 'dileu', yw'r ail elfen yma, gw. yr enghreifftiau a roddir yn GPC 919 a cf. *detholbwyll*, isod 4.71.

39 **ei dda** Deellir *ei dda* yma i olygu'r cyfoeth (materol) a ddaw i ran dyn ffodus oddi wrth Dduw. Dehongliad arall posibl fyddai 'Duw a rydd i ddyn ffodus Ei fendith'. Sylwer bod y ll. hon yn fersiwn ar y ddihareb *Dedwydd Dofydd a'i rhydd rhad* a geir yng nghasgliad John Davies yn D.

*3*

Mae'n amlwg mai gwregys a olygir wrth *cae* yma.[1] Arfer gyffredin yn y cyfnod oedd rhoi cae yn anrheg fel arwydd o serch, a chan mai merch a'i rhoes i'r bardd gellid meddwl mai'r arfer honno sydd y tu ôl i'r gerdd. Ond awgryma'r disgrifiad ohoni fel *gwraig ddiwair* yn llinell 22 mai noddwraig i'r bardd oedd yr uchelwraig briod a roesai'r cae iddo. Ni cheir dim manylion am y wraig yn y gerdd.

Cyfres o chwe englyn unodl union sydd yma, y tri cyntaf wedi eu cadwyno trwy gyrch-gymeriad a chyda diwedd y trydydd yn cyrchu'r dechrau, a'r tri arall heb unrhyw gyswllt rhyngddynt.

7 **unllythr** Ai gweld y gwregys fel llythyren addurnedig a wneir? *O* fawr efallai.

15 **rhan einioes raid** Mae'n debyg fod yma gyfeiriad at rinwedd feddyginiaethol y cae, cf. GGrG cerdd 5.

16 **enaid** Ymddengys i'r ferch roi ei gwregys ei hun i'r bardd, cf. ll. 24. Y tebyg yw fod chwarae yma ar *enaid* yn yr ystyr 'cariad', cf. isod 4.57–60.

[1] Gw. ll. 22, ac am drafodaeth ar wahanol ystyron posibl *cae*, gw. I. Williams, 'Cywydd gan Iorwerth ab y Cyriog', B i (1921–3), 50–3 a cf. GDG[3] 472.

17 **Duw y dyn** Llsgr. B *du6 dyn* sy'n peri bod y ll. yn fyr o sillaf. Nid oes cynghanedd yma, ond ceir cytseinedd ar ganol y ll.

24 **gra** At ddillad bonheddig y wraig a fu'n gwisgo'r gwregys y cyfeirir.

*4*

Nid enwir y ferch hon, ond gwelir bod ei chartref yn *Eitun* (Eutun neu Eyton heddiw) ym mhlwyf Erbistog, ger Rhiwabon. Gan fod sôn am *faengaer* (ll. 10) a *gwenllys Eitun* (ll. 30), mae'n debygol mai cartref disgynyddion Meilir Eutun oedd hwn. Gwyddys bod meibion Llywelyn ap Griffri ap Cadwgan ap Meilir yn fyw yn 1315, a dichon mai un o'i ferched ef oedd y ferch hon. Nodir dwy ferch yn yr achau, Lleucu a Margred.[1] Yr oedd y bardd yn bell oddi wrthi *uwch Caer Rhun* (ll. 32) yn sir Gaernarfon, a gwelir iddo anfon negeseuon ati heb gael yr un ateb ganddi. Ar ddiwedd y gerdd cyfeirir yn feiddgar at esiampl Adda ac Efa a'u disgynyddion cynnar yn caru yn ddilyffethair *cyn cyfraith pab na'i drabludd* (ll. 86), gan annog y ferch i fentro i'r deildy yn y goedwig. Ar agwedd gableddus y bardd yn y darn hwn, gweler Meirion Pennar, 'Dryll o dystiolaeth am y glêr', B xxviii (1979), 406–12, a Dafydd Johnston, 'Paradwys Dafydd ap Gwilym', YB xx (Caerdydd, 1995), 118–19.

Cyfres yw hon o 24 englyn, wyth ohonynt yn englynion proest a'r gweddill yn englynion unodl union. Cysylltir y saith englyn cyntaf trwy gyrch-gymeriad a chyda diwedd y seithfed yn cyrchu'r dechrau, a'r pump nesaf trwy'r un odl (ar y gair *Eitun*, sydd hefyd yn ymestyn i'r cyntaf o'r englynion proest sy'n dilyn). Ceir cyrch-gymeriad eto rhwng y pedwar englyn unodl union yn llinellau 61–76, ac mae rhyw fath o gyrch-gymeriad trwy odl yn cysylltu'r pum englyn proest sy'n cloi'r gyfres (*gyfun / un; dethol / ôl; annwyl / gwylia*). Sylwer bod gair olaf y pumed o'r englynion hynny yn cyrchu yn ôl i ddechrau'r cyntaf.[2] Ceir nifer o gynganeddion pengoll yn y gerdd hon.

3–4 Ceir y cwpled hwn gan Ddafydd ap Gwilym, GDG[3] 34 (13.23–4), a cheir ll. 4 gan Iolo Goch hefyd, GIG XIV.26.

12 **gwanllaes olwg** Deellir hwn yn ddisgrifiad o'r ferch, er y gallai hefyd fod yn ddisgrifiad o'r bardd ei hun.

26 **hawlblaid hwyl** Aralleiriwyd yn llythrennol, 'cwrs plaid yn hawlio', ond dichon mai cymhariaeth sydd yma, sef bod y ferch yn llefaru 'fel plaid erlynol'.

30 **gwenllys Eitun** Gw. y nodyn cefndir uchod.

[1] P.C. Bartrum: WG1 'Tudur Trefor' 22.

[2] Nid yw hynny'n brawf fod y pump yn ffurfio cerdd ar wahân, gan fod Casnodyn yn gwneud yr un peth yn ei awdl farwnad i Fadog, gw. R 1240–1 a J. Morris-Jones: CD 295.

32 **Caer Rhun** Caerhun yng nghantref Arllechwedd (i'r de o Gonwy). Sylwer bod y bardd yn cyfeirio at chwedl am Run ap Maelgwn Gwynedd yng ngherdd 1 uchod.

48 **heb fudd un** Mae'r gynghanedd braidd yn wan a gellid tybio mai gwall am *uun* ('fun') yw *un* y llsgr. B. Gellid wedyn aralleirio 'Aethant yn llechwraidd heb fun [yn] fudd'.

53 **llwrw cytgam llif** Anodd gwybod beth yn union yw ergyd y ddelwedd hon, onid yw'n cyfeirio at y llif unffordd o negeseuon heb ddim yn dychwelyd ato gan y ferch. Ystyr arferol *cytgam* yw 'chwarae, cellwair', fel y gwelir mewn nifer o enghreifftiau yn GPC 822, ond tybed a ydyw ystyr wreiddiol y bôn *camu* yn gryfach yma, gan gyfleu symudiad y llif?

63 **Geirioel** Sef Gregori Bab (590–604), gŵr a oedd yn enwog am ei huodledd dysgedig. Gw. ymhellach GSRh 7.37n.

64 **cain** Darllenodd Gwenogvryn Evans *gem* yn R, ond anodd yn aml yw gwahaniaethu rhwng *in* ac *m* yn y llsgr. honno. Mae'n bosibl mai *gem* yw'r darlleniad, ond os felly diwygier yn *gein* ('gain').

69 **llethrid** Llsgr. B *llethryd*, sef o bosibl 'llethrydd', ll. yr e. *llethr*, ond nid yw'r gair hwnnw yn addas yn y cyd-destun, a'r tebyg yw i'r copïydd gamddehongli ei gynsail.

71 **detholbwyll** Gallai hyn olygu 'o ddoethineb neilltuol', ond cymerir mai ffurf amrywiol ar *dehol*, 'dileu' sydd yma—cf. 2.37n ar *poenddethol*—fel yn ll. 84 isod.

74 **diawdrydd** Dichon mai ei ystyr yma yw 'rhydd [ei dafod yn] ei ddiod'.

83 **o'i** Sef amrywiad ar *i'w*, cf. ll. 84 a gw. GMW 56 ac am enghreifftiau pellach, gw. GSRh 9.2n.

**medel** Fe'i deellir yma yn golygu 'gwaith cynaeafu', GPC 2391, yn gyfeiriad at y gosb a ddaeth i ran merched yn sgil pechod Efa yng Ngardd Eden. Ni chafwyd hyd i gyfeiriad arall sy'n awgrymu mai gwaith cynaeafu a ddaeth i'w rhan, ond dichon nad yw'r cyfeiriad i'w gymryd yn llythrennol. Fodd bynnag, nid amhosibl ychwaith fyddai deall *medel* yma yn golygu 'mintai', *merched fedel* 'mintai [o] ferched'.

84 **dethol** Ffurf amrywiol ar *dehol* 'alltudio'. Gw. ll. 71n ac uchod 2.37n; a cf. RB ii.117 *A gwedy llad yneill y detholes y llall o rufein ymeith* ('Brut Sieffre'). Er y disgwylid i *dethol* dreiglo'n feddal, cymerir bod yma enghraifft o -*n dd*- yn caledu'n -*n d*-, gw. Treigladau 26–7.

91 Mae'r odl broest yn wallus yma, gan mai deuseiniaid yw'r llafariaid eraill yn y pennill. Dichon y dylid diwygio *gêl* yn *goel*.

*5*

Ceir testun golygedig a chyfieithiad Saesneg o'r gerdd hon yn erthygl T. Gwynn Jones, 'A "Court of Love" poem in Welsh', *Aberystwyth Studies*, iv (1922), 85–96. Nid oes lle i gredu bod y gerdd hon yn seiliedig ar unrhyw 'lysoedd serch' a fu ym Mhrofens, gan mai dwyn achos ffurfiol yn erbyn y ferch mewn llys barn am ei ladd trwy ei dirmyg a wna'r bardd. Gellir casglu bod topos marwolaeth y carwr gwrthodedig yn hen gyfarwydd yng Nghymru erbyn hyn, fel bod modd i'r bardd chwarae arno yn gellweirus. Mae'r manylion a roddir wrth i'r bardd gyflwyno ei achos yn y llys yn gymorth gwerthfawr i ddyddio gweithgarwch y bardd. Yr unig ganllaw cwbl bendant yw'r cyfeiriad at *sir Gaer Arfon* (ll. 25) a ddengys fod y gerdd wedi ei llunio ar ôl creu'r sir honno gan Statud Cymru yn 1284. Rhoddir dyddiad penodol i'r 'llofruddiaeth', sef *Yr unfed flwyddyn ... / Ar ddeg ... / O oed y brenin* (llau. 15, 17–18), ond, gwaetha'r modd, mae hynny'n amwys gan na ddywedir pa frenin a olygir! Dau bosibilrwydd sydd, sef Edward I neu Edward II. Daeth Edward I i'r orsedd yn 1272, felly os ato ef y cyfeirir gellir dyddio achlysur y gerdd yn 1283. Dechreuodd teyrnasiad ei fab yn 1307, felly os ato ef y cyfeirir, yna 1318 fyddai dyddiad achlysur y gerdd. Wrth gwrs, nid oes rhaid derbyn y naill na'r llall fel dyddiad ei chyfansoddi, gan fod y bardd yn cyfeirio at ddigwyddiad yn y gorffennol. Nid oes modd penderfynu rhwng y ddau ddyddiad gyda sicrwydd, ond mae un peth arall yn y gerdd sy'n taflu goleuni ar ei dyddiad, sef y cyfeiriad at *nêr nifer* (ll. 22) yn *Aber*. Yr oedd un o brif lysoedd tywysogion Gwynedd yn Abergwyngregyn ac mae'n rhaid felly mai Llywelyn ap Gruffudd yw'r *nêr nifer*. Mae'r ffaith fod y bardd yn cyfeirio ato fel *naf a gollais* (ll. 22) yn awgrymu iddo fod yn un o ddeiliaid Llywelyn, ac o bosibl yn fardd iddo hefyd.[1] Yn wyneb hynny, mae'n haws credu i'r gerdd hon gael ei chyfansoddi yn weddol fuan ar ôl marwolaeth Llywelyn, ac mai at y brenin Edward I y cyfeirir. Cynigir 1284–5 fel dyddiad y gerdd, ond gan gydnabod bod 1318–20 yn berffaith bosibl hefyd.[2]

Cyhydedd hir yw mesur yr awdl hon gydag englyn unodl union i gloi. Mae'r cynganeddu dipyn yn llacach nag yn y gerdd arall o waith Gruffudd ar y mesur hwnnw, cerdd 2 uchod, gyda nifer o gynganeddion pengoll—ffaith a allai awgrymu bod hon yn un o gerddi cynnar y bardd.

1 **lle** Dilynwyd T. Gwynn Jones, *art.cit*. 92, ac MA² 320 wrth ddiwygio'n *lles* yn Bl B XIV 23, ond nid oes rhaid diwygio mewn gwirionedd.

**geisiaw** Llsgr. B *geissa6*. Ychwanegwyd yr *i* fôn-ffurfiol yma ac yn *beiddiaw* yn ll. 6, *geiriau* yn ll. 40, a *tystiaf* yn ll. 43, gan fod

[1] Cf. *Arglwydd a gollais* ym marwnad Gruffudd ab yr Ynad Coch i Lywelyn, GBF 36.25.

[2] Gw. ymhellach D. Johnston, 'Tri chyfeiriad at Lywelyn ap Gruffudd', B xxxvi (1989), 97–101.

absenoldeb yr elfen honno yn nodwedd o dafodieithoedd y De yn yr Oesoedd Canol, gw. yr ystadegau a roddir gan P.W. Thomas yn YB xix (1993), 61–2. Wrth gymharu testunau o waith Beirdd y Tywysogion a geir yn Llyfr Coch Hergest a Llawysgrif Hendregadredd, sylwir yn aml fod y ffurfiau yn y Llyfr Coch yn ymddangos heb yr *i* fôn-ffurfiol, cf. y darlleniad amrywiol a geir yn GMB 14.79.

5 **genthi** Llsgr. B *genti*. Diwygiwyd gan mai *genthi* a geir yn gyson mewn testunau gogleddol yn y cyfnod, gw. P.W. Thomas, *op.cit*. 63.

18 **breiniog Cemais** Mae hyn yn adleisio termau cyffelyb yn y canu i dywysogion Gwynedd, megis *rwyf Kemeis*, GLlLl 9.15, a gw. D. Johnston, 'Tri chyfeiriad at Lywelyn ap Gruffudd', B xxxvi (1989), 98 am ragor o enghreifftiau. Un o gantrefi Môn oedd Cemais.

19–20 … **Llan / Yn llogawd Fodfan** Sonia Leland am Abergwyngregyn fel 'the paroche of Aber otherwise Llan Boduan', gw. LBS i, 223–4.

21 **angheudraul** Dilynwyd T. Gwynn Jones *art.cit*. 93 wrth ddiwygio'n *anghendraul* yn Bl B XIV 23 er mwyn y cytseinedd, ond nid yw cyfatebiaeth lawn yn angenrheidiol, ac mae'r ystyr yn gwbl foddhaol fel y mae.

25 **Dôn** Mam Gwydion ac Arianrhod. Rhestrir *plant don o arvon* yn Bonedd yr Arwyr, gw. TYP[2] 327.

**sir Gaer Arfon** Gw. y nodyn brig uchod.

26 **dreigau Emrais** Sef y dreigiau a fu ynghladd dan Ddinas Emrys ger Beddgelert, yn ôl traddodiad y Brutiau.

29 **ysterlingod** O'r S. *sterling*, sef darn o arian bath a oedd yn gyfredol yng nghyfnod Edward I.

31–4 Ychwanegwyd y llau. hyn wrth ymyl y ddalen gan yr un llaw â gweddill y gerdd.

34 **Carwed, Ednyfed, Ednywen Sais** Ni wyddys pwy oedd y tri chymeriad hyn.

42 **adlais** Llsgr. B *atreis*. Derbynnir y diwygiad a gynigir yn G 46 er mwyn y gynghanedd a'r ystyr.

45 **dilynwy** Llsgr. B *dilynaw*. Derbynnir awgrym G 354 ynglŷn â'r diwygiad. Posibilrwydd arall fyddai diwygio yn *dilynawd* ('dilynodd'). Am *dilynwy*, ffurf 3 un.pres.dib. y f. *dilyn*, cf. GCBM i, 5.108.

52 **Pendragon … Wrlais** Gwraig Gwrlais oedd Eigr, y ferch y cysgodd Uthr Bendragon â hi a chenhedlu Arthur, gw. TYP[2] lxxxii a cf. GSRh 3.13n.

56 Cf. o bosibl PKM 39 (llau. 8–10) *Bendigeiduran, a'r yniuer a dywedyssam ni, a hwylyssant parth ac Iwerdon, ac nyt oed uawr y weilgi, yna y ueis yd aeth ef*, a gw. *ib*. 192.

## *Atodiad I*

Ceir yr englyn hwn ar ben colofn 1266 yn Llyfr Coch Hergest. Yn y copïau o'r Llyfr Coch cymerwyd mai englyn olaf y gerdd i Gedig Sant (cerdd 1) sy'n gorffen ar waelod y golofn flaenorol ydoedd, ond o ran ei gynnwys ac oherwydd y diffyg cyrch-gymeriad mae'n amlwg nad yw'n perthyn i'r gerdd honno. Ymddengys felly mai englyn strae ydyw o ryw farwnad goll. Amhosibl yw gwybod ai Gruffudd yw'r awdur ai peidio.

# *Mynegai*

**adlais** 5.42n
**adnair** 3.21
**agwyddior** 4.43
**angheudraul** 5.21n
**alaeth** 4.37
**anoddun** 1.4, 11
**ardduniant** 2.10
**arfer** 2.1n
**argais** 3.9
**arofun** 4.39
**arwyddrwydd** 2.7
**arwyddwawd** 2.3
**arwyrain** 2.9, 3.11
**breiniog** 5.18n
**bwa** 2.4n
**cadair** 1.6n, 2.33n
**caentach** 1.13
**cain** 4.64n
**Calanddydd** 2.27n
**cannwyf** 4.69
**catgun** 2.26
**ceisiaw** 5.1n
**ciried** 2.31
**clêr** 2.1n
**coelfain** 3.1; **coelfeinau** 2.25
**cof: cofain** 3.9
**côr** 2.30n
**crynnu** 2.6
**cytgam** 4.53n
**da** 2.39n
**dadlau: dedlis** 5.47
**damaes** 5.30
**dethol** 4.84n
**detholbwyll** 4.71n
**diawdrydd** 4.74n
**dieiriach** 1.14
**dig: digach** 4.11
**dilyn: dilynwy** 5.45n
**dyfrwys** 2.19
**dyn** 3.17n
**dyrru: dyrrai** 2.8
**dysgawdr** 4.62
**eilwydd** 4.21
**einioes** 3.15n
**enaid** 3.16n
**erfid** 2.1n
**erfyniaid** 2.2
**eryr** 2.9n
**eton** 4.24
**eurddylad** 4.52
**gan: genthi** 5.5n
**girad** 4.18
**gortho** 4.1
**gra** 3.24n
**gwaeddgryg: gwaeddgreg** 4.75
**gwanllaes** 4.12n
**gwarant** 2.9n
**gwaredu: gwarawd** 2.4n
**gwenllys** 4.30n
**gwledig** 1.1n
**gŵr: gwŷr** 2.9n
**gwybod: gŵyr** 2.28, 5.31
**haddun** 4.41
**hawlblaid** 4.26n
**hepgor: hepgyr** 4.66
**hwyl** 4.26n
**hwyrged** 5.55
**hygaru: hygerais** 4.41
**Lladin** 2.29
**llaesfarn** 2.33
**llaith** 2.15
**llatai: llateion** 2.14n
**llef** 2.17n
**llethrid** 4.69n
**llif** 4.53n
**llifddwyn** 2.15

**llogawd** 5.20n
**llwrw** 4.53n
**manblaid** 3.13
**moreb** 4.22
**mynud** 4.63
**na** 2.20n
**nef** 2.17n
**newid** 2.1n
**ni** 2.28
**nwyf** 1.16n
**nwyfradd** 4.85
**pelltrig** 1.5n
**poenddethol** 2.37n
**preiddfudd** 2.31
**pruddfar** 2.31
**rhan** 3.15n
**rheufedd** 2.21
**rhwyf** 4.32
**rhyoedi: rhyoeta** 2.36
**teithdud** 4.61
**teithfad** 2.37
**terra** 2.8n
**topyn-felyn** 2.4n
**trabludd** 4.86
**trafel** 2.28n
**treiswg** 4.13
**trofa** 2.28n
**tuthfa** 2.37
**unllythr** 3.7n
**wyneb** 2.35
**ymannos** 4.45
**ynnif** 4.95
**ysterlingod** 5.29n

## *Enwau personol*

**Addaf** 4.77, 81, 85
**Asa** 2.30n
**Bodfan** 5.20n
**Carwed** 5.34
**Cedig** 1.1, 6, 10, 20
**Celi** 2.23
**Culwydd** 2.24
**Cunedda** 2.26n
**Dôn** 5.25n
**Duw** 3.17
**Ednyfed** 5.34
**Ednywen Sais** 5.34
**Efa** 4.82
**Emrais** 5.26n
**Geirioel** 4.63n
**Gruffudd** Gruffudd ap Dafydd ap Tudur 2.32
**Gwrlais** 5.52n
**Hywel** 2.28
**Mab Mair** 1.9
**Mair** 1.8 (a hefyd **Mab Mair**)
**Nudd** 2.31n
**Pendragon** 5.52n
**Rhun** 1.4, 7, 12, 18 **Rhun Hir** 1.5

*Enwau lleoedd*

**Aber** 5.21
**Arllechwedd Uchaf** 5.23
**Awrtun** 2.25n
**Caer Rhun** 4.32n
**Cemais** 5.18n
**Cynllaith** 2.15n
**Eitun** 4.30n, 35, 38, 42, 46, 52, 55
**Gwynedd** 2.22
**Iwerddon** 5.56
**Llan** 5.19n
**Maelawr** 2.18
**Môn** 4.7, 5.56
**Powys** 2.20
**Prystatun** 2.25n
**Rhos** 1.1n, 12, 15, 19
**sir Gaer Arfon** 5.25n

# GWAITH GWILYM DDU O ARFON

golygwyd gan

R. IESTYN DANIEL

# *Rhagymadrodd*

## *Bywyd y bardd*

Megis yn achos llawer o feirdd y cyfnod dan sylw, ni wyddys nemor ddim am Wilym Ddu o Arfon heblaw'r hyn y gellir ei gasglu amdano o'i waith. Nid oes, er enghraifft, unrhyw sôn amdano yn yr achau nac mewn unrhyw ddogfen gyfoes.[1] Tystia ei enw ei fod yn hanfod o Arfon, ac yn y cyswllt hwn dylid nodi ei fod, yn ôl Myrddin Fardd, sy'n dyfynnu Dafydd Ddu Eryri, yn ŵr 'a breswyliau mewn llecyn a adnabyddir hyd heddyw wrth yr enw Muriau Gwilym Ddu yn agos i Dyddyn Tudur, nid ymhell oddiwrth y Glyn llifon'.[2] Dengys ei ddwy gerdd i Syr Gruffudd Llwyd o Dregarnedd ym Môn (cerddi 6 a 7) iddo fwynhau nawdd y gŵr tra phwerus hwnnw o linach Ednyfed Fychan ac mae'r geiriau … *bûm ar ei gledd* (7.17) ynglŷn â Gruffudd yn awgrymu iddo fod yn uchel ei statws yn ei lys. Dengys yr un cerddi iddo hefyd ddioddef adfyd mawr pan garcharwyd Gruffudd yn 1316–18.[3] Ni chafwyd unrhyw ateg i'r awgrym iddo fod yn fardd i'r tywysog Llywelyn ap Gruffudd.[4] Efallai iddo fynd ar bererindod i'r Tir Sanctaidd (cerdd 9). Ynglŷn â'i ddyddiadau,[5] canodd y ddwy awdl i Ruffudd Llwyd yn y cyfnod 1316–18, ac mae'r geiriau *Neud na'm dilid llid lliaws blynedd* (7.18) yn awgrymu gŵr mewn cryn oedran. Ni wyddys am unrhyw gyfeiriadau cynnar at Wilym Ddu, ond gwelir dylanwad ei farwnad i Drahaearn ar un o gerddi Iolo Goch (gw. isod).

## *Ei waith*

Nid oes ar gadw ond pedair cerdd gan Wilym Ddu o Arfon, sef dwy awdl i Syr Gruffudd Llwyd (cerddi 6 a 7), awdl farwnad i Drahaearn Brydydd Mawr (cerdd 8), ac awdl i Iesu (cerdd 9). Defnyddir ynddynt y mesurau a ganlyn: gwawdodyn, gwawdodyn hir, toddaid, rhupunt ac englyn unodl union, ac ni lynir wrth un mesur yn unig yn yr un o'r cerddi. Gwelir dau beth yn y defnydd o'r mesurau hyn nas gwelir yng ngwaith Beirdd y

[1] Rhestrir dau Wilym Ddu yn yr achau, P.C. Bartrum: WG1 'Elystan Glodrydd' 41 a 'Drymbenog' 9, ond â De Cymru y cysylltir hwy.

[2] J. Jones, *Enwogion Sir Gaernarfon* (Caernarfon, 1922), 113 a hefyd R. Fenton, *Tours in Wales (1804–1813)*, ed. J. Fisher (London, 1917), 252.

[3] Gw. y nodiadau cefndir i gerddi 6 a 7 isod.

[4] Gw. ByCy 306.

[5] 1400 yw'r dyddiad a rydd John Davies Mallwyd yn ei restr o feirdd ar ddiwedd D, ond mae'n amlwg fod hyn yn anghywir. Yn ôl ByCy 306, *c*. 1280–1320, ond ymddengys fod hyn yn seiliedig ar awgrym Myrddin Fardd sydd yn ei dro yn unol ag eiddo O. Jones: Cymru ii, 606.

Tywysogion, sef llinynnu toddeidiau[6] ac agor awdl ag englyn. Caeth, cywrain a chyfoethog yw cynganeddiad y cerddi, gydag ychydig o linellau yn unig yn ddigynghanedd a'r gynghanedd sain a sain bengoll yn arglwyddiaethu. Cymharol syml, ar y llaw arall, yw'r brawddegu. Nodweddir y cerddi hyn nid yn unig gan gywreinrwydd crefft, ond hefyd gan ddyfnder a diffuantrwydd teimlad—o'r loes a deimla'r bardd oherwydd carcharu Gruffudd Llwyd, i'w obaith am fynd i'r Tir Sanctaidd,—yr hyn sy'n gwneud y cerddi'n bersonol a gwir farddonol ac yn eu gosod gyda cherddi hynotaf a mwyaf cofiadwy hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Er mai dyrnaid yn unig o'i gerddi a gadwyd, mae ansawdd y rhain yn ddigon o reswm dros ystyried Gwilym Ddu o Arfon yn fardd gwir ardderchog.

## *Dilysrwydd y cerddi*

Priodolir cerddi 6 a 7 isod i Wilym Ddu o Arfon yn Llyfr Coch Hergest yng ngholofnau 1225–8 (llawiau Hywel Fychan a 'Pheniarth 32'), y naill yn dilyn y llall. Dilynir yr ail gerdd gan fwlch sylweddol sy'n ymestyn o golofn 1228 am ddeunaw llinell hyd golofn 1229 am saith llinell, nes cyrraedd cerddi 9 ac 8 isod yng ngholofnau 1229–30 (llaw Hywel Fychan). Mae'r ddwy gerdd olaf yn ddienw, ond gan eu bod ill dwy yn gyflawn a bod y bwlch sy'n eu rhagflaenu yn ymddangos yn un bwriadol, credir yn hyderus mai gwaith Gwilym Ddu ydynt. Mae'r ffaith mai'r ddwy gerdd gyntaf yn unig sydd wrth enw'r bardd yn nodweddiadol o'r anghysonder a welir yn y Llyfr Coch wrth briodoli cyfresi o gerddi i fardd oherwydd, ambell waith, enwir y bardd naill ai yn achos pob cerdd o'r gyfres neu ynteu yn achos y gerdd gyntaf yn unig. Dichon hefyd y gellir esbonio'r bwlch. Ynglŷn â'r rhan ohono yng ngholofn 1228, ceir enghreifftiau eraill yn y Llyfr Coch o adael colofn heb ei llenwi cyn y gerdd nesaf.[7] Ynglŷn â'r rhan yng ngholofn 1229, dylid nodi nad yw'r gerdd sy'n ei dilyn (cerdd 8 isod) yn dechrau â phriflythyren addurnedig, a dichon mai'r rheswm am hyn yw nad oedd y copïydd, Hywel Fychan, yn credu mai dyma oedd ei dechrau ac mai i arwyddocáu hynny y gadawodd y bwlch. Rhesymol, felly, er nad cwbl ddiogel, yw cymryd mai gwaith Gwilym Ddu sy'n dilyn y bwlch hwn, ac nid oes dim yn y cerddi sy'n anghyson â'r casgliad hwn.

Priodolir 'Marwnad Trahaearn Brydydd Mawr' (cerdd 8) i Wilym Ddu o Arfon yn y *Myvyrian Archaiology*.[8] Darparwyd y testun hwn gan Edward

[6] Gw. J. Morris-Jones: CD 339–40. Sylwer, er hynny, fod pennill o ddau doddaid yn rhagflaenu'r traethawd 'Ymborth yr Enaid' a amserir *c.* 1240–*c.* 1260, gw. *Ymborth yr Enaid*, gol. R.I. Daniel (Caerdydd, 1995), lix, 1. Cf. hefyd gerdd 15 isod.

[7] Boed y gerdd honno gan yr un bardd neu gan un arall, cf. R 585, 1202, 1336, 1342, 1348, 1352.

[8] MA$^2$ 277.

Davies,[9] Olveston, a gwyddys i hwnnw godi ei gopïau o gerddi'r Gogynfeirdd o lyfrau William Owen [Pughe] a John Walters a bod llyfr Walters wedi ei godi o gasgliad John Davies.[10] Fe'i priodolir yng nghopi John Davies o'r gerdd i Wilym Ddu o Arfon[11] ond mewn llaw wahanol i eiddo John Davies. Ni wyddys pwy a ychwanegodd y priodoliad hwn nac ychwaith ar ba sail, oni wnaethpwyd hyn am resymau tebyg i'r rhai uchod. Nid oes unrhyw le i anghydweld â'i gasgliad.

Priodolir i Wilym Ddu o Arfon englyn a olygwyd yn Atodiad II sy'n rhan o gyfres hir o englynion gan wahanol feirdd yn coffáu coroni pob brenin a brenhines yn Lloegr o'r flwyddyn 1067 hyd 1558. Fel y dadleuwyd mewn man arall,[12] nid yw'r gadwyn hon yn gynharach na 1558, ac ni ellir derbyn, gan hynny, mai Gwilym Ddu yw awdur yr englyn.

## *Y llawysgrifau*

Ceir y testun cynharaf o waith gan Wilym Ddu o Arfon yn llawysgrif Peniarth 20, *c.* 1330, ond dryll ydyw a gyfetyb i linellau 29–32 o gerdd 6 isod.[13] Yna daw Llyfr Coch Hergest, *c.* 1400, sy'n cynnwys y cwbl o'r ychydig a gadwyd o waith y bardd.[14] Codwyd y testun i golofnau 1225–8 yn llaw Hywel Fychan (1225.32–1226.13) ac yn llaw 'Peniarth 32' (1226.14–1228.27), ac i golofnau 1229–30 yn llaw Hywel Fychan drachefn. Perthyn yr holl destunau eraill i lawysgrifau o'r unfed ganrif ar bymtheg i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a tharddant i gyd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o'r Llyfr Coch.

[9] *L.c.*

[10] [Dienw], 'Memoirs of the Rev. Edward Davies', *The Cambrian Quarterly Magazine and Celtic Repertory*, iii (1831), 415.

[11] LlGC 4973B, 294$^{v}$, *Gwilym Ddu o Arfon ai cant 1400*; anghywir yw'r dyddiad hwn a welir drachefn gan John Davies yn ei restr o feirdd ar ddiwedd D.

[12] GBDd 11–12.

[13] Ar Pen 20, gw. D. Huws, 'Llyfrau Cymraeg 1250–1400', Cylchg LlGC xxviii (1993–4), 20. Am y dryll, gw. GP 49.40–3.

[14] Ni ellir ystyried y dryll dienw yng ngholofn 1225 o'r Llyfr Coch, sy'n rhagflaenu'r gerdd gyntaf a briodolir yno i Wilym Ddu, yn waith y bardd hwn gan fod cyfnod ei wrthrych, sef Syr Dafydd Hanmer a fu farw yn 1387, yn rhy ddiweddar.

## *6*
## *Moliant Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd o Dregarnedd*

Rhên Trindawd, arawd eirf yng nghystudd!
Rhywnaethost, am bost neddeirgost Nudd,
Rhiau rhad barau, beri gorchudd,
Llew caer galchdew, glew, glyw ddadannudd.
Rhy flin yw atal llwydd arial Lludd,
Rhy flwng yw echwng Echel ddeurudd,
Rhy flaengar aerddar urddol rhoddfudd,
Hael rheflog wael rwysg, mael, er cael cyhudd,
Rhyfedd yw ynn fyw, feirdd, ni'n dyhudd,
Ei fod, rheiniad clod cledren flaenrhudd,
Rhi Dinorweg deg, dygn ryfudd—Gwynedd,
Gan Saeson Gogledd mawredd Morudd.
Lle ym am walch grym, gryd oleurudd,
Lledfrydedd mynych greddf hirnych grudd
Llwrw gohir llawir, llawer cudd—gan Eingl;
Ar llawr Caer Degeingl dygn a gystudd!
Lluoedd a wyddiad llawroddiad rhudd,
Llwybr ddrud, aer ddylud, aur ddioludd.
Lle delid llid prid, prifudd—eidduned,
Y rhyddelid ced cyd â Gruffudd.
Llwyr yn feirdd anheirdd, anhoyw drabludd,
Lliaws eisiwed am nodded Nudd.
Llwyddid ei rydid, o rad ufudd,
Llewenydd naw cant, prif foliant prudd.
Llithiwyd o'i wenllaw, boddwallaw budd,
Llafn fflamddwyn fal brwyn, brain ar goludd,
Llwybrged llawfrodded, llafrudd—gelynion,
Llew diymryson o Fôn Forudd.

Nid digerydd Duw, neud digarad—cyrdd,
Neud llai gwyrdd i fyrdd o feirdd yn rhad,
Neud lliaws frwyn cwyn canwlad—yng nghystudd
O'th atal, Ruffudd, wayw rudd roddiad.
Neud llid fy llethrid llathrad—o'th adaf,
Llathrwyrdd amdanaf i amdanad.
Neud lledfryd fy mryd, fy mrad—a ddyfu
Pan ddarfu rhi llu rhoi llaw arnad.

Neu'm lladdawdd trymgawdd llew tromgad—py wnaf?
Pam na ddoy di ataf, neu fi atad?
Neu'm llwydd tristid prid, prif wrthrychiad—wyf,
O thrigi, fy rhwyf, mywn rhwyl gaead.
Neu'm llwyrgur llafur llifiad—fy ngoroen,
Neu'm lludd dygn boen hoen hun ar lygad.
Na'm llestair, Fab Mair, mawr arnad—fy mâr,
Ellwng ym fy aerddar cadarnbar cad.
Mawr glwyf a orwyf, eryr cyrchiad—glew,
Mor oedd rhyw i'm llew llywio'r dengwlad!
Am eurglod hynod, hyn a ddiwad—Eingl,
Ym mawr glawr Tegeingl teg orbwylliad,
Am aergledd trosedd treisiad—yng nghyni
A'm erglyw Dewi gwesti gwastad,
Am arglwydd hylwydd hwyliad—yn aesor
Ar fraint carcharor cyrch oer, irad.
Pei mau pibl ddiau ddyad—Taliesin,
Pan gyrchodd Elffin, pâr trin, trychiad,
Pwyllfudd Ruffudd, bydd beiddiad—yn hëyrn,
Pen-tëyrn cedyrn, ced wallofiad,
Pybyr eryr gwŷr Gwriad—yng ngorsedd,
Pobl orfoledd, medd wledd wledychiad,
Post, catgun eiddun, ef a wyddiad—byd,
Parth esbyd, pair gryd, greidiol ffysgiad,
Na'th oedid rhydid rhad—ymadroddau,
Na'th edau doniau dinam bwylliad,
Na'th adfail buail, bwad—gwynddofydd,
Na'th adfydd i'th ddydd cynnydd cennad,
Na'th adwn, od gwn, guniad—penadur,
O fewn caer galchfur, fy modur mad.

Mad amddiffyniad, ceidwad ciwdawd,
Modur gwaywddur, mur Merfyn ddefawd,
Mydr eiriau rhiau Rhahawd—ail Morgant,
Mygr foliant Rholant ffyniant a ffawd,
Mirain Ruffudd, budd byddin wasgawd.
Morien ddysg, rhoddffysg, rheiddffyrf yng nghnawd,
Myfyr giried ced Cadrawd—Calchfynydd,
Mwyfwy gynnydd rhydd rhoddion didlawd.
Meddw y'm gwnaeth hiraeth herwr ceudawd,
Maddau fy rhiau ddau ddiwarnawd,
Meddwl lledfryd bryd modd brawd—edifar,
Meglyd draig llachar lluchynt Medrawd.

   Muner glyw clodryw, llyw llewychwawd,
   Maig un arynaig, prif ddraig priawd,
Medd wleddau doniau Dunawd—o'i gyfarch,
   Myfyr barch Llywarch, llywydd ciwdawd.
   Mi a ŵyr, fy rhi rhwyf, o ddifrawd
   Maith, fod mis hebod, ehebog ffawd.
Mygr naf, diffwysaf dy ffosawd—yn aer,
   Menestr gleddglaer taer twrw gaeafrawd.
   Mor wael atal hael hwyl Anarawd,
   Mor wan byd trymfryd wedy tromfrawd,
Mor wae ym y mae Medrawd—gyflafan,
   Yng nghastell Rhuddlan rheiddlyw walstawd.
   Archaf i Grist, Naf araf arawd,
   Er Ei galon don a'i fron friwgnawd,
Allwedd nef senedd sôn undawd—Frefi,
   Ellwng ym fy rhi, Dduw Tri Trindawd.

   Rhên Trindawd, arawd eirf yng nghystudd, &c.

*Ffynonellau*
A—BL Add 15001, f. 202$^{v}$  B—J 111, 1225  C—LlGC 2008B [= Pant 40], 212  D—LlGC 4973B, 291$^{r}$  E—Pen 118, 199

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
4 *ceir bwlch o bron i fodfedd rhwng* Llew *a* kaer. 6 deuryd. 8 reflac. 40 othrigyy. 49 argled. 53 talyein. 63 g6yndonyd. 68 g6aedur. 79 cly6. 90 reidlwy.

*Teitl*
Gwilymdu o aruon y syr gruffud vab aekant.

## *Moliant Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd o Dregarnedd*

[O] Dduw['r] Drindod, [dyma] weddi arfau dan wasgfa!
Yr wyt, parthed cynhaliwr [sy'n rhoi cymaint o] ddarpariaeth [o'i] law [â] Nudd,
Arglwydd [â] rheiddiadau [o] haelioni, wedi peri [ei] garcharu,
Llew caer dew-galchog, gŵr dewr, adferwr [treftadaeth] gwroniaid.
Rhy ofidus yw rhwystro ffyniant [un o] ffyrnigrwydd Lludd,
Rhy drist yw caethiwo [gŵr o] anrhydedd Echel,
Rhy eofn yw['r] cynheiliad brwydr anrhydeddus [a'i] ysbail [yn] rhodd[ion],
Uchelwr cyfoethog gwael [ei] rwysg [bellach], [yr] arglwydd, i ddioddef cyhuddiad.
[Peth] rhyfedd yw i ni fyw, feirdd, ni'n cysura [mwyach],
[Gan] ei fod, [y] rhoddwr clodfawr [am ei] ffon waedlyd ei blaen,
Arglwydd Dinorwig deg, dirfawr les Gwynedd,
Gyda Saeson [y] gogledd [o] fawredd Môr y Gogledd.
Trist ydyw imi ar ôl arwr nerthol, golau ei wynepryd [mewn] brwydr,
Digalondid mynych yw nodwedd hir gystudd grudd
Ar ôl atal un haelionus, [a] llawer dirgelrwydd gan Saeson;
Ar geimiad daear Caer Tegeingl cystudd blin [sydd]!
Yr oedd lluoedd yn adnabod [y] rhoddwr hael gwaedlyd,
Gwrol [ei] lwybr, canlyn[wr] brwydr, diarbed [ei] aur.
Lle delid angerdd gwerthfawr, gwrthrych dymuniad [y] budd pennaf,
Y delid rhodd ynghyd â Gruffudd.
Cyflawn i ni feirdd di-lun, anwych [ein] helynt,
Yw aml angen am nawdd Nudd.
Boed i'w ryddhad, trwy ras gostyngedig,
Hyrwyddo llawenydd naw cant, [sef] prif foliant doeth.
Porthwyd o'i law ragorol, rannwr bodd[og] ennill,
[Yr un a] chleddyf yn dwyn fflam megis brwyn, frain ar ymysgaroedd,
[Un] hael [sy'n gadael] rhoddion [ar ei] hynt, lladdwr gelynion,
Y gwron diwrthwynebiad o Fôn [i] Fôr y Gogledd.

Nid yw Duw yn ddi-fai, mae lluoedd yn wrthodedig,
Llai [niferus] yw['r] dillad gwyrdd yn anrheg i fyrdd o feirdd,
[Achos] mynych dristwch yw cwyn can ardal mewn gofid
Oherwydd dy atal, Ruffudd, [y] rhoddwr coch [dy] wayw.
Angerdd fy nisgleirdeb yw['r] disgleiriad [haelioni] o'th law,

Gwyrdd gloyw [sydd] amdanaf oddi amdanat.
Trwm yw fy ysbryd, daeth fy mrad
Pan ddarfu i frenin llu ddodi llaw arnat.
Fe’m trawodd trist ofid llew brwydr galed—beth a wnaf?
Pam na ddeui di ataf, neu fi atat?
Bydd tristwch costfawr yn ffynnu imi, disgwyliwr mawr ydwyf,
Os trigi, fy arglwydd, mewn annedd caeedig.
Fe’m tery’n llwyr gwewyr llifeiriant fy llawenydd,
Mae poen llym yn atal llawenydd cwsg ar lygad imi.
Na’m rhwystra, Fab Mair, mawr yw fy nicter tuag atat,
Rhyddha imi fy mhost cad [â] gwaywffon gadarn [mewn] byddin.
Yr wyf wedi cael clwyf mawr, [O] eryr ymosodiad glew,
Mor naturiol fyddai i’m llew reoli’r deg ardal!
Parthed [un] clodwiw [ac] amlwg, hyn a wrthyd Saeson,
Ar dir eang Tegeingl sôn da [sydd],
Am frwydrgledd [yn dwyn] gorchest concrwr mewn brwydr
Bydd Dewi [sydd â] chynhaliaeth gyson yn fy nghlywed,
Parthed arglwydd ebrwydd [ei] gwrs ymysg tarianau
[Sydd] yn null [un sy’n] garcharor [o ganlyniad i] gyrch trist, chwerw.
Pe bai eiddof fi [fai] awdurdod sicr ffurf [awen] Taliesin,
Pan gyrchodd [ef] Elffin, [y] gwayw brwydr, [y] lladdwr,
Gruffudd [a’i] ennill [o] ddoethineb, bydd yn anturiwr mewn arfwisg,
Prif bennaeth cedyrn [ydyw], rhannwr rhodd,
Eryr disglair gwŷr Gwriad yn [ei] lys,
Gorfoledd pobl, llywydd gwledd [o] fedd,
[Y] piler, [yr] arweinydd brwydr delfrydol, fe wyddai’r byd,
Pleidiwr gwesteion, arglwydd cad, ymosodwr ffyrnig,
Na ohirid iti ryddid ymadroddion graslon,
Na fydd doniau bwriad di-fai yn dy adael,
Na fydd cyrn yfed yn darfod iti, yr oeddet yn arglwydd bendigaid,
Na fydd llwyddiant [a ddatgenir trwy] negesydd yn peidio iti yn dy ddydd,
Na fyddwn [i], yn wir, yn dy adael, bennaeth pendefigaidd,
Mewn caer galchfur, fy arglwydd mad.

Amddiffynnwr daionus [ydwyt], ceidwad pobl,
Pennaeth [â] gwayw dur, amddiffynnwr [yn] null Merfyn,
[Gwrthrych] geiriau mydr brenin [fel] Rhahawd ail Morgant,
[Un o] fawl ysblennydd Rholant [o ran] ffyniant a ffawd,

Ruffudd wych, amddiffynnwr ysbail byddin.
[Un â] medr Morien [ydwyt], [yn] dwyn rhuthr sydyn, cadarn fel gwaywffon yng nghnawd [dy elynion],
[Â] haelioni ystyriol [nodweddiadol o] rodd [gan] Gadrawd Calchfynydd,
Mwyfwy cynnydd dilestair rhoddion drudfawr.
Fe'm gwnaeth yn feddw hiraeth [am] ŵr deol [mewn] dwnsiwn,
Bod heb fy arglwydd [am] ddau ddiwrnod,
Meddwl trist yw [fy] mryd megis gresyni['r] ddedfryd,
Maglu gwron disglair [â'r gallu i ddwyn] cyrch ffyrnig [megis eiddo] Medrawd.
Arglwydd glewion o dras glodfawr [ydwyt], arweinydd [sy'n destun] canu ysblennydd,
[Un yn peri'r] un dychryn â Maig, arwr mawr arbennig,
[Darparwr] gwleddau medd [megis] rhoddion Dunawd o ofyn iddo,
[Un â] pharch ystyriol Llywarch, arweinydd pobl.
Myfi a wn, f'arglwydd bennaeth, oddi wrth niwed
Mawr, fod mis hebot, arwr ffawd.
[O] bennaeth gwych, aruthraf yw dy ergyd mewn brwydr,
Gweinyddwr gloyw dy gledd, dygn yw twrw [dy] storm aeaf.
Mor ddreng yw atal un ucheldras [tebyg ei] gyrch [i] Anarawd,
Mor eiddil yw byd trist ei feddwl ar ôl dedfryd druenus,
Mor adfydus imi yw dyrnod Medrod,
Yng nghastell Rhuddlan [wele] ladmerydd [o] arglwydd gwaywffon.
Archaf i Grist, Arglwydd gweddi ostyngedig,
Ar gyfrif Ei galon ddrylliog a'i fynwes o gnawd briwedig,
Agoriad nef synod Brefi o enw undod,
[Iddo] ryddhau imi f'arglwydd, Dduw Tri [Pherson y] Drindod.

[O] Dduw['r] Drindod, [dyma] weddi arfau dan wasgfa, &c.

## *7*
## *Moliant Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd o Dregarnedd*

Neud cynechrau Mai, mau anhunedd,
Neud caeth, ysywaeth, a maeth a medd.
Neud cynhebig dig, dygn a drosedd—trist,
Er pan ddelid Crist, weddw athrist wedd.
Neu'm cur o lafur ymaelofedd,
Neud cerydd Dofydd nad rhydd rhuddgledd,
Neud cof sy ynof, ys anwedd—ei faint,
Neud cywala haint hynt ddiryfedd,
Neud caeth y'm dilid llid llaweredd,
Neud caith beirdd cyfiaith am eu cyfedd,
Neud caethiwed ced nad rhydd cydwedd—Nudd,
Cadrwalch Ruffudd brudd, breiddin tachwedd.
Neud cwyn beirdd trylwyn meddw ancwyn medd,
Neud cawdd ym annawdd menestr canwledd,
Neud carchar anwar, enwiredd—Eingldud,
Aerddraig Llanrhystud, fynud fonedd.
Neud na'm dyhudd budd, bûm ar ei gledd,
Neud na'm dilid llid lliaws blynedd,
Neud na'm dawr, Duw mawr, marannedd—naf glyw,
Neud nad rhydd fy llyw, llew Trefgarnedd.
Neur wn o'i eisiau ddau ddigyfedd,
Neur ŵyr beirdd canwlad nad rhad rheufedd,
Neud ef arwydd gwir, neud oferedd—gwŷr,
Wrth weled fy eryr yn ei fawredd.
Neud truan y'm gwân gwayw lledfrydedd,
Neud trwydded galed ym amgeledd,
Neud trymfryd Gwyndyd, gwander dyedd—braw,
Neud traw eu treisiaw am eu trosedd,
Neud trahir gohir gloyw babir gledd,
Neud tra blwng echwng Echel ddewredd,
Neud trai cwbl o'r Mai mawredd—allwynin,
Neud mis Mehefin, weddw orllin wedd.

Neud mis Mehefin, mau hefyd—gystudd,
Neud nad rhydd Gruffudd wayw rhudd yn rhyd,
Neud erwan y'm gwân gwayw cryd—engiriawl,
Neud am ddraig urddawl diddawl y'm dyd,

Neud erwyr o'm gŵyr y'm gweryd—Crist Nêr,
    Neud arfer ofer beirdd nifer byd,
Neud arwydd na'm llwydd lledfryd—i'm calon,
    Neud eres nad ton hon ar ei hyd.
Mau ynof mawrgof am ergyd—gofal,
    Am atal arial Urien yng ngryd;
Mal cofain cywrain Cywryd—fardd Dunawd
    Mau i'm draig priawd gwawd ni bo gwŷd;
Mau gwawtgan Afan ufuddfryd,—ffrwythlawn,
    O gof Cadwallawn brenhinddawn bryd.
Ni wn walch gwaywdwn gwawd ddihewyd—clod
    A thi heb ddyfod: pa dda bod byd?
Neur ŵyr pawb yn llwyr, Llŷr wryd—gynnal,
    Nad hylithr aur mâl mel i wrthyd,
Nad oes nerth madferth ym myd—o'th eisau,
    Gwleddau na byrddau na beirdd yng nghlyd,
Nad oes lys ysbys (esbyd—neud dibeirch),
    Nad oes feirch na seirch na serch hyfryd,
Nad oes wedd na moes masw Ynyd—i'n gwlad,
    Nad oes rad na mad, eithr gwad a gwŷd.
Neud gwagedd trosedd traws gedernyd—Môn,
    Neud gweigion Arfon is Rheon rhyd,
Neud gwan Gwynedd fan, fen ydd ergyd—cur,
    Neud gwael am fodur eglur oglyd,
Neud blwyddyn i ddyn ddiofryd—a gâr,
    Neud blaengar carchar grym aerbar gryd.

*Ffynonellau*
A—BL Add 15001, $204^{\mathrm{r}}$  B—J 111, 1227  C—LlGC 2021B [= Pant 53], $41^{\mathrm{r}}$
D—LlGC 4973B, $292^{\mathrm{v}}$  E—Pen 118, 200

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
3 net; tist. 5 ym aeloued. 7 net. 18 diit. 21 wur. 27 gỽynd. 28 trỽy. 45 gỽaỽt gan 49 llyyr vryt. 55 yỽngỽlat.

*Teitl*
Llyma odleu ymissoed a gant gỽilym du y syr gruffud.

*Moliant Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd o Dregarnedd*

Dechrau Mai ydyw, eiddof i yw anhunedd,
Cyfyngedig, ysywaeth, yw cynhaliaeth yn ogystal â medd.
Tebyg yw[’r] gofid, [canlyniad] trosedd dybryd [a] thrist,
[I’r gofid hwnnw] er pan ddaliwyd Crist, [gŵr o] wedd ofidus [a] diymgeledd.
Fe bair i mi nychu o galedi [*sc*. cyfyngdra] haelioni,
Cosb Duw yw nad yw[’r un â’r] cleddyf llafngoch yn rhydd,
Cof sydd ynof, anferth yw ei faint,
Yr un maint yw haint [o] gwrs gormesol,
Yn dynn y pwysa dicter llaweroedd arnaf [oherwydd ei garcharu],
Gwasgedig yw[’r] beirdd brodorol oherwydd eu cydymaith,
Cyfyngiad [ar] rodd[ion] yw nad yw cyffelyb Nudd yn rhydd,
Gruffudd [y] gwron hardd [a] chall, [dygwr] ysbail [mewn] laddfa.
Cwyn beirdd disglair yw [cwyn am] feddwol wledd [o] fedd,
Gofid imi yw anffawd tywalltwr diod cant o wleddoedd,
Mewn carchar creulon, [effaith] anghyfiawnder Saeson bobl,
Y mae cad-wron Llanrhystud, [o] dras foneddigaidd.
Nid yw golud yn fy nghysuro [mwyach], bûm ar ei aswy,
Nid yw angerdd blynyddoedd lawer yn fy hebrwng,
Nid yw, Dduw mawr, goludoedd arglwydd[i] glewion o bwys gennyf,
Nid yw fy mhennaeth, llew Tregarnedd, yn rhydd.
Adwaen ddau [sy’n] ddigyfaill oherwydd ei eisiau,
Gŵyr beirdd cant o ardaloedd nad ffafr yw cyfoeth [mwyach],
Arwydd o[’r] gwirionedd ydyw [ef], oferedd arwyr yw,
Wrth weld fy eryr yn ei fawredd.
Yn druenus y mae gloes gofid yn fy mrathu,
Cynhaliaeth grintach imi yw nawdd,
Trwmgalon yw pobl Gwynedd, llesgedd cyni braw [sydd],
Ergyd yw eu treisio am eu rhagoriaeth,
Hir iawn yw oediad [yr un a] chleddyf [fel] canhwyllau [*sc*. goleuni] disglair,
Trist iawn yw caethiwo [gŵr o] ddewredd Echel,
Lleihad llwyr ar Fai fu [ei] fawredd trist,
[Bellach dyma] fis Mehefin, [a’i] wedd amddifad o rysedd.

Mis Mehefin [ydyw], eiddof fi hefyd yw cystudd,
Nid yw Gruffudd [â] gwaywffon goch ar ryd yn rhydd [i ymladd],

Yn llym y mae gloes cryndod creulon yn fy ngwanu,
Oherwydd gwron urddol y gwna [hynny] fi'n ddigyfran,
Yn hwyr y bydd Crist Arglwydd yn fy achub o'm disberod,
Arfer ofer tyrfa['r] byd o feirdd ydyw [hyn],
Arwydd na lwydda i mi yw tristwch yn fy nghalon,
Rhyfedd ydyw nad yw hon yn ddrylliedig drwyddi.
Eiddof yw cof mawr ynof am ergyd pryder,
Am atal [un o] ffyrnigrwydd Urien mewn brwydr;
[Cof] fel cofion celfydd Cywryd fardd Dunawd
Eiddof yw [canu] cân na fo'n feius i'm harwr priodol;
Eiddof yw [canu] cerdd foliant [megis un] Afan ufudd ei fryd, cynhyrchiol,
O goffa am Gadwallon [â] phryd [o] gynhysgaeth frenhinol.
Nid wyf yn adnabod gwron drylliedig ei waywffon [sy'n wrthrych] sêl cân [o] glod
A thithau heb [allu] dod [allan]: pa les bod bywyd?
Gŵyr pawb yn hollol, gynhaliwr cryfder Llŷr,
Nad llifeiriol yw aur mâl fel [yr oedd] oddi wrthyt,
Nad oes nerth da a hardd yn [y] byd oherwydd dy eisiau,
Gwleddau na byrddau na beirdd mewn lle clyd,
Nad oes lys adnabyddus (dirmygedig yw ymwelwyr),
Nad oes feirch na harneisiau na serchowgrwydd swynol,
Nad oes drefn nac arfer llon [ar ddydd Mawrth] Ynyd yn ein gwlad,
Nad oes haelioni na daioni, eithr nacâd a drygioni.
Gwegi [bellach] yw rhagoriaeth cadernid nerthol Môn,
Llwm yw [pobl] Arfon islaw rhyd [Afon] Rheon,
Gwan yw Gwynedd ardderchog, lle mae pryder yn curo,
Truenus yw [hi] oherwydd [diffyg] pennaeth [o] warchodaeth ddisglair,
Blwyddyn ydyw i ddyn ymwadu â [phopeth] a gâr,
Rhyfygus yw carchar[u'r gŵr â] grym cadwayw rhyfel.

## *8*
## *Marwnad Trahaearn Brydydd Mawr*

Ffrwythlawn a chyfiawn â chyfoeth—ei gerdd
Gwrdd Drahaearn eirgoeth;
Ffawd gwŷr oednawd gwarednoeth,
Ffraeth dafawd, detholwawd doeth.

Doeth inni gŵyn o'i ddwyn o'i ddawn—gynnydd,
Detholrydd brydydd, brawd ffydd ffyddlawn,
Doethfab rhwy Goronwy gair uniawn,—syberw,
Doeth, dichwerw ei ferw hyd wlad Feiriawn.
Dyhir na welir gwaladr nawn—gerddau,
Diau yw angau dagrau digrawn.
Da fu ffawd ei wawd i Wiawn—ddewin,
Da Fyrddin a'i lin o lwyth Meirchiawn;
Da Lefoed eirioed o'i radlawn—arddelw,
Da arddelw cynnelw Cynddelw ceinddawn;
Da Elidir gwir, gwarant iawn—ganon,
Gŵr o ddoethion Môn, mynwes eigiawn;
Da Lywarch cyfarch cyfenw iawn—urddas,
Da Ddafydd Benfras ddigas ddigawn,
Da o Ddyfed ced Cadwgawn—Ruffudd,
Da o'r iaith ddigudd araith Wgawn;
Da oedd, rhwng caeroedd Ceredigiawn—rym,
Phylip a Gwilym aethlym wythlawn;
Da gyforun un Einiawn—fab Gwalchmai
A ganai, ffynnai fal berw ffynnawn!
Da Gnepyn warthryn o Werthryniawn—dud,
Oedd gerdd esgud, lud, Ladin gyfiawn;
Llygad Gŵr o Dŵr Edeirniawn—ardal,
Odid ei gystal, ynial uniawn.
O dydwed fawr lled hyd fôr llawn—yng Ngwy,
Hyd Gawrnwy fudd rhwy ar fedd Rhufawn,
Trahaearn, o'm barn, em beirniawn,—cerddraid,
Oedd blaid penceirddiaid, ceimiaid camawn.
Trindawd, tros folawd, fal y'i gwnawn—i'th fraint,
Trwy eirioledd saint ceraint Carawn,
Tro raid ei enaid i uniawn—gynnwys
Trefred baradwys ffraethlwys ffrwythlawn.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14867, 210[r] B—BL Add 14934, 166[r] C—BL Add 14970, 184[r] D—BL Add 15001, 205[r] E—BL Add 15034, 152[r] F—J 111 1229 G—LlGC 1984B [= Pant 15], 63 H—LlGC 4973B, 294[r] I—Pen 118, 201 (llau. 5–36)

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif F, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
5 ynn. 9 waladyr; kerdeu. 13 lef oet. 30 rua6n. 35 gym6ys.

## *Marwnad Trahaearn Brydydd Mawr*

Grymus a chywir a chyfoethog ei gân
Oedd Trahaearn nerthol [a] chywrain ei ymadrodd;
Tynged gwŷr meidrol eu natur [a] diwaredigaeth [fu iddo],
[Un] parod [ei] dafod, coeth ei gân [a] doeth.

Daeth galar inni oherwydd ei gipio o ganol llwyddiant ei awen,
Prydydd coethrydd, brawd ffydd ffyddlon,
Mab doeth [yr] arglwydd Goronwy cywir [ei] air, urddasol,
Doeth, melys ei fwrlwm [cân] hyd at wlad Meirion.
Dybryd [o beth] yw na welir [mwyach] arglwydd cerddi [ar eu] hanterth,
Anochel yw angau [a'i] ddagrau dibrin.
Da fu ffyniant ei gân i['r un megis] Gwion ddewin,
[Megis] Myrddin da a'i linach o wehelyth Meirchion;
Llefoed da [ydoedd] erioed oherwydd ei arddeliad hael,
[Ei] arddeliad da [o] gefnogaeth foliant Cynddelw dillyn ei awen;
Elidir da [a] ffyddlon [ydoedd], sicrwydd safon union,
Gwron o blith dysgedigion Môn, [ym] mynwes [yr] eigion;
Llywarch da [sy'n] hawlio cyfenw [o] urddas priodol [ydoedd],
Dafydd Benfras da [a] hoffus dros ben,
Da oedd Gruffudd o Ddyfed [a chanddo] ddawn [megis eiddo] Cadwgan,
Da oedd Gwgon eglur [ei] ymadrodd o'r iaith [Gymraeg];
Da oedd, rhwng caerau [sy'n] gadernid Ceredigion,
Phylip a Gwilym poenllym, ffyrnig;
Da unseinedd oedd un [megis] Einion fab Gwalchmai
A ganai [ac a] ffynnai fel bwrlwm ffynnon!
Cnepyn da a wrthodai amarch o wlad Gwerthrynion [ydoedd],
Yr oedd canu buan, clòs [ei wead ganddo, fel] Lladin gymesur;
Llygad Gŵr o ardal Tŵr Edeirnion [ydoedd],
Prin yr oedd ei gystal, [yr un] union odiaeth [ei gerdd].
O['r] ddaear fawr [ei] lled hyd [y] môr llawn yn [Afon] Gwy,
Cyn belled â Chawrnwy [o] gyfoeth helaeth ger bedd Rhufon,
Trahaearn, i'm bryd, perl cywir ei farn, yn hawlio cerdd,
Oedd yn gefnogwr penceirddiaid, pen-campwyr [mewn] brwydr.
[O] Drindod, yn gyfnewid am folawd, megis [yr un] yr ydym yn ei wneud er Dy anrhydedd,
Trwy eiriolaeth saint tylwyth Caron,
Cyfeiria angen ei enaid i groeso cyfiawn
Trigfan paradwys nwyfus, hardd, ffrwythlon.

## *9*
## *Awdl i Iesu*

Diwyd yw, i’m bryd, Brawd hedd—pur uncof,
Pâr encyd i’m buchedd,
Duw yn fach, morach Mawredd,
Dwyn croes daith fwyn, Crist, i’th fedd.

Bedd Mawredd maith, Pen-rhwyddnen rhaith, bid obaith byd.
Byddwn yno, budd i’n hoywfro, byddin hyfryd.
Boddiannwn Grist, byddin ddidrist, budd iawn ddedryd.
Buan y tyn y breisglu gwyn, nid brwysgle gwŷd.
Poenddoluriodd pan ein creodd Creawdr bywyd,
Brenin trachoeth o’r un cyfoeth, Ŵr, a’n cyfyd
Fry ar ddeau o rwym beddau, temlau tomlyd.
Delid ynof diladd geingof dileddf gyngyd,
Duw, Dy ganlyn, diwael Oesbryn, dwywawl Ysbryd.
Da fydd tyfiant, dwysg ogoniant, dysg i gennyd;
Broydd Asia ac Affrica, pla o’u plegyd!
Bara yn gig a’n pair Gwledig gwlad lân fywyd;
Bydd gwaed o’r gwin, boed yn fy min, Dewin diwyd.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 204$^{v}$ B—J 111, 1229 C—LlGC 4973B, 293$^{v}$ (llau. 5–17) D—Pen 118, 201 (llau. 5–17)

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i’r holl lawysgrifau eraill un ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniad y llawysgrif*

12 Delyt.

## *Awdl i Iesu*

Ffyddlon yw[’r] Brawd tangnefedd [o] bur un feddwl, yn fy marn [i],
Dyro ysbaid yn fy muchedd,
[A] Duw yn Warantwr, llawenydd [y] Mawredd,
[Sef i] ddwyn croes lesol [ei] thaith, Grist, i’th fedd.

Boed bedd [y] Mawredd maith, Pen Arglwydd haelionus [y] ddeddf, yn obaith bywyd.
Boed i ni fod yno, [yn] lles i’n gwlad lawen, [yn] llu braf.
Boed i ni foddio Crist, [yn] llu dedwydd, [yn dderbynwyr] bendith dedfryd gyfiawn.
Buan y tyn [y bedd] y nerthol lu gwynfydedig, nid lle meddw drygioni [mohono].
Poenodd Creawdr bywyd yn ddwys pan greodd ni,
Bydd [y] Brenin tra chelfydd, yn meddu gallu unigryw, [ac eto’n] Ŵr, yn ein codi
Uchod ar [Ei] ddeheulaw o gaethiwed beddau, gorweddfâu tomlyd.
Arhosed ynof anniflan gof gwiw [am] fwriad diysgog,
[O] Dduw, [i’]th ganlyn, ardderchog Brynwr bywyd, [yr] Ysbryd dwyfol.
Da fydd cynnydd, gogoniant llif[eiriol], hyfforddiant oddi wrthyt;
[Am] wledydd Asia ac Affrica, melltith o’u plegid!
Bara yn gig i ni a wna Arglwydd gwlad bywyd pur;
Bydd gwaed o’r gwin, boed [hwnnw] ar fy ngwefus, Wneuthurwr gwyrthiau ffyddlon.

## *Atodiad II*

### *Coffáu coroni Edward II*

Saith fu oed Iesu, n’ad Ei sail—i’th rif,
Mil a thrichant wiwsail;
A choron Loegr, wych arail,
Yr aeth gan Edward yr Ail.

*Ffynonellau*
A—BL Add 14979, $207^{r}$  B—BL Add 14990, $90^{r}$  C—BL Add 15003, $129^{r}$
D—Gwyn 19, 123  E—LlGC 3049D [= Mos 146], 509  F—Pen 197, 176

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif A, yr un cynharaf, efallai. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Amrywiadau*
1 *DF* da wiw-sail, wŷch rif; *E* ath. 2 *DF* eur-sail.

*Olnod*
*ABDEF* Gwilim dhu o Arvon, *C* Gwilym Ddu o Arfon ai cant.

### *Coffáu coroni Edward II*

Saith fu oed Iesu, paid â hepgor Ei sylfaen ar gyfer dy rif,
Sylfaen ardderchog [o] fil a thri chant;
A choron Lloegr, gofal gwych,
A gafodd Edward yr Ail.

# *Nodiadau*

## *6*

Canwyd yr awdl hon i Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd ab Ednyfed Fychan pan oedd yng ngharchar. Yr oedd yn un o'r ffigurau pwysicaf yng ngweinyddiad Cymru dan y Goron yn ystod traean cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg; yr oedd yn berchen tiroedd lawer ac yn noddwr beirdd.[1] Cafodd Gruffudd Llwyd ei garcharu deirgwaith yn ystod ei oes. Fe'i carcharwyd am y tro cyntaf tua diwedd 1295. Yn gynharach y flwyddyn honno fe'i rhestrir ymhlith y gwŷr meirch a wasanaethai yn y fyddin a gasglodd Edward I i ddarostwng gwrthryfel Madog ap Llywelyn, ond cyfeiria croniclydd Caer at ei dywys i Lundain yn garcharor, ac i'r adeg hon y perthyn deiseb Gruffudd ei hun yn gofyn i'r brenin ei ryddhau.[2] Ni wyddys pam y cafodd Gruffudd ei gaethiwo. Yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun, fe'i carcharwyd 'drwy falais ei elynion', a hynny am chwe mis.

Collodd ei ryddid eilwaith yn 1316–18, ac mae'r amgylchiadau eto yn ddyrys. Yn 1315–16 bu'n flaenllaw yng ngwasanaeth Edward II ar adeg argyfyngus. Cododd Llywelyn Bren mewn gwrthryfel ym Mlaenau Morgannwg ac yr oedd pryder y byddai'r Albanwyr, a oedd eisoes yn dwyn rhyfel i Iwerddon dan arweiniad Edward Bruce, yn cyfeirio eu lluoedd i Gymru ac yn ennyn ymateb ymhlith y Cymry yn gyffredinol. Dengys y dystiolaeth fod Gruffudd Llwyd yn weithgar yn achos y brenin, a bod y brenin yn dibynnu ar ei gyngor. Ond, am ryw reswm, fe'i carcharwyd am ddeunaw mis, eto yn ôl ei dystiolaeth ei hun, a dengys dogfen arall iddo dreulio'r pymtheg wythnos gyntaf yng nghastell Rhuddlan.[3] Gellir casglu felly iddo gael ei garcharu ym mis Rhagfyr 1316, a byddai caethiwed o ddeunaw mis yn

[1] Ar Ruffudd Llwyd, gw. J.G. Edwards, 'Sir Gruffydd Llwyd', *English Historical Review*, xxx (1915), 589–601; ByCy 299–300; J.B. Smith, 'Gruffydd Llwyd and the Celtic Alliance, 1315–18', B xxvi (1974–6), 463–78; *id*., 'Edward II and the Allegiance of Wales', Cylchg HC viii (1976–7), 125–69. Diolchir yn arbennig i'r Athro Smith am ei gymorth wrth lunio'r nodyn hwn.

[2] Am ei wasanaeth milwrol, gw. PRO E101/5/18; am y ddeiseb, gw. J.G. Edwards, *art.cit*. 600–1.

[3] Gw. J.B. Smith, 'Gruffydd Llwyd and the Celtic Alliance, 1315–18', B xxvi (1974–6), 463–7; cyhoeddir deiseb Gruffudd, *ib*. 476–7, a chais Hugh de Sprotton am gostau carcharu Gruffudd yn Rhuddlan, *ib*. 477. Trafodir, *ib*. 468–75, dystiolaeth dau lythyr (y cafwyd testunau ohonynt gan Robert Vaughan), y naill gan Edward Bruce yn galw am uno'r Albanwyr a'r Cymry mewn cydymdrech yn erbyn y Saeson a llythyr gan Ruffudd Llwyd yn ymateb i'r alwad. Mae'n rhaid bod yn wyliadwrus wrth ystyried y llythyrau hyn. Dyrys hefyd, ond perthnasol, yw perthynas Gruffudd a Roger Mortimer o'r Waun, ac fe all anghydfod rhyngddynt oddeutu 1316 esbonio ymgyrch Gruffudd yn erbyn Mortimer yn 1321–2, gw. *id*., 'Edward II and the Allegiance of Wales', Cylchg HC viii (1976–7), 159–61.

gyson â'i absenoldeb o ddogfennau'r llywodraeth o ddiwedd 1316 hyd ei benodi i gyfrifoldeb newydd ym mis Tachwedd 1318.

Cafodd drydydd tymor o garchar yn 1327 ac mae'r rheswm yn amlwg y tro hwn. Gwyddys bod cynllwyn ymhlith nifer o Gymry blaenllaw i ryddhau'r Brenin Edward II (a oedd wedi ei ddiorseddu) o gastell Berkeley. Yr oedd Gruffudd Llwyd yn un o dri ar ddeg a dreuliodd beth amser yng nghastell Caernarfon cyn ei ryddhau yn unol â gorchymyn a roddwyd ar 26 Hydref.[4]

Gellir bod yn sicr mai ar adeg yr ail garchariad yn 1316–18 y cyfansoddwyd y gerdd hon a'r gerdd ddilynol i Ruffudd Llwyd. Dywed y bardd yn glir yn y gerdd hon mai yng Nghaer Degeingl (ll. 16), sef Rhuddlan (ll. 90) yr oedd, a honno, mae'r siŵr, oedd y *gaer galchdew* (ll. 4). Nid oes awgrym cyffelyb ynglŷn â man carcharu Gruffudd yng ngherdd 7. Gellir casglu i gerdd 6 gael ei chanu yn ystod y pymtheg wythnos gyntaf yn dilyn carcharu Gruffudd yn Rhagfyr 1316, a'i fod, erbyn canu'r gerdd ddilynol, a ganwyd ym misoedd Mai a Mehefin, wedi ei symud i garchar gwahanol. Gwyddys iddo gael ei dywys i Dŵr Llundain yn Ebrill 1317.[5] Ymddengys i'r gerdd gyntaf hon gael ei chanu rhwng Rhagfyr 1316 a mis Mawrth neu ddechrau Ebrill 1317.

Er mai Gruffudd Llwyd yw gwrthrych yr awdl, corfforwyd ei foliant o fewn ffrâm gweddi i Grist yn ymbil am ei ryddhau. Gresyna'r bardd nid yn unig am garchariad ei noddwr ond hefyd am y diflastod a'r cyni a achoswyd trwy hynny iddo ef a'i gyd-feirdd, ac nid ymetyl rhag ceryddu'r Duwdod am y trychineb. Perthyn dwyster ac ing anghyffredin i'r gerdd a dengys mor druenus ddiymadferth oedd y beirdd a noddid gan Ruffudd o'i golli. Nid llai trawiadol yw'r llu o arwyr a gwŷr enwog y cyffelybir Gruffudd iddynt (gw. llau. 68 ymlaen yn neilltuol).

Canwyd yr awdl ar dri mesur gwahanol. Mae'r caniad cyntaf ar fesur gwawdodyn hir a gwawdodyn; cyfres o doddeidiau yw'r ail ganiad;[6] ac mae'r trydydd ar fesur gwawdodyn. Fe'i cynganeddwyd bron yn llwyr, gyda chanran uchel iawn o gynganeddion sain, a llawer o'r rheini yn bengoll. Mae llinellau 8, 38, 44 yn rhy hir o sillaf fel y safant (ond gw. y nodiadau isod).

2 **neddeirgost Nudd** Ar Nudd, un o'r 'Tri Hael', gw. uchod 2.31n. Cyfosodir *neddair* a *Nudd* eto yn GSRh 6.13, gw. *ib*.n.

4 **caer galchdew** Sef castell Rhuddlan, gw. isod llau. 16 a 90 a'r nodyn cefndir uchod. Mae nifer o gyfeiriadau yn y farddoniaeth yn awgrymu

[4] *Ib*. 164–7.

[5] *Id*. 'Gruffydd Llwyd and the Celtic Alliance, 1315–18', B xxvi (1974–6), 466.

[6] Ar yr arfer anghyffredin o linynnu toddeidiau a welir yn yr awdl hon a'r un ganlynol, gw. y rhagymadrodd uchod a cf. cerdd 15 isod.

bod cestyll a llysoedd yn cael eu gwyngalchu yn y cyfnod hwnnw, cf. GSRh 1.29 *Rhoddiad Angharad yng ngheyrydd—gwyngalch* (Sefnyn).

5 **Lludd** Lludd mab Beli, arwr yn y chwedl 'Cyfranc Lludd a Llefelys' a waredodd Ynys Prydain rhag tair gormes, gw. TYP[2] 424–7.

6 **Echel** Sef Achilles, arwr y Groegiaid yng Nghaerdroia; gw. TYP[2] 335–6 am gyfeiriadau pellach ato gan y beirdd. Gw. hefyd isod 7.30.

**deurudd** Llsgr. B *deuryd*. Ar gymysgu seiniau *u* ac *y* mewn sillafau di-acen, gw. GMW 1–2.

8 **rheflog** Llsgr. B *reflac*, sy'n unig enghraifft y rhoddir iddi'r ystyr '*fortune; vicissitude*' yn betrus ar slip yn Uned Geiriadur Prifysgol Cymru. Fodd bynnag, dyfynnir y ffurf *rheflog* yn TW dan *spolium* ac yn D rhoddir iddi'r ystyron 'Digondeb, ysbail'. Cymerir bod *reflac* y llsgr. yn gamgymeriad am *reflawc*, sef 'rheflog'. Dylid nodi mai petrus iawn yw'r ystyr a gynigir ar gyfer y ll. hon.

10 **rheiniad** Sef 'rhoddwr' neu 'rannwr', gw. GPC (i ymddangos), lle y'i hesbonnir fel bôn y f. *rhannu* a therfyniad y gweithredydd *-iad*. Am drafodaeth ac enghreifftiau pellach, gw. GCBM i, 20.3n.

11 **rhi Dinorweg** Disgrifir Gruffudd Llwyd yn yr achau fel arglwydd Dinorwig (Arfon) a Thregarnedd (Môn), gw. P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 17. Sylwer hefyd fod ei fab yn dal ystadau Dinorwig a Thregarnedd yn 1348, gw. Rec C 167–8 a hefyd isod 7.20.

12 **Gogledd** Derbynnir awgrym Lloyd-Jones, G 549, mai Gogledd Lloegr a olygir.

**Morudd** Cymerir mai ffurf amrywiol ar *Môr R*(*h*)*udd* neu *Môr Udd* ydyw (sylwer bod aceniad y gynghanedd yn gofyn am air cyfansawdd). Gw. TYP[2] 235 lle nodir, '*Mor Udd* means the North Sea, but it apparently included the English Channel …'; cf. hefyd ll. 28n a 15.60 isod. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd fod Morudd yma i'w ddeall yn e.prs., gw. GO 104, GLGC 404 (184.63) a cf. GLlF 5.5 *Morud, meidra6l y deua6t* (Llywelyn Fardd I) ac *ib*.n.

13 **lle** Fe'i deellir yn a. yn golygu 'trist' yma, gw. GPC 2122 d.g. *lle*[2] a cf. GDB 29.108 *Mor lle ym alar am a garaf* (Dafydd Benfras).

16 **Caer Degeingl** Sef Rhuddlan, gw. G 95; nid yw'r cyfuniad yn un arferol.

24 **naw cant** Rhif ystrydebol am nifer mawr, gw. G 108–9 am enghreifftiau eraill. Cf. isod ll. 31 a 7.22 *canwlad* a 7.14 *canwledd*.

25 **o'i** Cymerir bod y rhagenw mewn safle broleptig, yn achub y blaen ar *boddwallaw*, gw. GMW 56–7.

25–6 **Llithiwyd … / … brain ar goludd** Am y topos ‘llithio brain’, gw. T.J. Morgan, ‘Dadansoddi’r Gogynfeirdd (2)’, B xiv (1950–2), 1–8 a cf. GCBM i, 9.3–4 *Teulu Mada6c … / Yn llwythya6c yn llithya6 brein*.

27 **llawfrodded** Fe’i deellir yn amrywiad ar *llawrodded* a ddiffinnir gyda’r ystyron petrus ‘anrheg, llawrodd; hael’ yn GPC 2119. (Ni restrir yr amrywiad hwn yno, ond cofier mai o *llawf* y daw *llaw*, *ib*. 2104.) Am y ffurf, cf. R 1203.23 *lla6 rodet nodet nud gystadlv* (Gruffudd ap Maredudd) lle mae’r ystyr o haelioni eto yn flaenaf. Nodir yn betrus yn TYP[2] 418–9 y gall fod yma gyfeiriad at Lawfrodedd Farfog, un o Wŷr y Gogledd; gw. hefyd *ib*. 555.

28 **o Fôn Forudd** Cymerir bod yr ardd. *i* wedi ei hepgor rhwng *Môn* a *Morudd*—canmol goruchafiaeth Gruffudd a wneir yma ‘o’r gorllewin i’r dwyrain’; ar *Morudd*, gw. uchod ll. 12n. Gellid hefyd ddeall *morudd* yma yn gyfuniad o *môr* + *udd* gyda *Môn* yn enidol, ‘arglwydd môr o Fôn’, neu ynteu’n gyfuniad o *mawr* + *udd* ‘arglwydd mawr o Fôn’.

31 **canwlad** Cf. uchod ll. 24n.

33 **llathrad** Ni nodir y ffurf yn GPC 2101. Cymerir mai bôn y f. *llathru* ydyw gyda’r terfyniad enwol -(*i*)*ad* (gw. GPC 1997 d.g. *-iad*[1]).

38 Sylwer ar symlrwydd y geiriau sydd, yn ddiau, yn dangos gwir deimladau’r bardd, cf. isod 7.48. Sylwer hefyd fod y ll. yn rhy hir a dichon y dylid cymryd *di* yn rhagenw ôl ategol ansillafog, fel a geir yn gyffredin yng nghanu’r Gogynfeirdd, gw. Rhian Andrews, ‘Y Rhagenwau Ôl yng Ngherddi’r Gogynfeirdd’, B xxxvi (1989), 13–29.

39 **prid** Fe’i deellir yma yn golygu ‘drud, costus’ (yn ffigurol), gw. CA 166–7; nid amhosibl ychwaith fyddai’r ystyr ‘prudd, gofidus’ a awgrymir yn GIG 211, lle dyfynnir yr enghraifft hon, er na chydnabyddir yr ystyr honno yn GPC (i ymddangos).

41 **llifiad** Dilynir GPC 2179 d.g. *llifiad*[2].

44 **fy aerddar** Mae’r ll. yn rhy hir o sillaf onis cywesgir.

45 **gorwyf** Ffurf 1 un.pres.myn. y f. *gorfod*, gyda grym perffaith, gw. GPC 1481.

49 **aergledd** Llsgr. B *argled*. Fe’i rhestrir yn G 40 fel unig enghraifft dan *argleδ*[1] yn golygu ‘cleddyf’ ond gan gynnig diwygio’r darlleniad yn *aergledd;* derbynnir y diwygiad hwnnw yma. (Ni nodir yr ystyr hon i *argledd* yn GPC 198.) Ceir *argledd* arall a ddiffinnir fel a. ‘aswy, chwith’ (G *l.c*. d.g. *argleδ*[2]), ond ni roddai hynny gystal ystyr yma.

**trosedd** Gall y ffurf ddod o *tros* neu *traws*, gw. DGG[2] 226, ond deellir y cyntaf yma.

53 **pibl** ‘Y Beibl Sanctaidd, beibl, llyfr’, ffurf amrywiol ar *peibl*, gw. GPC 2715; fe’i deellir yma yn ffigurol am ‘awdurdod’.

**Taliesin** Llsgr. B *talyein*, a derbynnir diwygiad G 406 dan *dyat*$^1$.

53–4 **Taliesin … / Elffin** Cyfeiriad at draddodiad am ymryson Taliesin â beirdd Maelgwn Gwynedd yn Negannwy. O ganlyniad i lwyddiant Taliesin, rhyddhawyd ei feistr, Elffin mab Gwyddno Garanhir, gw. TYP$^2$ 510.

53–61 Y frawddeg yma yw *Pei mau pibl ddiau ... ef a wyddiad—byd ... Na'th oedid rhydid*, &c.

55 **pwyllfudd** Ni nodir y ffurf yn G 82 d.g. *buδ*.

57 **Gwriad** Yn ôl G 710, dichon mai Gwriad, mab Elidir a thad Merfyn Frych a enwir yn ll. 68, a olygir, gw. hefyd J.E. Lloyd: HW$^3$ 323–4 a TYP$^2$ 396.

59 **gwyddiad** Ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *gwybod*, gw. GMW 122, isod 15.57, a cf. GDG$^3$ 587 *et passim* am enghreifftiau pellach o'r cyfnod hwn.

63 **bwad** Fe'i deellir yn ffurf amrywiol ar *bwyad*, sef 3 un.amhff.myn. y f. *bod*, gw. GMW 122. Gthg. G 84 sy'n rhestru'r ffurf fel eg. yn golygu 'gŵr gwynfydus, bendigaid' a GPC 350 lle nodir y ffurf fel eg. (gyda gofynnod) ac a. yn golygu 'gwynfyd, bendith' gan gynnig ei fod yn amrywiad ar *bwyad*, *bwyaid* (< *bEati* < Llad. *beAti*) yn golygu 'gwynfyd, bendith', *ib*. 357.

**gwynddofydd** Llsgr. B *g6yndonyd* a derbynnir diwygiad G 744.

68 **gwaywddur** Llsgr. B *g6aedur*, bai yn ddiau. Gw. G 604 am enghreifftiau eraill o *gwaywddur*.

**Merfyn** Sef Merfyn Frych, yn ôl pob tebyg, brenin Gwynedd (*ob*. 844) a thad Rhodri Mawr, gw. J.E. Lloyd: HW$^3$ *l.c*. a ByCy 591.

69 **Rhahawd ail Morgant** Fe'i crybwyllir yn 'Breuddwyd Rhonabwy' fel un o 24 cynghorwr Arthur, BRh 19.24–5, ac yn y trioedd fel un o 'Dri Oferfardd Ynys Prydain' ac fel un o 'Dri Gogyfurdd Llys Arthur', TYP$^2$ 21, 193, 497–8. Gall *ail* olygu 'mab' neu 'ddisgynnydd, olynydd', gw. *ib*. 497. Yr oedd sawl ffigur adnabyddus yn dwyn yr enw Morgan, ond awgrymir mai Morgan Mwynfawr, brenin ym Morgannwg yn yr 8g., yw'r Morgan hwn, gw. *ib*. 465–7, 497.

70 **Rholant** Arwr y gân Ffrangeg o gylch chwedlau Siarlymaen, 'Chanson de Roland', a gyfansoddwyd *c*. 1100.

72 **Morien** Morien Mynawg, mae'n debyg, a grybwyllir yn yr Hengerdd ac yn 'Culhwch ac Olwen' fel aelod o lys Arthur, gw. CO$^2$ 72.

73 **Cadrawd—Calchfynydd** Mab Cynwyd Cynwydion o linach Coel Hen a gŵr Gwrygon Goddeu, merch Brychan Sant, yn ôl yr achau, gw. P.C. Bartrum: WG1 10. Yn ôl Skene, FABW i, 172–3, Kelso yn

Roxburghshire (yr Alban) oedd Calchfynydd ac mae yno eto fryn o'r enw *Chalk Heugh*.

76 **dau ddiwarnawd** Er pan ddaliwyd Gruffudd, efallai, neu oddi ar ryw achlysur arall yn fuan wedyn (e.e., ymweliad seithug â Gruffudd). Sonia'r bardd isod, ll. 84, am *fis* heb Ruffudd, ond anodd gwybod ai yn ôl neu ymlaen y mae'n edrych nac ychwaith a ddylid deall y gair yn llythrennol.

78 **Medrawd** Y gŵr a gwympodd gydag Arthur yng nghad Gamlan. Fe'i hystyrid yn batrwm o ddewrder a chwrteisi, gw. TYP[2] 454–5. Hefyd isod, ll. 89.

79 **glyw** Llsgr. B *cly6*. Derbynnir diwygiad G 537 dan *glyw*[3].

80 **Maig** Maig Myngfras, mab Cyngen Glodrydd ac ŵyr Cadell Ddyrnllug, sefydlwr llinach frenhinol Powys. Yr oedd hefyd yn frawd i Frochfael Ysgithrog, brenin Powys yn y 6g., yn ôl yr achau, gw. P.C. Bartrum: WG1 14, TYP[2] 455–6.

81 **Dunawd** Dunod, mab Pabo Post Prydain ac un o frenhinoedd yr Hen Ogledd yn y 6g., gw. G 396 dan *Dunawt*[2], TYP[2] 334–5. Mae'n debyg mai ato ef y cyfeirir isod 7.43 hefyd.

**o'i gyfarch** Hynny yw, o ofyn i Ruffudd Llwyd (am 'wledd fedd').

82 **Llywarch** Sef Llywarch Hen, un arall o arweinwyr yr Hen Ogledd yn y 6g. cyn i gylch o ganu dyfu o'i gwmpas, gw. TYP[2] 430–33.

84 **mis** Gw. uchod ll. 76n.

87 **Anarawd** Mab Rhodri Mawr, gw. G 26, J.E. Lloyd: HW[3] 326ff.

90 **rheiddlyw** Llsgr. B *reidlwy*. Diwygiwyd er mwyn yr ystyr, a'r tebyg yw fod yma enghraifft o *wy* ac *yw* yn ymgyfnewid, gw. GMW 4.

93 **senedd sôn undawd—Frefi** Gwelir yma enghraifft o drychiad, *senedd ... Frefi*. Am enghreifftiau pellach o'r ymadrodd *senedd Frefi*, gw. G 73, ac am enghreifftiau pellach o *Brefi* yn golygu 'Llanddewibrefi', cf. GMB 26.48n, GLlF 26.31, 86, &c.

## *7*

Yr un yw thema'r gerdd hon[1] ag eiddo'r gerdd flaenorol, ond bod rhagor o amser wedi mynd heibio er pan garcharwyd Syr Gruffudd Llwyd. Mae ing y bardd hefyd wedi dwysáu a'r sefyllfa gyffredinol wedi gwaethygu, ac ni ddatgenir gobaith am ryddhau Gruffudd, eithr myfyrio yn unig ar drueni'r presennol. Ymddengys i'r gerdd gael ei chyfansoddi ym misoedd Mai a Mehefin (llau. 1, 32–3), a chan mai tua Rhagfyr 1316 y carcharwyd

[1] Fe'i golygwyd gan J. Vendryes, 'Un Poème de Gwilym Ddu o Arfon', RC xlvii (1930), 406–26. Cyhoeddwyd testun hefyd yn Bl B XIV 26–8.

Gruffudd Llwyd, a hynny am ddeunaw mis (gw. nodyn cefndir cerdd 6), gellir cymryd mai ym Mehefin 1317 y'i cyfansoddwyd. Mae'r arfer o ddechrau cerdd gan gyfeirio at amser neu dymor neilltuol o'r flwyddyn i'w weld yn rhai o gerddi Beirdd y Tywysogion, a dadleuodd J. Lloyd-Jones mai un o ddibenion hyn yw cymharu, neu wrthgyferbynnu, teimladau'r bardd â thymer natur ar y pryd.[2] Gwneir peth tebyg yma wrth i'r bardd ddatgan ei dristwch yn erbyn cefndir dau fis cyntaf yr haf, er na chyfeirir yn unman at hoen a miri'r adeg honno o'r flwyddyn. Dylid nodi, er hynny, mai peth anghyffredin yw defnyddio *dau* amser o'r flwyddyn, fel y gwneir yma, fel rhan o gefndir cerdd, ac efallai mai dyna a ysgogodd y sawl a ysgrifennodd deitl yr awdl hon i gyfeirio ati fel *odleu y missoed*.[3]

Ymranna'r gerdd yn naturiol yn ddau hanner, y naill yn ymwneud â mis Mai ar y brifodl *-edd*, a'r llall â mis Mehefin ar y brifodl *-yd*. Canwyd rhan gyntaf yr awdl ar fesur gwawdodyn a'r ail hanner ar fesur toddaid. Cynganeddwyd bron y cyfan o'r gerdd, gyda chanran uchel iawn o gynganeddion sain a llawer ohonynt yn bengoll; mae'r gynghanedd yn anghyflawn yn llinell 1, ond dichon mai damweiniol yw'r odl ac mai cynghanedd fraidd gyffwrdd a fwriedid. Mae llinell 24 yn rhy hir o sillaf (oni chywesgir hi). Trawiadol yw'r defnydd a wneir o'r geiryn cadarnhaol *neud* fel cymeriad sy'n atseinio fel cnul drwy'r gerdd.

1 Odl a chytseinedd yn unig a geir yn y ll. hon.

5 **ymaelofedd** Llsgr. B *ym aeloued* [*pace* R 1227.26 *ym aeloned*]. O ran ystyr, gwell yw ei ddehongli'n un gair. Rhoddir i *aelofedd* yr ystyr 'parodrwydd, haelioni' yn G 11 a 'haelioni' yn GPC 37, ond o gofio ystyr yr elfen gyntaf *aelaw*, sef 'cyfoeth, golud, amlder', *ib*. 36, gellid hefyd dybio bod iddo'r ystyr 'digonedd, amlder', &c.

9 Ffordd y bardd yw hyn o ddweud bod llawer yn teimlo'r un fath ag yntau. Ar y defnydd yma o *dilid*, cf. isod ll. 18. Gellid cymryd *ym dilid* y llsgr. i gynrychioli *i'm dilid*, sef 'yn fy nilyn', heb amharu ar yr ystyr.

11 **Nudd** Gw. uchod 2.31n.

14 **canwledd** Cf. uchod 6.24n.

15 **neud carchar** Ar *neud* + e. mewn ystyr leol, gw. J.E.C. Williams, 'MLW *Neu*, *neut* as copula', *Celtica*, xi (1976), 284.

16 **aerddraig Llanrhystud** Daliai Gruffudd diroedd yn Llanrhystud, megis mewn llawer o fannau eraill, gw. ByCy 299.

[2] 'The Court Poets of the Welsh Princes', PBA xxxiv (1948), 188. Gw. hefyd J.E.C. Williams, 'Beirdd y Tywysogion: Arolwg', LlCy xi (1970), 74–5; *id*., 'The Nature Prologue in Welsh Court Poetry', SC xxiv/xxv (1989–90), 70–90.

[3] Cf. 'Englynion y Misoedd', EWGP$^2$ 37–42, ond yno sonnir am bob mis o'r flwyddyn, nid dau yn unig.

17 **neud na** Ar ddefnyddio *neud* i gyflwyno gosodiad negyddol, gw. J.E.C. Williams, *art.cit*. 285 a cf. isod llau. 18–20, 34.

**ar ei gledd** Ar *cledd* ‘chwith, aswy’, &c., gw. CLlH 119.

18 **dilid** Cf. uchod ll. 9n.

20 **llew Trefgarnedd** Gw. uchod 6.11n.

21 **wn** Llsgr. B *wur;* derbynnir y diwygiad a gynigir yn G 725.

**dau ddigyfedd** Sef y bardd a’i noddwr.

22 **canwlad** Cf. uchod 6.24n.

24 Mae’r ll. yn rhy hir o sill a gellid cywasgu *fy eryr* yn *f’eryr*.

28 **traw** Llsgr. B *tr6y*. Dilynir Bl B XIV 27 ynglŷn â’r diwygiad er mwyn yr ystyr a’r gynghanedd. Ar y ffurf *traw*, ffurf amrywiol y be. *taraw*, gw. WG 386; gellid ei deall hefyd yn adf., ond ni roddai hynny gystal synnwyr. Cf. Bl B XIV 30 (5.5) *Elw dreiddiaw ni’m daw traw trwy gysteg* (Casnodyn).

30 **Echel** Gw. uchod 6.6n.

31 **o’r Mai** Ar ddefnyddio’r fannod o flaen *Mai*, cf. GDG$^{3}$ 67 (23.6, 10, &c.).

31–2 **mawredd … / … orllin** Cyfeirir at Ruffudd Llwyd.

36 **diddawl** Deellir *dida6l* llsgr. B yn *didawl* yn golygu ‘didor, parhaus, cyson, diwahaniaeth’ yn G 329, ond gwell o ran synnwyr, er nad cystal o ran cytseinedd, yw darllen *diddawl*.

38 Hynny yw, ni waeth i’r beirdd beidio â bod.

42 **Urien** Un o frenhinoedd yr Hen Ogledd a oedd yn byw yn y 6g. Fe’i hanfarwolwyd yng ngherddi Taliesin lle molir ef yn bennaf am haelioni ei lys a’i ffyrnigrwydd ar faes y gad, gw. CT xlvii–lv, TYP$^{2}$ 516–20.

43 **Cywryd—fardd Dunawd** Cywryd oedd bardd Dunawd, sef Dunawd mab Pabo Post Prydain a grybwyllir uchod 6.81, gw. TYP$^{2}$ 334–5.

45 **Afan** Sef Afan Ferddig, bardd Cadwallon ap Cadfan brenin Gwynedd yn y 7g.; gw. TYP$^{2}$ 268 am gyfeiriadau pellach ato gan y beirdd.

46 **cof** Ar *cof* yn golygu ‘cof am’, gw. GDG$^{3}$ 433.

49 **Llŷr wryd** Derbynnir diwygiad G 254 (d.g. *kynnal*) am *llyyr vryt* llsgr. B. Cyfeiriad sydd yma at Lŷr Llediaith, mae’n debyg, arwr y cyfeirir ato yn fynych gan y Gogynfeirdd, gw. TYP$^{2}$ 427–9.

58 **Rheon rhyd** Man anhysbys; am drafodaeth ar y ffurf, gw. GDG$^{3}$ 498–9 lle awgrymir, ar bwys yr enghraifft hon, ei fod rhywle yn Arfon. Am galediad *r-* > *rh-* yn dilyn *-n* yma, gw. Treigladau 27–8.

## *8*

Yn y farwnad enwog hon coffeir y bardd Trahaearn Brydydd Mawr, ei ganmol am ei awen, a chyflwyno ei enaid i ofal Duw. Y peth hynotaf amdani, yn ddiau, yw'r ffordd y canmolir Trahaearn trwy ei gyffelybu i restr hir a di-fwlch o bedwar ar ddeg o feirdd enwog o'r gorffennol, gan ddangos hoffter ac edmygedd Gwilym Ddu o'r beirdd hyn yn ogystal ag o'r ymadawedig. Yn unol, ond odid, â'r adfywio mawr ar gerdd dafod a ddaeth yn sgil cyrchoedd y Normaniaid ar Gymru, naid y bardd yn syth o'r beirdd cynnar Taliesin, Myrddin a Llefoed Wynepglawr i feirdd y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg, heb gynnwys neb o'r cyfnod yn y canol. Gwelir ôl y farwnad hon yn glir, yn ddiweddarach, ar awdl Iolo Goch i Ddafydd ap Bleddyn, esgob Llanelwy.[1]

Bardd a ganai yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd Trahaearn Brydydd Mawr. Ni chadwyd ond pum cerdd o'i eiddo, sef awdl grefyddol, awdl farwnad a thair cerdd ddychan.[2] Deellir oddi wrth linell 7 isod ei fod yn fab i Oronwy, ac mewn cerdd ddychan i Drahaearn gan Gasnodyn, rhoddir ei ach fel *Mab gronwy ... uab rotpert ... uab ... bledri*.[3] Awgrymir isod yn y rhagymadrodd i'w waith fod Trahaearn yn fab i Oronwy Foel ap Robert ap Bleddri o'r Fforest yn Nefynnog, sef cwmwd yn y Cantref Mawr ym Mrycheiniog, a gwelir bod cyfeiriadau niferus yn ei gerddi at leoedd yn Ystrad Tywi a Morgannwg yn ei gysylltu'n sicr â'r ardal honno. Ymddengys oddi wrth y cyfeiriad yn llinell 34 isod at *saint ceraint Carawn* fod ganddo hefyd ryw gysylltiad â Cheredigion.[4]

Egyr yr awdl hon ag englyn unodl union a'i ddilyn gan gyfres o doddeidiau. Ceir cyrch-gymeriad rhwng diwedd yr englyn a dechrau'r llinell nesaf, a chyrcha gair olaf y gerdd y gair cyntaf. Cynganeddion sain a geir bron yn llwyr, a chyfran helaeth ohonynt yn bengoll.

3 **gwarednoeth** 'Yn llwm drwy waredu (h.y. wedi treulio ei holl feddiant i gynorthwyo)', yn ôl G 621, ond haws deall y gair fel cyfeiriad at drueni cynhenid stad dyn.

5 **inni** Llsgr. F *ynn*; diwygiwyd er mwyn hyd y ll.

7 **Goronwy** Gw. y nodyn cefndir uchod.

8 **gwlad Feiriawn** Ymddengys fod y bardd un ai'n honni bod Trahaearn wedi canu cyn belled â Meirionnydd, neu ynteu fod ei enwogrwydd fel bardd yn ymestyn hyd yr ardal honno.

[1] GIG 81 (XVIII.1–13).
[2] Gw. isod cerddi 10–14.
[3] R 1343.31–3.
[4] Cf. *ib*. 1343.28 *Trahaearn tauarn aeth teiui*. Yn ByCy 916 dywedir mai gogleddwr o Feirionnydd ydoedd, ond ar sail camddarlleniad o eiriau Gwilym Ddu yn ei farwnad, ll. 7, *hyd wlad Feiriawn*, ac efallai, R 1343.25 *Graessa6 d6lban g6lan g6lat eryri*.

9 **gwaladr nawn gerddau** Llsgr. F *waladyr na6n kerdeu*. Gan na threiglir y gwrthrych ar ôl ffurfiau amhersonol y f., gw. Treigladau 229–31, gellir tybio mai gwaith copïydd yw *waladr* er mwyn cael cytseinedd â *welir*, a diwygir *kerdeu* hefyd er mwyn ei gydio wrth *na6n* yn hytrach na *gwaladyr*. Ar ateb ffurf dreigledig cytsain â'r ffurf gysefin ar ddechrau geiriau yng nghanu'r Gogynfeirdd, gw. J. Lloyd-Jones, 'The Court Poets of the Welsh Princes', PBA xxxiv (1948), 176–7. Ar ystyr *nawn*, gw. GPC 2558 lle nodir bod *nawn* yn digwydd yn ffigurol.

11 **Gwiawn—ddewin** Gwion Bach y chwedl 'Hanes Taliesin'. Ar ôl bod yn was i'r wrach Ceridwen a'i adael ganddi, fe'i darganfuwyd gan Elffin ap Gwyddno a'i enwi Taliesin, gw. WCD 327–8 a Patrick K. Ford, *Ystoria Taliesin* (Cardiff, 1992).

12 **Myrddin** Am gyfeiriadau pellach at Fyrddin fel bardd hanesyddol yn hytrach nag fel cymeriad chwedlonol, gw. TYP[2] 471, 559–60, R. Bromwich, 'Y Cynfeirdd a'r Traddodiad Cymraeg', B xxii (1966–8), 32–4 a GSRh 2.4n.

**Da Fyrddin a'i lin o lwyth Meirchiawn** Derbynnir yma ddehongliad R. Bromwich o'r ll., TYP[2] 456–7, gan gymryd *Da Fyrddin* yn gyfeiriad ffigurol at Drahaearn, a gweddill y ll. yn ddisgrifiad ohono ef (Trahaearn). Awgryma Bromwich ymhellach y gall mai brenin o Forgannwg yw'r Meirchiawn y cyfeirir ato yma. Posibilrwydd arall yw cymryd *a'i lin o lwyth Meirchiawn* yn ddisgrifiad o Fyrddin ei hun, a bod yma gyfeiriad at Feirchion, cyndad tybiedig Myrddin, gw. *ib*. 456.

13 **Llefoed** Llsgr. F *lef oet*. Dilynir barn GLlLl xxiv mai'r bardd Llefoed Wynepglawr a olygir (ar *wynepglawr* gw. HG Cref 192–3, BDe 35–6 a N. Jacobs yn *Hispano-Gallo-Brittonica*, ed. J.F. Eska *et al*. (Cardiff, 1995), 66–78; dichon ei fod yn arwyddocáu'r gwahanglwyf). Lleolir ef yma rhwng y Cynfeirdd Taliesin a Myrddin ar y naill law, a Chynddelw Brydydd Mawr ganrifoedd yn ddiweddarach, ar y llaw arall. Ymddengys, felly, i Wilym Ddu ddefnyddio Llefoed yma fel dolen rhwng y ddau gyfnod. Yn R 1055.15 gwneir *llefoet wyneb cla6r* yn awdur cân wirebol, megis y priodolwyd cerddi i Fyrddin a Thaliesin er mwyn rhoi awdurdod iddynt, ac atega hyn y dyb mai un o'r hen feirdd ydoedd. Ymddengys mai ato ef y cyfeiria Dafydd Benfras yn GDB 34.5–6 *Ar ddvll llawn Llefoed* [darlleniad *ddvll llawnoed*] *y dywedaf*, / *Arglwydd fal Cynddelw a gynhaliaf*, ac os cywir y diwygiad, dichon fod ôl y llinellau hyn ar gerdd Gwilym Ddu gan fod enw Llefoed yn rhagflaenu enw Cynddelw yn y ddau achos. Ni wyddys mwy na hyn am Lefoed, ond mae'n amlwg ei fod yn fawr ei werth yng ngolwg y beirdd.

14 **Cynddelw** Cynddelw Brydydd Mawr, *fl. c*. 1155–95, pencerdd pwysicaf Cymru yn y 12g. ac un y cyfeirir ato gan feirdd y ddwy ganrif ddilynol fel un o brif feistri'r canu mawl i dywysogion, gw. GCBM i a ii.

15–28 Sylwer mai cyfeirio at y beirdd y cyffelybir Trahaearn iddynt a wneir yn y llau. hyn, ac nid at Drahaearn ei hun.

15 **Elidir** Elidir Sais, *fl. c*. 1195–1246, GMB 317–423. Ymddengys ei fod yn fab i'r bardd Gwalchmai, a oedd yntau'n fab i fardd, sef Meilyr Brydydd; nid syn, felly, weld ei alw yma yn *iawn ganon* ac yn un o *ddoethion Môn*. Awgrymir mai oherwydd y tybir iddo dreulio cyfnod yn Lloegr a dysgu Saesneg y cafodd y ffugenw, gw. *ib*. 317. Crybwyllir hefyd isod frawd iddo, Einion ap Gwalchmai (ll. 23).

17 **Llywarch cyfarch cyfenw iawn urddas** Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch', *fl. c*. 1173–1220, prif fardd tywysogion Gwynedd ar ôl marwolaeth Owain Gwynedd, gw. GLlLl, ac yn arbennig td. xxvi lle awgrymir mai cyfeiriad yw *cyfenw iawn urddas* yma at ei ffugenw.

18 **Dafydd Benfras** *Fl. c*. 1220–58; y tebyg yw iddo gael ei ddyrchafu yn bencerdd i Lywelyn ab Iorwerth ar ôl marwolaeth Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch', ac iddo barhau i ganu yn ystod blynyddoedd cynnar Llywelyn ap Gruffudd, gw. GDB cerddi 24–35 a'r rhagymadrodd i'w waith. Efallai mai unig fab ydoedd i Lywarch ap Llywelyn, gw. CLC 131. Fel Cynddelw Brydydd Mawr a Llywarch ap Llywelyn, yr oedd yn un o'r mwyaf o Feirdd y Tywysogion.

19 **ced Cadwgawn Ruffudd** Cymerir bod *ced Cadwgawn* yma yn goleddfu *Gruffudd*: 'Gruffudd [a chanddo] ddawn/rodd Cadwgan'. Yn G 93 d.g. *Kadwgawn*[2] deellir yr ymadrodd i olygu '(ced) Cadwgan *i* Ruffudd', ond os felly, dyma'r unig enghraifft o gysylltu bardd â'i noddwr yn y rhestr hon o feirdd. Nid amhosibl ychwaith fod y cyfuniad *Cadwgawn Ruffudd* yn gyfeiriad at fardd anhysbys o'r enw Gruffudd ap Cadwgan, fel yr awgryma R.G. Gruffydd yn 'Early Court Poetry of South West Wales', SC xiv/xv (1979–80), 100–1; sylwir ganddo fod gŵr o'r enw Gruffudd ap Cadwgan Fantach, a fyddai'n perthyn yn fras i'r cyfnod perthnasol, yn cael ei restru yn yr achau.

20 **Gwgawn** Gwgon Brydydd, gw. G 676 d.g. *Gwgawn*[5] a GDB cerdd 17. Un gerdd a gadwyd o'i eiddo, sef cyfres o bum englyn yn moli Llywelyn ab Iorwerth a ganwyd cyn 1215. Ni wyddys odid ddim amdano, ond dichon mai tad Einion ap Gwgon ydoedd. Yn y parodi rhyddiaith 'Araith Wgon', lleolir y bardd Gwgon Gwawd Newydd yng Nghaereinion ym Mhowys, AP 4 (ll. 17), a dichon fod hyn yn gywir. Mae gosod Gwgon rhwng y beirdd Cadwgan o Ddyfed a Phylip a Gwilym o Geredigion yn awgrymu nad fel bardd o Ogledd Cymru yr ystyriai Gwilym ef.

22 **Phylip** Phylip Brydydd, *fl. c*. 1220–30, gŵr a ymfalchïai'n neilltuol yn urddas traddodiad penceirddiaid Cymru, GDB cerddi 11–16 a'r rhagymadrodd i'w waith.

**Gwilym** Y Prydydd Bychan, *fl. c.* 1220–70, a mab Phylip Brydydd, mae'n debyg, gw. G 679 d.g. *Gwilym*[3], GBF cerddi 1–21 a'r rhagymadrodd i'w waith.

23 **Einiawn—fab Gwalchmai** *Fl. c.* 1216–23, mab i'r bardd Gwalchmai ap Meilyr a brawd i Elidir Sais a grybwyllir uchod, ll. 15, GMB 427–503. Dywedir amdano yn ByCy 188, 'Y mae ei ganu crefyddol, fel ei farwnad i Nest, yn felys ac yn afaelgar, ac y mae'n amlwg ei fod yn ei ddydd yn fardd poblogaidd …'.

25 **Cnepyn … o Werthryniawn** Un o arglwyddiaethau'r Gororau oedd Gwerthrynion, gw. WATU 84. Crybwyllir gŵr o'r enw Cnepyn Gwerthrynion fel gramadegydd mewn rhai copïau o'r gramadegau Cymraeg yn yr 16g., e.e., gan Wiliam Cynwal yn ei gopi o'r 'Pum Llyfr Cerddwriaeth', gw. GP xxi. Ymddengys oddi wrth ei leoliad rhwng Einion ap Gwalchmai a Llygad Gŵr mai gŵr a oedd yn byw yn y 13g. oedd y bardd a grybwyllir yma, ond er cymaint y bwlch amseryddol rhwng ei gyfnod a'r 16g., mae anghyffredinedd ei enw yn rheswm da dros gymryd mai'r un person ydyw â gŵr y gramadegau.

26 **Lladin** Os oedd gan y bardd wybodaeth o ramadeg (gw. y n. blaenorol), yna byddai'n anochel iddo feddu gwybodaeth o'r Lladin hefyd. Dichon, felly, fod mwy o arwyddocâd na'r cyffredin i'r gyffelybiaeth hon.

27 **Llygad Gŵr** *Fl. c.* 1258–93, y mwyaf cenedlaethol ei naws o holl Feirdd y Tywysogion, gw. GBF cerddi 24–8 a'r rhagymadrodd i'w waith.

**Tŵr** Yr Hendwr, Llandrillo-yn-Edeirnion.

29 **môr llawn—yng Ngwy** Sef Môr Hafren yn y man cyfarfod rhyngddo ac aber Afon Gwy ger Cas-gwent (*Beachley Point*).

30 **Cawrnwy** Mae'n debyg mai cyfeiriad at drefgordd Llanfair-yng-Nghornwy ar arfordir gogledd-orllewin Môn sydd yma, a'i fod yn cynrychioli'r pegwn gogleddol eithaf, cf. GSRh 3.18 *Llyw a'i glod Gernyw o glyd Gawrnwy* (Sefnyn) ac *ib*.n; gw. hefyd Dafydd Wyn Wiliam, 'Ach Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd', AAST, 1985, 109–11.

**Rhufawn** Llsgr. F *rua6n* a gymerir yn wall copïo am *ruua6n*. Fe'i deellir yn betrus felly yn gyfeiriad at Rufawn Befr, gŵr y mae lle i dybio mai un o Wŷr y Gogledd ydoedd yn wreiddiol ond i'r traddodiadau amdano gael eu hail-leoli yn ddiweddarach yng Ngwynedd, gw. TYP[2] 500. Yng 'Ngorhoffedd Hywel ab Owain Gwynedd' lleolir bedd Rhufawn wrth ymyl y môr, *Tonn wenn orewyn a or6lych bet*, / *Gwytua Ruua6n Bebyr*, *ben teyrnet*, GLlF 6.2n. Tybed felly ai yn Llanfair-yng-Nghornwy yr oedd ei fedd?

34 **Carawn** Nawddsant Tregaron, Ceredigion, lle y dywedir iddo gael ei gladdu, gw. LBS ii, 135–6, WCD 107.

35 **cynnwys** Llsgr. F *gym6ys*. Derbynnir awgrym G 241 ynglŷn â'r diwygiad.

*9*

Ymddengys mai ymbil yw'r awdl hon ar Dduw i roi cyfle i'r bardd fynd ar bererindod i Gaersalem. Sylwer yn arbennig ar y geiriau *Dwyn croes daith fwyn*, *Crist*, *i'th fedd* (ll. 4), *byddin* (llau. 6, 7), *Broydd Asia ac Affrica*, *pla o'u plegyd* (gw. ll. 15n). Trosglwyddwyd y cwbl o frenhiniaeth Caersalem i'r Mwslemiaid yn sgil y Groesgad olaf yn 1270,[1] ond ymddengys oddi wrth y gerdd hon nad oedd hynny yn rhwystr i Gristnogion ymweld â'r fan. Dwg y gerdd ar gof un o awdlau bardd cynharach, Einion ap Gwalchmai, i Dduw, lle mynega'r bardd ei fwriad i fynd dros fynydd Mynnau (sef yr Alpau) i'r Tir Sanctaidd;[2] ond yn wahanol i Einion, a ysgogir gan awydd ingol i gael maddeuant am ei bechodau, cariad digwmwl a thwymgalon at Grist sydd y tu ôl i ddeisyfiad Gwilym Ddu.

Megis yr awdl flaenorol, canwyd hon ar fesur englyn unodl union a ddilynir gan gyfres o linellau ar fesur rhupunt. Yr un modd hefyd, ceir cyrch-gymeriad rhwng diwedd yr englyn a dechrau'r llinell nesaf, a chyrcha gair olaf y gerdd y gair cyntaf. Cynganeddwyd y gerdd drwyddi, gan ddefnyddio cynghanedd sain bron yn llwyr, ac yn y llinellau rhupunt ceir cytseinedd cryf ar dro sy'n rhoi cynghanedd groes neu draws.

4 **bedd** Y Bedd Sanctaidd, sef yr ogof greigiog yng Nghaersalem lle credid bod Crist wedi ei gladdu cyn ei atgyfodi. Dyma oedd y pennaf o'r safleoedd sanctaidd, gw. ODCC 648.

11 **temlau** Ar yr ystyr hon, gw. CA 244–5.

13 **Oesbryn** Nis nodir yn GPC. Fe'i deellir yn gyfuniad ansoddeiriol a'r ail elfen yn fôn y f. *prynu*, a'i ddefnyddio yma yn enwol.

14 **twysg** Am wahanol ystyron posibl yr e. hwn, gw. GSRh 10.86n.

15 **broydd Asia ac Affrica** Sef y Twrciaid a'r Arabiaid, yr hiliau a fu'n trawsfeddiannu Caersalem dros y canrifoedd ac a gaseid gan Gristnogion o'r herwydd.

16–17 **bara yn gig … / … gwaed o'r gwin** Cyfeiriad at athrawiaeth yr Eglwys Babyddol fod corff a gwaed Crist yn cael eu traws-sylweddu yn y Cymun.

[1] ODCC 359.
[2] GMB 27.39–40.

### *Atodiad II*

Ar annilysrwydd awduriaeth y gerdd hon, gw. y rhagymadrodd uchod. Ynddi coffeir coroni Edward II (1284–1327) yn Frenin Lloegr yn 1307.

4 **yr aeth** Ar ddefnyddio *yr* yn lle *a* yn y frawddeg annormal, gw. GMW 172–3. Mewn Cym.C., rhydd y geiryn berfol *ry/yr* ystyr berffeithiol i'r f. yn aml, gw. *ib*. 167–9, ond dichon fod ei ystyr wedi diflannu erbyn y cyfnod hwn.

# *Mynegai*


**adaw: edau** 6.62
**adfod: adfydd** 6.64
**aerbar** 7.62
**aerddar** 6.44n
**aerddraig** 7.16n
**aergledd** 6.49n
**aethlym** 8.22
**allwynin** 7.31
**anhoyw** 6.21
**annawdd** 7.14
**ar** 8.30
**araf** 6.91
**arail** Atodiad 3
**araith** 8.20
**arddelw** 8.13, 14
**arf: eirf** 6.1
**arial** 6.5, 7.42
**ban** 7.59
**bara** 9.16n
**bardd** 7.43n
**bedd** 9.4n
**beirniawn** 8.31
**blaengar** 7.62
**blaenrhudd** 6.10
**blwng** 6.6, 7.30
**bod: bwad** 6.63n
**boddiannu** 9.7
**boddwallaw** 6.25
**brain** 6.26n
**braint** 6.52
**breisglu** 9.8
**brenhinddawn** 7.46
**briwgnawd** 6.92
**bro: broydd** 9.15n
**brwysgle** 9.8
**budd** 6.25, 71, 8.30, 9.7
**byddin** 9.6, 7
**cadarnbar** 6.44
**cadrwalch** 7.12
**caead** 6.40
**caer** 6.4n
**caeth** 7.2; **caith** 7.10
**caethiwed** 7.11
**calchdew** 6.4n
**calchfur** 6.66
**caled** 7.26
**canon** 8.15
**cant** 6.24n
**canwlad** 6.31n, 7.22n
**canwledd** 7.14n
**carchar** 7.15n
**ced** 8.19n
**ceinddawn** 8.14
**ceingof** 9.12
**cerdd: cerddau** 8.9n
**cerddraid** 8.31
**ceudawd** 6.75
**cig** 9.16n
**cledd** 7.17n
**cleddglaer** 6.86
**clodryw** 6.79
**clyd** 7.52
**cof** 7.46n **cofain** 7.43
**coludd** 6.26n
**cordd: cyrdd** 6.29
**cudd** 6.15
**curo: cur** 7.5
**cyd â** 6.20
**cyfarch** 6.81n, 8.17n
**cyfenw** 8.17n
**cyfiaith** 7.10
**cyflafan** 6.89
**cyfoeth** 8.1
**cyforun** 8.23
**cyni** 6.49
**cynnelw** 8.14

**cynnwys** 8.35n
**cynnydd** 6.64, 8.5
**cywala** 7.8
**dadannudd** 6.4
**dal: delid** 7.4 **rhyddelid** 6.20; **delid** 9.12
**dau** 6.76n, 7.21n
**dawn** 8.5
**dedryd** 9.7
**defawd** 6.68
**detholrydd** 8.6
**detholwawd** 8.4
**deurudd** 6.6n
**dewin** 8.11n
**dibarch: dibeirch** 7.53
**dichwerw** 8.8
**didlawd** 6.74
**diddawl** 7.36n
**dig** 7.3
**digas** 8.18
**digerydd** 6.29
**digudd** 8.20
**digyfedd** 7.21n
**dihewyd** 7.47
**dilid** 7.18n
**diofryd** 7.61
**diryfedd** 7.8
**diwarnawd** 6.76n
**diwyd** 9.1, 17
**diymryson** 6.28
**doethfab** 8.7
**draig** 6.78, 7.36
**dyad** 6.53
**dyfod: doy** 6.38; **dyfu** 6.35
**dygn** 6.11
**dysg** 6.72
**edifar** 6.77
**ehebog** 6.84
**eiddun** 6.59
**enwiredd** 7.15
**erwyr** 7.37
**eurglod** 6.47
**ffawd** 8.11
**fflamddwyn** 6.26
**ffosawd** 6.85
**ffraethlwys** 8.36
**ffrwythlawn** 8.1, 36
**gadael: gadwn** 6.65
**gaeafrawd** 6.86
**geirgoeth** 8.2
**glew: glyw** 6.4, 7.19
**glyw** 6.79n
**goglyd** 7.60
**goleurudd** 6.13
**gorbwylliad** 6.48
**gorchudd** 6.3
**gorfod: gorwyf** 6.45n
**gorllin** 7.32n
**goroen** 6.41
**greidiol** 6.60
**gwad** 7.56
**gwae** 6.89
**gwaed** 9.17n
**gwael** 6.8
**gwag: gweigion** 7.58
**gwaladr** 8.9n
**gwalch** 6.13, 7.47
**gwarednoeth** 8.3n
**gwarthryn** 8.25
**gwasgawd** 6.71
**gwawtgan** 7.45
**gwaywddur** 6.68n
**gwedd** 7.55
**gweddw** 7.4, 32
**gwenllaw** 6.25
**gwesti** 6.50
**gwin** 9.17n
**gwir** 8.15
**gwiwsail** Atodiad 2
**gwledychiad** 6.58
**gwrthrychiad** 6.39
**gwryd** 7.49n
**gwybod: gwn** 7.21n; **gwyddiad** 6.59n
**gwŷd** *a.* 7.44, 56, 9.8
**Gwyndyd** 7.27

**gwynddofydd** 6.63n
**gwyrdd** 6.30
**gwythlawn** 8.22
**hael** 6.8, 87
**hoywfro** 9.6
**hwyliad** 6.51
**hylithr** 7.50
**hylwydd** 6.51
**iawn** 8.17n, 9.7
**irad** 6.52
**Lladin** 8.26n
**llafrudd** 6.27
**llathrad** 6.33n
**llathrwyrdd** 6.34
**llaweredd** 7.9
**llawfrodded** 6.27
**llawir** 6.15
**llawn** 8.29n
**llawroddiad** 6.17
**lle** 6.13n
**lledfryd** 7.39
**lledfrydedd** 6.14, 7.25
**llew** 7.20n
**llewychwawd** 6.79
**lliaws** 6.22, 31, 7.18
**llid** 6.19, 33, 7.18
**llifiad** 6.41n
**llin** 8.12n
**llithio: llithiwyd** 6.25n
**llwrw** 6.15
**llwybrged** 6.27
**llwyddo: llwydd** 6.39 **llwyddid** 6.23
**llwyrguro: llwyrgur** 6.41
**llwyth** 8.12n
**mach** 9.3
**mad** 7.56
**madferth** 7.51
**mawredd** 7.31n
**mawrgof** 7.41
**Mai** 7.31n
**meddw** 7.13
**meglyd** 6.78
**men** 7.59
**mis** 6.84n
**moes** 7.55
**môr** 8.29n
**mur** 6.68
**myfyr** 6.73, 82
**mynd: aeth** Atodiad 4n
**mynud** 7.16
**naw** 6.24n
**nawn** 8.9n
**neddeirgost** 6.2n
**neud** 7.15n, 17n
**oednawd** 8.3
**oesbryn** 9.13n
**pair** 6.60
**pâr: parau** 6.3
**parth** 6.60
**penadur** 6.65
**pen-rhwyddnen** 9.5
**pen-tëyrn** 6.56
**pibl** 6.53n
**pla** 9.15
**plaid** 8.32
**poenddolurio: poenddoluriodd** 9.9
**post** 6.2, 59
**priawd** 6.80
**prid** 6.39n
**prif** 6.39, 80
**prifudd** 6.19
**pwyllfudd** 6.55n
**rhad** 6.30, 7.56
**rheflog** 6.8n
**rheiddffyrf** 6.72
**rheiddlyw** 6.90n
**rheiniad** 6.10n
**rhi** 6.11n
**rhoddfudd** 6.7
**rhoddffysg** 6.72
**rhuddgledd** 7.6
**rhwy**[1] 8.30
**rhwy**[2] 8.7
**rhwyl** 6.40

**rhwym** 9.11
**rhyd** 7.58n
**rhydid** 6.23, 61
**rhyddelid** gw. **dal**
**rhyw** 6.46
**seirch** 7.54
**senedd** 6.93n
**sôn** 6.93n
**teml: temlau** 9.11n
**tew** 6.4n
**trahir** 7.29
**traw** 7.28n
**treisiad** 6.49
**tromfrawd** 6.88
**tromgad** 6.37
**trosedd** 6.49n, 7.28, 57
**trwydded** 7.26
**trylwyn** 7.13
**trymfryd** 6.88, 7.27
**trymgawdd** 6.37
**twysg** 9.14n
**ufuddfryd** 7.45
**un** 9.10
**uncof** 9.1
**undawd** 6.93n
**uniawn** 8.35
**urddas** 8.17n
**ymaelofedd** 7.5n
**yr** Atodiad 4n

*Enwau personol*

**Afan** 7.45n
**Anarawd** 6.87n
**Cadrawd Calchfynydd** 6.73n
**Cadwgawn** 8.19n
**Carawn** 8.34n
**Cnepyn … o Werthryniawn** 8.25n
**Cynddelw** 8.14n
**Cywryd** 7.43n
**Dafydd Benfras** 8.18n
**Dunawd** 6.81n, 7.43n
**Echel** 6.6n, 7.30n
**Einiawn fab Gwalchmai** 8.23n
**Elffin** 6.54n
**Elidir** 8.15n
**Goronwy** 8.7n
**Gruffudd** 8.19n
**Gwgawn** 8.20n
**Gwiawn** 8.11n
**Gwilym** 8.22n
**Gwriad** 6.57n
**Llefoed** 8.13n
**Lludd** 6.5n
**Llygad Gŵr** 8.27n
**Llŷr** 7.49n
**Llywarch** 6.82n, 8.17n
**Maig** 6.80n
**Medrawd** 6.78n
**Meirchiawn** 8.12n
**Meiriawn** 8.8n
**Merfyn** 6.68n
**Morien** 6.72n
**Myrddin** 8.12n
**Nudd** 6.2n, 7.11n
**Phylip** 8.22n
**Rhahawd ail Morgant** 6.69n
**Rholant** 6.70n
**Rhufawn** 8.30n
**Taliesin** 6.53n
**Urien** 7.42n

*Enwau lleoedd*

**Affrica** 9.15n
**Arfon** 7.58
**Asia** 9.15n
**Brefi** 6.93n
**Caer Degeingl** 6.16n
**Cawrnwy** 8.30n
**Dinorweg** 6.11n
**Dyfed** 8.19
**Gogledd** 6.12n
**Gwy** 8.29n
**Llanrhystud** 7.16n
**Môn** 6.28n
**Morudd** 6.12n, 28n
**Rheon** 7.58n
**Trefgarnedd** 7.20n
**Tŵr** 8.27n

# GWAITH

# TRAHAEARN BRYDYDD MAWR

golygwyd gan

N.G. COSTIGAN (BOSCO)

# *Rhagymadrodd*

Yr oedd Trahaearn Brydydd Mawr yn un o brif feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg, ond prin yw'r wybodaeth am hanes ei fywyd a'i yrfa farddol ar wahân i'r hyn y gellir ei gasglu o'i waith, a rhaid cofio mai cyfran fechan iawn a gadwyd o'r gwaith hwnnw. Diogelwyd inni bum cerdd yn unig: dwy wedi eu canu yn y traddodiad pencerddaidd, sef 'Awdl i Dduw' (cerdd 10) a 'Marwnad Hywel o Landingad yn Ystrad Tywi' (cerdd 11), a thair cerdd ddychan, sef 'Dychan i Gadwgawn Ficar a'i ferch a'i ddaw' (cerdd 12), 'Dychan i Gasnodyn' (cerdd 13) a cherdd ddychan fer anghyflawn i wrthrych anhysbys (cerdd 14). Mae, serch hynny, ddwy ffynhonnell arall sy'n cyfrannu ryw ychydig at yr hyn a wyddys amdano, y naill yn ddifrïol, sef englynion dychan ei gyfoeswr Casnodyn,[1] a'r llall yn ganmoliaethus, sef marwnad Gwilym Ddu o Arfon.[2] Trafodir y ddwy ffynhonnell hyn isod.

## *Bywyd y bardd*

### *Ei ach a'i fro*

Cyfarch Casnodyn Drahaearn yn ei ddychan iddo fel *Trahaearn ... vab gron6y ... voel*, a rhydd ei ach am dair cenhedlaeth, *Mab gronwy ... / uab rotpert / uab ... bledri*.[3] Cyfeiria Gwilym Ddu o Arfon ato hefyd fel *Doethfab rhwy Goronwy*,[4] sy'n cadarnhau mai Goronwy oedd enw ei dad. Yn yr achau rhestrir gŵr o'r enw Gronwy Foel ap Robert ap Bleddri o'r Fforest yn Nefynnog,[5] yn y Cantref Mawr ym Mrycheiniog.[6] Priododd y Goronwy hwn ddwywaith, ac Ann ferch Trahaearn oedd ei ail wraig. Nid enwir Trahaearn fel un o'u plant, ond digwydd yr enw yn gyffredin ar ei hochr hi o'r teulu.[7]

Ni ellir bod yn gwbl sicr mai disgynnydd i'r Goronwy Foel hwn yw Trahaearn Brydydd Mawr, ond ceir tystiolaeth gref yn ei gerddi i'w gysylltu â Deheubarth Cymru ac yn enwedig ag Ystrad Tywi. Lleolir Hywel, gwrthrych yr ail gerdd isod, yn Llandingad, plwyf yng nghwmwd Hirfryn yn

[1] R 1343–5.
[2] Gw. uchod cerdd 8.
[3] Gw. R 1343.28–30, 31–3.
[4] Gw. 8.7 uchod.
[5] Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Cydifor Fawr' 18.
[6] Plwyf yn y Cantref Mawr ym Mrycheiniog yw Defynnog, a cheir maenor o'r enw'r Fforest-fawr yno, gw. WATU 56, 71, 249.
[7] Gw. P.C. Bartrum: WG1 *l.c.* a 'Maenyrch'1.

y Cantref Bychan yn Ystrad Tywi, nid nepell o Lanymddyfri.[8] O'r hyn a wyddys am Gadwgawn Ficar, gwrthrych yr englynion dychan (cerdd 12), credir mai yn y De y trigai yntau.[9] Yn 'Dychan i Gasnodyn' (cerdd 13), ceir cyfeiriadau helaeth at leoedd ym Morgannwg, sef cartref Casnodyn.[10] Sonnir am *gloyw-wlad Glâr. / Ar dir Morgannwg* (13.12–13), yn gyfeiriad at deulu de Clare, arglwyddi Morgannwg, a chyfeirir at *Meisgyn* (13.17), *Seinghennydd* ym Morgannwg (13.18) a *Cilfâi* yng Ngŵyr (13.84, 97). Awgryma'r cyfeiriadau hyn fod Trahaearn wedi canu ym Morgannwg am gyfnod o leiaf. Ceir awgrym hefyd yng ngherdd ddychan Casnodyn iddo ganu yn Nyffryn Teifi,[11] a diddorol nodi bod Gwilym Ddu yn galw ar *saint ceraint Carawn* o Geredigion i eiriol ar ei ran.[12]

Maentumiai Iolo Morganwg mai gŵr o Langyfelach yng Ngŵyr oedd Trahaearn ac iddo lenwi 'Cadair Morganwg' tua 1300, ond ymddengys nad oes sail o gwbl i'r honiad hwn.[13] Fodd bynnag, fel y gwelwyd uchod, mae'n debygol i Drahaearn ganu ym Morgannwg, ac felly ni ddylid gweld gormod o fai ar Iolo Morganwg am geisio ei hawlio fel bardd o'r sir honno.

*Ei ddyddiadau*

Rhoddir Gwilym Ddu o Arfon yn ei flodau tua 1320–30,[14] a gwyddys i Wilym oroesi Trahaearn. Ym 'Marwnad Trahaearn Brydydd Mawr' (cerdd 8) enwa Gwilym nifer o feirdd yr awgrymir bod Trahaearn wedi eu goroesi, a'r diweddaraf ohonynt yw Llygad Gŵr y ceir tystiolaeth ddogfennol yn profi iddo fyw tan o leiaf 1292–3.[15]

Ni wyddys dyddiad marw Hywel o Landingad y canodd Trahaearn ei farwnad, ond gellir awgrymu rhywbryd rhwng 1283 a blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar ddeg.[16] Nid oes sicrwydd ychwaith pwy yw Cadwgawn Ficar, gwrthrych cerdd 12 isod; mae'n bosibl mai'r un ydyw â gŵr o'r un enw a ddychenir gan Lywelyn Ddu ab y Pastard. Credir, ar sail tystiolaeth lawysgrifol yn bennaf, i Lywelyn Ddu ganu yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg.[17]

Mae'n amlwg fod Casnodyn a Thrahaearn ill dau yn gyfoeswyr, gan iddynt ddychanu ei gilydd, a gesyd Mr G.J. Ballinger Gasnodyn yn ei flodau

[8] Disgrifir Hywel fel *eryr / Gwŷr bleiniad ongyr o Blwyf Dingad*, 11.71–2. Yn G 36 eglurir mai Dingad ap Brychan oedd nawddsant Llandingad, Llanymddyfri; gw. hefyd O. Jones: Cymru ii, 44 a hefyd HAW plât 48 lle rhestrir 'Llwyn Hywel' yn blasty yng nghyffiniau Llanymddyfri. Ar Ystrad Tywi, gw. J.E. Lloyd: HW 266–70.

[9] Ymhellach ar Gadwgawn Ficar, gw. y nodyn cefndir i gerdd 12 isod.

[10] TLlM 6.

[11] R 1343.28 *Trahaearn tauarn aeth teiui yth g6mm*.

[12] Gw. 8.34 uchod.

[13] TLlM 5–6 a C. Lewis yn GCH iii, 480–1.

[14] Gw. y rhagymadrodd i waith Gwilym Ddu o Arfon uchod.

[15] Gw. y rhagymadrodd i waith Llygad Gŵr yn GBF.

[16] Ymhellach ar yrfa Hywel, gw. y nodyn cefndir i gerdd 11 isod.

[17] Gw. y nodyn cefndir i gerdd 12 isod.

yn nhraean cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg.[18] Yn ei ddychan i Gasnodyn, cyfeiria Trahaearn at Lywelyn ap Cynwrig fel *fy llyw* (13.49), sy'n awgrymu ei fod dan nawdd Llywelyn ap Cynwrig pan ganodd y gerdd. Yr oedd Llywelyn ap Cynwrig yn arglwydd adnabyddus ym Morgannwg a chyfeirir ato'n fynych yng nghofnodion hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg.[19] Rhestrir ei enw fel un o'r tystion neu'r rheithwyr mewn dogfennau ar y dyddiadau 13 Mai 1330, 18 Ionawr 1333 a 14 Hydref 1338 a cheir un ddogfen arall a ddyddir ar ddydd Mawrth cyn Gŵyl Fair y Gyhydedd (25 Mawrth), 1339.[20] Wrth gyfeirio at Lywelyn ap Cynwrig, mae Trahaearn yn edliw i Gasnodyn beidio â'i ganmol (13.49–52), ac mae'n bosibl fod Casnodyn wedi anghytuno â Llywelyn pan gefnogodd y Saeson yn erbyn y Cymry yn ystod gwrthryfel Llywelyn ap Gruffydd (Llywelyn Bren) yn 1316.[21] Fodd bynnag, mae'n bosibl mai cyfeirio a wneir at achlysur yn 1321 pan oedd Llywelyn ap Cynwrig yn ymladd ar ochr arglwyddi'r Gororau yn erbyn Hugh le Despenser a'r Brenin.

Yn betrus ddigon, felly, ar sail y ffeithiau hyn, awgrymir i Drahaearn flodeuo yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Rhaid gwrthod y dyddiad 1380 a roddir ar ei gyfer gan John Davies, Mallwyd, sy'n llawer rhy ddiweddar.[22]

*Ei lysenw*

Awgrymodd D. Myrddin Lloyd mai oherwydd maintioli ei gorff y galwyd Cynddelw gyntaf yn 'Brydydd Mawr',[23] ac mae'n weddol sicr mai dyna pam y galwyd Trahaearn, ddwy ganrif yn ddiweddarach, yntau yn Drahaearn Brydydd Mawr.[24] Yn ôl tystiolaeth Casnodyn yn ei gerdd ddychan iddo a drafodir isod, yr oedd yn sicr yn fawr ei gorffolaeth: *ka6r trilla6r utua6r atueil* ydoedd, a *ka6r a syrr kar6 byrr y barch*, ac yn fwy cynnil *vab gron6y oed m6y no mi*.[25] Dichon fod y cyfeiriad at *Benlli*,[26] sef Benlli Gawr, hefyd yn un bwriadol. Ceir yn ogystal sawl awgrym yn ei ganu a'r dychan iddo ei fod yn ŵr balch, ac mae hynny o bosibl yn rheswm arall dros yr enw—mae'r un peth yn sicr yn wir am Gynddelw Brydydd Mawr.[27]

18 Gw. ACDC 69.
19 Ar Lywelyn, gw. J.B. Smith yn GCH iii, 84–5.
20 Gw. G.T. Clark, *Cartae et Alia Munimenta ... de Glamorgan* (second ed., Cardiff, 1910), iii, 1162, iv, 1187, 1226, 1231.
21 Gw. J.B. Smith, 'Edward II and the Allegiance of Wales', Cylchg HC viii (1976–7), 139–71, ac yn enwedig tt. 147, 157–8; *id*. yn GCH iii, 72–86 ac yn enwedig 84ff.
22 Gw. y rhestr o feirdd ar ddiwedd D.
23 Gw. ByCy 82–3.
24 Gw. *ib*. 916.
25 R 1343.20–1, 38–9, 29
26 *Ib*. 1343.29.
27 Cf. CLC 581.

## *Ei ganu*

Ymdrinnir yn fanylach â natur y cerddi yn y nodyn cefndir i bob un ohonynt; cynigir rhai sylwadau byr yma.

Yr oedd Trahaearn Brydydd Mawr yn fardd sicr iawn ei grefft, ac mae ei ddwy awdl yn ei gysylltu yn gryf iawn â Beirdd y Tywysogion o ran crefft a chynnwys. Mae'r awdl grefyddol (cerdd 10) yn anodd iawn ei deall, a theimlir bod y bardd yn ceisio bod yn rhy gywasgedig ac uchelgeisiol yn ei ymadroddi. Am y rheswm hwnnw, erys ei harwyddocâd braidd yn dywyll. Mae 'Marwnad Hywel o Landingad' (cerdd 11) yn awdl fwy llwyddiannus, gyda'r bardd yn lleisio nifer o themâu a glywir yn gyffredin yng nghanu Beirdd y Tywysogion, megis y syniad fod diffeithwch yn dilyn marwolaeth yr arglwydd a bod y gyfundrefn farddol yn nychu.[28] O ran ei hieithwedd a'i ffigurau hefyd, mae'r awdl yn perthyn yn glòs iawn i draddodiad Beirdd y Tywysogion. Er nad oes unrhyw dystiolaeth bendant, mae'n bosibl mai dan nawdd Hywel y canodd Trahaearn ei awdl grefyddol.

Er mai gwahanol iawn yw cynnwys y ddwy gyfres o englynion dychan (cerddi 12 ac 13), maent yn gerddi effeithiol iawn, ac yn dangos meistrolaeth lwyr Trahaearn ar yr iaith ddifrïol: yn lle pastynu ei wrthrych yn ddidrugaredd, manteisia ar yr iaith ffigurol i ddychanu yn gynnil ac yn awgrymog. Gwerthfawrogir ei grefft wrth gymharu ei ddychangerddi ag eiddo beirdd llai crefftus y Llyfr Coch megis Hywel Ystorm. Mae testun y bumed gerdd isod yn anghyflawn, yn ôl pob tebyg.

### *Dilysrwydd y cerddi*

Yr unig gerdd o ganon Trahaearn sy'n gofyn am drafodaeth ynglŷn â'i dilysrwydd yw 'Dychan i Gasnodyn' (cerdd 13), sy'n ddienw yn y Llyfr Coch, R 1340–2. Credai D. Myrddin Lloyd mai Hywel Ystorm oedd yr awdur a chytunai G.J. Williams â hynny.[29] Ar frig R 1337 ceir y pennawd *Hywel Ystorym ae cant* ac mae'r cerddi sy'n dilyn hyd golofn 1348 yn ddienw; tybid, felly, mai Hywel Ystorm a'u cyfansoddodd i gyd. Dilynir 'Dychan i Gasnodyn' yn syth gan ddychan i Drahaearn a chodwyd y ddwy gerdd yn yr un drefn gan John Davies i LlGC 4973B. Yno, ar bwys llinell gyntaf yr ail gerdd, ysgrifennodd Davies y gair *Atteb* ac ar y ddalen nesaf holodd *ai Casnodyn ai gwnaeth*? Tybiai John Davies, felly, mai cerdd gan Gasnodyn yn dychanu Trahaearn oedd honno, yn ateb i'r gerdd ddychan enllibus a ganodd Trahaearn iddo yntau. Yr oedd hwn yn gasgliad digon teg, ac yn wir, o edrych yn fanwl ar gynnwys y ddwy gerdd, daw'n amlwg eu bod yn perthyn i'w gilydd—dychenir Casnodyn, a'i enwi, yn y gyntaf am fychander ei berson a'i awen, gan ei gyffelybu i anifeiliaid bychain megis

[28] 11.27 ... *llys oesbaith—nad byw*.

[29] Gw. ByCy 62–3, TLlM 6 a hefyd C. Lewis yn GCH iii, 481. Ceir golygiad a chyfieithiad i'r S. o'r gerdd gyda nodiadau yn ACDC 318–29, 615–33.

llygoden, torogen a gwadd.[30] Mae Casnodyn ar y llaw arall yn ateb drwy bwysleisio maint corfforol Trahaearn: fe'i gelwir yn *kawr trilla6r* a chyffelybir ef i anifeiliaid mawr megis blaidd, eidion a tharw.[31]

Yn nhestun Peniarth 20 o Ramadegau'r Penceirddiaid ceir hefyd yr englyn canlynol yn enghraifft o'r bai 'lleddf a thalgron':

Trahayarn, trwyn hen gathwrd,
Pennvreith gnuach, bwbach beird,
Ys amlach am dy semlgerd
O'r byt a chwyt noc a chward.[32]

Mae'r cwpled olaf yn adlais sicr o'r geiriau canlynol o 'Ddychan i Gasnodyn', ... *ys amlach ... / A chwŷd am dy gerdd chwidach / Nog a chwardd, wrthlys bardd bach*.[33] Tybed a oedd yr englyn hwn yn rhan o ddychan Casnodyn i Drahaearn yn wreiddiol?

Y trydydd rheswm dros hawlio 'Dychan i Gasnodyn' i Drahaearn yn hytrach nag i Hywel Ystorm yw bod ei chrefft a'i hieithwedd yn llawer mwy nodweddiadol o waith y Prydydd Mawr nag o waith Hywel. Hefyd gwelir isod fod nifer o gyfatebiaethau geirfaol rhwng 'Dychan i Gasnodyn' a'r ddwy gerdd ddychan arall a briodolir i sicrwydd i Drahaearn, yn enwedig rhyngddi a cherdd 14 isod.

## *Cyfeiriadau ato*

Yn ogystal â'r cyfeiriad at Drahaearn yn yr englyn dienw yn nhestun Peniarth 20 o Ramadegau'r Penceirddiaid a ddyfynnwyd uchod, cyfeiriodd tri bardd cyfoes at Drahaearn, a thrafodir y cyfeiriadau hyn yn fyr isod.

1. 'Dychan Trahaearn', R 1343–5

Nid oes amheuaeth am wrthrych y gerdd ddychan hon: enwir Trahaearn ynddi wyth gwaith.[34] Fel y nodwyd uchod, credir mai Casnodyn a'i canodd, yn ateb i'r gerdd ddychan a gyfansoddwyd iddo yntau gan Drahaearn. Mae'r dychan ynddi yn llawer llymach nag yng ngherdd Trahaearn. Cyfeirir yn benodol at feddwdod Trahaearn, gan honni fod yn well ganddo fynychu tafarnau ac yfed *meid o geul* (gloywon llaeth ceuledig) na *med o garn*, sef y ddiod urddasol a geid mewn llys arglwydd.[35] Cysylltir ef yn arbennig â

[30] Gw. ymhellach y nodyn cefndir i gerdd 12 isod.

[31] Gw. R 1343.20, 35, 39, 1344.41, &c. Diolchir i Dr Huw Meirion Edwards am awgrymu'r berthynas hon rhwng y ddwy gerdd.

[32] GP 53. Diolchir i Dr Huw Meirion Edwards eto am y cyfeiriad hwn.

[33] Isod 13.69, 71–2.

[34] *Ib*. 1343.3, 10, 20, 28, 1344.5–6, 8, 22, 41

[35] *Ib*. 1343.7–9. Cf. hefyd eiriau Dafydd ap Gwilym wrth Rys Meigen, *Rhed*, *gwedd yt yfed gwaddod tefyrn*, GDG³ 63 (21.88).

thafarnau Teifi: *Trahaearn tauarn aeth teiui yth g6mm*.[36] Dibrisir ef fel bardd diwerth drwy'r gerdd ddychan, a sonnir am ei *awen ysgawen … p6l penn myd6l pwnn madarch*, ei *gwac awen*, ei *agheluyd wa6t. gerd odla6t gard odlyd* a'i *ffilorgerd aghywir*.[37] Cyfeirir ato hefyd, er yn ddifrïol, fel athro—*athro anffa6t vedda6t varn*—sy'n awgrymu yn gryf fod Trahaearn yn bencerdd, gan mai pencerdd yn unig oedd â'r hawl i hyfforddi disgyblion yn ôl y traddodiad.[38] Mae'r cyfeiriadau ato fel *ulltach alldut* ac fel *Daramretwas bras broyd*[39] yn awgrymu ei fod yn canu y tu allan i'w gynefin. Awgrymwyd eisoes ei bod yn bosibl fod Trahaearn wedi crwydro i Forgannwg i ganu yng nghartref Llywelyn ap Cynwrig, ac mai dyna pam y galwai Casnodyn ef yn alltud. Hwyrach i Gasnodyn gael ei wneud yn gyff gwawd gan Drahaearn mewn gwledd yn llys Llywelyn, a bod Casnodyn yma yn ateb hynny, gan alw ar y gynulleidfa yno i yrru Trahaearn ymaith: *Per6ch deol ffol ffael agheluyd wa6t ... o bob eluyd*.[40] Yn ogystal â'i ddychanu yn bersonol, mae Casnodyn yn bwrw sen ar ei deulu a'i ach: *lle bu vledri du nydyd. a ry6 uudyr or hafuodyd*,[41] ac am y plant medd, *llus*[*c*] *y teil llesc y telir. yth blant adorrant o dir*[42] a chloir y dychan â'r englyn canlynol:

> My6n kae y mae'r maer6r,
> Plant adeilant y dalar,
> Mab a ard, carnhard carnhir,
> A merch ffloch wylltgoch welltgur[43]

sy'n honni mai *maer6r* ('ffermwr')[44] oedd Trahaearn ac yn ei wawdio am hynny. Yn wir, trwy'r gerdd fe'i cysylltir ag anifeiliaid y fferm ac â holl fudreddi gwaith fferm aflwyddiannus.

2. 'Marwnad Trahaearn Brydydd Mawr' gan Wilym Ddu o Arfon (cerdd 8 uchod)

Gwahanol iawn yw sylwedd y gerdd farwnad hon, lle molir Trahaearn am ei fawredd fel bardd:

[36] R 1343.28.
[37] *Ib*. 1343.34–6, 43, 1344.29–30, 41–2.
[38] Gw. *ib*. 1343.11 ac ymhellach GCBM i, xxxiv–xxxv. Sylwer hefyd fod Gwilym Ddu o Arfon yn ei alw yn *blaid penceirddiaid*, 8.32 uchod.
[39] R 1344.16, 20.
[40] *Ib*. 1344.29, 31.
[41] *Ib*. 1344.33–4.
[42] *Ib*. 1344.42–3.
[43] *Ib*. 1345.5–7 (wedi ei atalnodi) a cf. 1343.30, 34.
[44] Gw. GPC 2312, 'Hwsmon, amaethwr, ffermwr, llaethwr; stiward', h.y. defnyddir 'maerwr' yn derm difrïol.

Ffrwythlawn a chyfiawn â chyfoeth—ei gerdd
Gwrdd Drahaearn eirgoeth;
Ffawd gwŷr oednawd gwarednoeth,
Ffraeth dafawd, detholwawd doeth.[45]

Disgrifir ef ymhellach fel *detholrydd brydydd* (8.6), a dywedir bod ei enw da fel pennaeth penceirddiaid yn ymestyn dros Gymru gyfan:

O dydwed fawr lled hyd fôr llawn—yng Ngwy,
Hyd Gawrnwy fudd rhwy ar fedd Rhufawn,
Trahaearn, o'm barn, em beirniawn,—cerddraid,
Oedd blaid penceirddiaid, ceimiaid camawn.[46]

Eir ymlaen i enwi pedwar bardd ar ddeg mwyaf eu hanrhydedd o'r gorffennol, gan honni bod Trahaearn cystal â'r gorau ohonynt os nad yn well.

3. Gruffudd Gryg
Ffafriol eto yw'r trydydd cyfeiriad at Drahaearn. Wrth farwnadu Dafydd ap Gwilym, defnyddiodd Gruffudd Gryg yr un dull o fynegi mawredd y bardd â Gwilym Ddu, sef drwy ei gyffelybu i nifer o feirdd enwog o'r gorffennol a'r presennol, gan gynnwys Taliesin, Myrddin ac Aneirin. Dywedir ymhellach:

Fal Trahaearn y'i barnwn,
Neu fal Llywarch hirbarch hwn,
Neu Gasnodyn, dyn difas,
Neu Addaf frowysaf Fras.[47]

*Y llawysgrifau*

Llyfr Coch Hergest yw'r brif ffynhonnell ar gyfer cerddi 10–13 isod a thestunau'r llawysgrif honno a ddefnyddiwyd yn sail i'r golygiadau. Ceir gwaith Trahaearn yng ngholofnau 1221–3 (cerddi 10 a 11), 1357 (cerdd 12) a 1340–2 (cerdd 13), y cyfan yn llaw Hywel Fychan.[48] Dyma ffynhonnell yr holl gopïau diweddarach o'r cerddi.

Ceir testun cerdd 14 mewn dwy lawysgrif yn unig, sef Peniarth 86 wedi ei chodi yn llaw Simwnt Fychan (*c*. 1530–1606), ac yn Peniarth 111 yn llaw

[45] 8.1–4 uchod.
[46] 8.29–32 uchod.
[47] GDG$^3$ 428 (llau. 17–20).
[48] Gw. G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LlGC xxi (1979–80), 255.

John Jones, Gellilyfdy. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddau destun hyn.

## *10*
## *Awdl i Dduw*

Duw a wnaeth o ffraeth ffrwyth adeilad
Ar bedwar post (cost cystedlydd rhad)
Neuaddawr wenllys o winllad—addon,
O waed Ei galon ddwyfron ddifrad.
Un o'r pyst yw'r tyst, tost ei ddiwad,
Arglwydd didramgwydd deau dromgad:
Gwell yw pwyll nog aur o gariad—Perydd,
Pêr yw ei gynnydd, pur ei gennad.
Ail o'r pyst cynnail cain oleuad,
Traul gwir lludw cywir mal llid cawad:
Teg a gannwyll pwyll pell ynad—i ddyn
I ddilyn Gwestyn gobryn gwastad.
Trydydd post cynnydd yw ein cynheiliad
(O gôr clywitor mydr gyngor mad):
Rhag pob amwyll twyll, rhag cymhwylliad—gau,
Gorau i enau eiriol Ynad.
Pedwerydd post rhydd o'r pyst Roddiad,
Pennaf ac uchaf post Naf nef wlad:
Nid edy hirbwyll Dad i dad—hirbla,
Cyn nid adwna Da, dawn y'm bwyad.
Pan ddêl yn ungel pobl yn ungad,
Anfon anrhegion er Anrhegiad,
Dyn cywir gloesir, mal gleisiad—afon
A â er gwahoddion gan gyhuddiad,
Ac mal cynt lluchynt llawch anogiad,
Llaweniaith, perffaith pob gobeithiad
Llafuriaid o haid o had—llu Bedydd:
Llonydd ddigerydd fydd ufyddiad.
Câr anant moliant milioedd borthiad,
Coron athrawon dedwyddion Dad,
Cerennydd cynnydd cynifiad—ddygiawdr,
Creawdr hael, Llywiawdr haul a lleuad.
Buchedd berw trosedd trais ymddygiad,
Bychan fydd urddas gwas cas geisiad:
Pan fo cadarn barn Unbeirniad,—*Agnus*,
Parhäus *Cristus*, croes ddisgwyliad.
Pawb a ddaw i law ei Lyw Neirthiad,
Pôr gwŷr, gwir Eryr, yw ein Gwarediad,

Pyd ungryd yw'r byd a'r bad—ar doniar:
Trugar Dduw, baniar fo ein Herbyniad.

Moled pob lliwed Llyw arglwyddi,
Mygrwawr nef a llawr, Mab mawr Mari;
Mor hawdd ym o'm nawdd yn *nom'ni—Agnus*
A *Patris Cristus* croes dadeni.
Eurddraig un ffelaig enw â *Filii*,
*Spir'tus Iesu Sanctus* a *sancti*,
Amen; Ef yw ein Rhên a'n Rhi—didramgwydd,
Arglwydd da, Culwydd yw Duw Celi,
Coron athrawon ein câr â Thri,
Caffom Ei arfoll oll rhag ein colli;
Crair deddfol breiniol yw ein prif—Amherawdr,
Crist, Creawdr huawdl, hual gweilgi.
Cymerth grog yn ferth er nerth ynni,
Croes er dwyn pumoes o gyfoesi.
Yn ben-cun cyfun, cyfodi—a wnaeth
Er pläu plwyfogaeth plant caeth Cäi.
Iôr trugar, Peniar, pen haelioni,
A ddigawn, o'i ddawn, ddwyn rhyferthi.
Arglwydd mawr hylwydd môr heli—a thir,
Arwr cywir gwir, gwiw Ei foli.

*Ffynonellau*
A—BL Add 15001, 201$^{r}$ B—J 111, 1221 C—LlGC 4973B, 288$^{v}$ D—LlGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 8$^{r}$ E—Llst 133, 274 F—Llst 145, 17$^{r}$ G—Pen 118, 197

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
14 clechỽittior. 16 eiryoel. 20 kynnyt. 22 anreigyon. 50 oll kynn rac.

## *Awdl i Dduw*

Duw a wnaeth o barod gynnyrch adeiladu
Ar bedair colofn (cost cymar gras)
Fendigaid lys [o] neuaddau gyda rhodd urddasol o win,
O waed Ei galon [yn Ei] ddwyfron ddifrad.
Un o'r colofnau yw'r tyst, poenus yw ei wrthod,
Arglwydd di-gwymp [a] pharod [Ei] fyddin fawr:
Gwell yw doethineb trwy gariad [yr] Arglwydd nag aur,
Teg yw ei chynnydd, diledryw ei chenadwri.
[Yr] ail o'r colofnau yw adeiladwaith goleuni gwych,
Cost gwir edifeirwch cywir fel digofaint cawod:
Cannwyll deg yw doethineb sy'n ynad hir ei barhad i ddyn
I ddilyn Ymwelydd [o] haeddiant parhaol.
Trydedd golofn ffyniant yw'n cynhaliwr
(Gan gôr clywir hyfforddiant da ar fydr):
I atal pob annoethineb twyll, i atal ffug draethiad,
Gorau i enau yw eiriol ar [yr] Ynad.
Pedwaredd golofn rydd gan y Rhoddwr colofnau,
Colofn uchaf a phennaf Arglwydd gwlad nef:
Ni ad Gwneuthurwr [y] maith ddoethineb lonydd i wneuthurwr trallod arhosol,
Er nad yw'n dadwneud [y] Daioni, gras a fyddai i mi.
Pan ddêl pobl yn un dorf [ac] yn ddirgel oll,
[Gan] anfon anrhegion er mwyn [y] Rhoddwr,
[Y] dyn cywir o hir archoll, fel eog ifanc afon
A â o dan gyhuddiad er mwyn [y] gwahoddedigion,
Ac er hynny rhuthr ffyrnig yw [eiddo'r] anogwr ymgeledd,
Llaweniaith [a] pherffaith yw pob gweithred o obaith
Llafurwyr o liaws o hil llu Byd Cred:
Perffaith lonyddwch fydd gweithred o ufudd-dod.
Câr beirdd moliant fydd porthwr miloedd,
Pennaeth meistri yw Tad [y] rhai ffodus,
Perthynas ffyniant yw['r] arwr gludwr,
Creawdr hael, Rheolwr haul a lleuad.
Bywyd [o] ferw yw eithafiaeth ymddygiad gorthrechol,
Bychan fydd urddas gwas ceisiwr gelyniaeth:
Pa bryd bynnag y bo cadarn barn [yr] un Barnwr, *Agnus*,
Parhaus fydd *Cristus*, disgwyliwr [y] groes.
Pob un a ddaw dan awdurdod ei Lywodraethwr Gefnogwr,
Brenin dynion, [y] Gwron diamau, yw'n Gwaredwr,
Perygl un daeargryn yw'r byd a'r pla ar dymestl:
[O] Dduw trugarog, boed ein Croesawr yn glodfawr.

Moled pob llu Bennaeth [yr] arglwyddi,
Mawreddog Arglwydd nef a daear, Mab aruchel Mair;
Mor hyfryd ydyw imi oherwydd fy niogelwch yn enw[’r] *Agnus*
A *Patris Cristus* croes [yr] atgyfodiad,
Blaenor campus yr un enw disglair â *Filii*,
*Spiritus Iesu Sanctus* a *sancti*,
Amen; Ef yw ein Harglwydd a’n Brenin di-gwymp,
Arglwydd da, Pennaeth yw Duw nefoedd,
Pennaeth y meistri yw’n perthynas â Thri,
Bydded i ni gael ei groeso cyflawn i atal ein cyfrgolli;
Gwarant cyfreithiol breintiedig yw ein Hymerawdwr pennaf,
Crist, Creawdr huawdl, llyffethair yr eigion.
Cymerodd [arno’r] groes yn ddrud er mwyn i ni [gael] nerth,
[Y] groes er mwyn arwain pum oes o drychineb.
Yn brif Arglwydd undeb, atgyfodi a wnaeth
Er peri pla ar gynulliad plant caeth Cain.
Arglwydd trugarog, Pennaeth, pen helaethrwydd,
Sy’n gallu, oherwydd ei ras, achosi dilyw,
Arglwydd aruchel llwyddiannus eigion heli a daear,
Gwron ffyddlon perffaith, da yw Ei foli.

## *11*
## *Marwnad Hywel o Landingad yn Ystrad Tywi*

Diofryd ddôr gryd grym arwriaith,
Dewr Hywel ddigel, ddygn a dreiswaith,
Draig balchryw, ceinllyw, cunllaith—gelynion,
Dragon gan gofion, gwn gŵyn gyfiaith.
Gweled ar giwed oer argywaith
Gwedy gwalch, rhoddiad, gad gedymddaith,
Gwaed reeidr beleidr heb olaith—yng ngryd,
Gwae fy mryd ym myd ‘y mod noswaith.
Lletawd greddf, bythawd griddfan hyd baith,
Llafurgwyn, gwenwyn, dirrwyn, dyrraith;
Llafar llu daffar lle diffaith—heb ri,
Llawr Tywi tewi llwrw nad hywaith.
Llinon ysgyrion llew aes gwyriaith,
Llefain ac ubain am ddwyn gobaith,
Llugyrn braisg dëyrn brwysg daith—môr-gymlawdd,
Llwybr sawdd Lloegrdorf gawdd, llwgrdwrf goddaith.
Lleon ddewrder, ffêr, ffwyr, anorraith,
Lläin drin brenin Brynaich anghraith,
Llwyth Tewdwr treiswr trisaith—brenhiniaeth,
Llary llawffraeth bennaeth, beirddfaeth bwrddfaith;
Llid anian Dylan, tarian teiriaith,
Llawr rhuddlain ysgain arwain eurwaith,
Llew prudd ced ddiludd, cad ddylaith—Caeaw,
Llawr llwyrfraw Llwdlaw, llid Llŷr Llediaith,
Pwyll Cai pyll Myddfai, pôr pall meddfaith,
Pyrth piblfag ddinag ddawn ganhymddaith,
Pôr gryd lles esbyd, llys oesbaith—nad byw
Pâr glyw digablryw, Deau gwblraith.
Parhaawd molawd mil osymddaith,
Pan gwŷr, mawr eryr, o’m aur araith,
Prudd Nudd, udd diludd, oedd dalaith—trydar,
Pâr galon esgar, gelyn oesgaith.
Bid iddaw anaw, ynad cyfraith,
Paradwys Tadwys, tud pob gwyniaith;
Parawdrodd unrhodd anrhaith—ni dderfydd,
Cerennydd Perydd purffydd perffaith.

Duw, Dewin, Brenin, breiniol Neirthiad,
Doethfab Mair a bair o'i bur geniad
Dawn hysbys dyfrys, difrad—gerennydd
I'w brif awenydd herwydd hirwad
Gan wyrion, haelion hil ddigroniad,
Arf creulawn camawn, Einiawn Ynad.
Ardal aur benial, erbyniad—anant,
Ardeml blant moliant milioedd borthad.
Ni wadaf, barnaf can wyf beirniad,
Na waisg ar glod braisg brwysg ddychaniad,
Ac yn eu plith yn rhith anrheithiad—ni'm ceir
Heb grair dilestair ac effeiriad.
Cywir wyf, haeddwyf heddwch a rhad
Cyffredinrodd bodd byddin gyrchiad
O bwyll mur didwyll mawr Dad—didramgwydd,
Arglwydd Culwydd rhwydd, Rhwyf goleuad.
Anfonaf, traethaf, treth o gariad,
Eurchwedl i'm cenedl, canon brydiad,
Awen yn llawen rhag lliwiad—celwydd
Ni bwyf goll gynnydd gan gall gennad.
Eisau synhwyrau mydr eiriau mad
Oedd ymi golli gwesti gwastad,
Peiriau ffrwyth wleddau ffraethwlad—pêr heilgyrn,
Pur lafnau erddyrn, pyst cedyrn cad.
Gwae biau maddau medd a gwinllad,
Gwerinoedd llysoedd lles pob eirchiad,
Gwahoddion rhwyddion a rhoddiad—dreigiau,
Gwiw gyfeddau, tau Tywi Ystrad.
Da gyfoeth peunoeth, poen y'm bwyad,
A gollais i drais drosedd ffysgiad
A gallu ceinllu, canllaw had—Merfyn,
Ac ysgeirloyw lyn ac ysgarlad.
Gwir folir yn hir gywir gawad
Gweilch Hirfryn, terfyn torf gymynad;
Gwaed werin o lin leiddiad—am eryr
Gwŷr bleiniad ongyr o Blwyf Dingad.

A—Bl Add 15001, $201^{v}$ B—J 111, 1222 C—LlGC 4973B, $289^{v}$ D—LlGC 21287B, $10^{r}$ E—Pen 118, 197

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
2 h6el. 8 ymot. 30 om meur. 31 yd. 46 breist.

*Teitl*
*B* Trahaearn heuyt ae cant, *C* Trahaiarn ai cant etto i Hywel o Lann Ddingad yn Ystrad Tywi.

*Marwnad Hywel o Landingad yn Ystrad Tywi*

Amddiffynnydd addunedol brwydr [â] nerth gwroldeb,
Dewr Hywel amlwg, brwydr orthrech gyndyn,
Arwr o fath hardd, arglwydd gwych, ddifrod[wr] gelynion,
Arwr o atgofion, cyfarwydd wyf â lleferydd galar.
[O] weld gofid trist ar bobl
Ar ôl arwr, rhoddwr, cydymdaith [mewn] brwydr,
Gwaywffyn anochel ym mrwydr [yn achosi] rhaeadrau [o] waed,
Gwae fy mryd fy mod yn [y] byd heno [hebddo].
Lleda natur, bydd griddfan hyd ddiffeithdra,
Cwyn trafferth, chwerwder, dirdynnol, miniog;
Lleferydd llu yw deunydd lle anial heb frenin,
Llawr [gwlad] Tywi tawai oherwydd nad diwyd [mohono bellach].
Gwaywffon o bren onnen llew [sy'n] darian cenedl drofaus,
Crio a griddfan am ddwyn [ymaith] obaith,
Llusernau brenin cadarn [o] rymus daith ymchwydd y môr,
Llwybr dinistr poen llu Lloegr, twrw difrod coelcerth.
[Un o] ddewrder Lleon, echryslon, arswydus, anhydrin,
[Mewn] brwydr gwaywffon [a] chosb brenin Brynaich,
Llwyth Tewdwr [y] treisiwr trisaith brenhiniaeth,
Addfwyn haelionus bennaeth, cynhaliwr beirdd maith ei fwrdd;
Digofaint [o] anian Dylan, amddiffynnydd tair cenedl,
Ceimiad yn gwasgaru gwaedlyd lafnau yn arwain gwych frwydr,
Arwr call diarbed [ei] rodd, cynhaliwr byddin Caeo,
Ceimiad [sy'n] gwbl ddychryn [i] Lwydlo, [o] ddigofaint Llŷr Llediaith,
[Un o] ddoethineb Cai [ym] mhabell Myddfai, arglwydd pabell gwleddoedd o fedd,
Cynhalia['r] un digrintach a fagwyd ar y Beibl gyfaill rhinwedd[ol],
Arglwydd brwydr yw lles gwesteion, cwbl ddinistr llys [am] nad yw'n byw
[Yr un megis] gwaywffon [mewn] rhyfel [a] di-fai, llywodraeth[wr] llwyr [y] Deau.
Bydd moliant cynhaliwr miloedd yn parhau,
Cwpan gwŷr, eryr mawr, o achos fy araith wych,
Doeth Nudd, [yr] arglwydd dirwystr, oedd coron brwydr,
Gwaywffon gelynion estron, caethion oesol [ei] elyn.
Boed iddo gyfoeth, [yr] ynad cyfraith,
Paradwys [y] Tad, gwlad pob rhinwedd gwyrthiol;

Parod rodd ysbail [yr] un rhodd na dderfydd,
Cyfeillgarwch [y] Creawdr [gwrthrych] sanctaidd berffaith ffydd.

Duw, Dewin, Brenin, breiniol Nerthwr,
Mab galluog Mair a bair o’i bur ganiatâd
Ras amlwg buan [a] didwyll gyfeillgarwch
I’w brif fardd oherwydd hir wrthod [eraill]
Gan ddisgynyddion, rhai haelionus hil ddigynnil,
Arf ffyrnig [mewn] ymladdfa, Einion Ynad.
Gwych bennaeth ardal, croesawr beirdd,
Plant annedd moliant porthwr miloedd.
Ni wadaf, barnaf gan fy mod yn feirniad,
Na wasga ar glod un gwych [a chanddo] brydydd praff,
Ac yn eu plith yn null anrheithiwr ni’m ceir
Heb grair dirwystr a heb offeiriad.
Ffyddlon wyf, boed imi haeddu heddwch a gras
Rhodd gyffredin ewyllys da cyrchwr brwydr
Trwy ddoethineb amddiffyn didwyll [y] Tad mawr di-feth,
Arglwydd Bennaeth haelionus, Tywysog goleuni.
Anfonaf, traethaf, [yn] deyrnged o gariad,
Chwedl goeth i’m cenedl, prydyddiad [o] safon,
Awen yn llawen rhag cyhuddiad [o] gelwydd
Na foed imi fod yn gynyddol fy ngwall gyda chaniatâd doeth.
Diffyg synhwyrau geiriau da ar fydr
Oedd i mi golli cynhaliaeth wastadol,
Crochanau gwleddau ffrwyth gwlad doreithiog [y] cyrn yfed peraidd,
Pur gleddyfau arddyrnau, colofnau gwŷr cedyrn byddin.
Gwae[’r] sawl y mae iddo hepgor medd a diod win,
Pobloedd llysoedd oedd lles pob deisyfwr,
Gwleddau hael ac anrhegwr arwyr,
Gwiw gyfeillion, eiddot ti yw Ystrad Tywi.
Cyfoeth da bob nos, poen a fyddai i mi,
A gollais drwy orthrwm rhagoriaeth ymosodwr buan
A phŵer torf hardd, cynhaliwr hil Merfyn,
A diod ddisglair ei hymyl a gwisg ysgarlad.
Molir yn wir ac yn hir gywir lu
Milwyr campus Hirfryn, ffin lladdwr llu;
Gwaedlyd fintai o linach lladdwr o gwmpas eryr
Gwŷr blaenor gwaywffyn o Blwyf Dingad.

## *12*
## *Dychan i Gadwgawn Ficar a'i ferch a'i ddaw*

Trahaearn Brydydd Mawr a'i cant i Gadwgawn Ficar a'i ddaw ac y llosges ei dŷ y Calan nesaf wedy ei ddychanu yn nos Nadolig ac y llas ei ddaw.

Trallawn Gadwgawn gydogan—a'i ferch
A'i farchddaw grabidan;
Angall a nifer mall mân,
Ar gronwledd fuchedd fechan.

A gwilo fawdro, ef oedd fwdran—llyn
Llan Gynog fab Brychan;
Mudfa oedd dda Dduw Calan
Lle y bai, llanw ei dai o dân.

Ulltach ewingrach, ei wân—â rhuddgledd
Oedd rhwyddglod gyflafan;
Alltud secreulyd sucan
Ail breimiad albrwn gwlad gwlân.

A chynhaig Nest gest gwst ogan—celfi,
A'i raci ni rocian',
Gwŷs arnai, nid bai bychan,
Gweision a chleifion achlân.

Ar effeiriad brad braint llawchwethan—brwnt,
Braint cartfarch lwyth lewyrchan';
Nid gweddaidd blaidd bloedd cigfran,
Nid iaith o geinwaith a gân.

*Ffynonellau*
A—BL Add 15001, $261^{r}$ B—J 111, 1357 C—LlGC 4973B, $373^{r}$ D—Llst 133, $301^{v}$

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*
18 maint; levyrchan. 20 o geinueit.

*Dychan i Gadwgawn Ficar a'i ferch a'i ddaw*

Trahaearn Brydydd Mawr a'i canodd i Gadwgawn Ficar a'i fab yng nghyfraith ac fe losgodd ei dŷ y Calan dilynol ar ôl ei ddychanu ar noson Nadolig ac fe laddwyd ei fab yng nghyfraith.

Cyd-ddychan gorlawn Gadwgawn a'i ferch
A'i fab yng nghyfraith mawr [a] sarrug;
Mintai ffôl ddrwg gorachlyd,
Ar wledd grintachlyd fer [ei] pharhad.

A thin yn ymdreiglo mewn baw, llymru tenau oedd diod
Llan Gynog ap Brychan;
Mudo a fyddai'n dda [ar] Ddydd Calan
Lle byddai, llenwi ei adeiladau [a wna] tân.

Hen Wyddel cramennog ei ewinedd, yr oedd ei drywaniad â chleddyf coch
Yn llanast [o] hawdd enwogrwydd;
Estron [y] sucan dolur rhydd
Fel rhechwr llwydwyn gwlad gwlân.

A bol anllad Nest yn darogan dolur y pileri,
A'i thaclau ni siglant,
Gwyddys [bod] arni, nid pechod bychan [mo hyn],
Weision a chleifion oll.

Ar offeiriad [llawn] twyll [mae] braint bwystfil budr,
Braint llwyth ceffyl trol a lewyrchant;
Nid gweddus yw blaidd [a chanddo] lais cigfran,
Nid iaith o gynnyrch hardd a gân.

*13*

*Dychan i Gasnodyn*

Yng ngŵydd wyth tylwyth talar—cas eilgnyw,
Ceseilgnwd gomeddgar,
Nid hardd annog bardd baniar
Ar fryntyn, dorogyn dâr.

Nid unwerth cywerth cyw iâr—ag eryr,
Gwrol frenin adar;
Nid cyfrestr gwan beddestr gwâr
Â marchog arfog aerfar;

Mal nad un pen-cun cynnar—o brydydd
Â bradwr cerdd watwar.
Tra fo ffrwythlawn dawn daear,
Traul rhad ar glawr gloyw-wlad Glâr.

Ar dir Morgannwg mawr gynnydd—myged,
Lle y megir llewenydd,
Nid gnawd o ddefawd Ddofydd
Na chatwer ffyddlonder ffydd.

O farn brwydrweilch beilch balch elfydd—Meisgyn
A maesgadr Seinghennydd,
Awen arw iaith farw ferydd,
Awrddwl gwŷg feddwl gwag fydd.

Canmol nid deddfol yn oed dydd—prifardd
Lle y profer awenydd,
Breimiad hyd gwlad rhoddiad rhydd,
Braint hoen bradwy bryntyn brydydd.

Bryntyn wrthlys dyn dielwbeth—o gerdd
Ag urddwawd nid unbleth;
Cyff isel trutheingerdd treth,
Cyffesed, ef caiff aseth.

Cytbar saeth esgar syth asgeth—hobel
Cost etel cest ateth,
Cyw dryw drewedig bregeth,
Cod gwynnus cor moethus meth.

Begr golwyn gwadd drwyn gwaedd dryw—ar helcud,
O’r halcwd pan hanyw,
Barf cadno gwalgno, gwaelgnyw,
Barn waethwaeth rewinfaeth ryw.

Bilwg yng ngolwg, anghelyw—gwallt fasgl
Fin orngasgl anergryw,
Braint un gyfraith caith Cernyw,
Bryntyn, brychewyn broch yw.

Tarw gwanar tir Clâr, clawr digrifwch—byd,
Bid amharchus gennwch
Mangasgl gnyw, peisgyw pasgwch,
Mingarn, trachelwydd farn, trwch.

Diaddurn seigfurn soegfwch—yw bryntyn
Is bechgyn ais bachgwch;
Diasgen sor gor garrwch,
Dwy ysgwydd dryw blwydd drwy’r blwch.

Nis canmol deddfol dawn rhyfyg—fy llyw
Llywelyn fab Cynwrig,
Llafn Angaw, braw Bro Gynffig,
Llyw, lleiddiad gwlad, magiad myg.

Ni châr dawn daffar dyn diffyg—anlloeth,
Prawf annoeth pryf unig;
Pegor ni haedd, gwaelfaedd gwŷg,
Rhwyddnawd elw rhodd Nadolig.

Bwch bachdlawd carddwawd cerddwyg—a chwennych,
Gwarth mynych gwerth menyg;
Bryntyn, morgrugyn mawrgryg,
Braint rhagddor yw’r pegor pyg.

A’th ffalstwawd, bastlawd, bystlach—no’r geri,
Is celfi us cilfach,
Cais rhag llaw bwylliaw bellach,
Casnodyn, castr gwreinyn gwrach.

Mae arnad (nid gwad, gwŷd dognach—heb ffrwyth,
Na chyrch ffraeth gyfeddach!)
Enw bwch, muntur trwch mantach,
Oen mingarn, anadl sarn sach.

Os ymliw a wnawn, ys amlach,—fryntyn
Nid oes fraint i'th focsach,
A chwŷd am dy gerdd chwidach
Nog a chwardd, wrthlys bardd bach.

Breichau gwrab âb, ebwyd—llo corres,
Lle cyrrith y'th wnaethpwyd,
Braint gogymaint gwg amwyd,
Bryntyn, llygodyn llog wyd.

O lleddir enwir anfad westai—dryw,
Cyw caethryw, cnyw cneuai,
Bogel hobel atel ytai,
Bugail caith, ni bu laith lai.

Cellwair ci brithair, câr ciprothai—meth,
Truth lledfeth tro llatai,
Cas mandwyll, câr caws mandai,
Conglau celfïau Cilfái.

Och i'r winwlad gad ged ganlyn—gywir
Lle gedir llygodyn,
Cor dur clo hur cleheryn,
Cyrrith yn rhith, ddawnwith ddyn.

Balchwawd rhwyg arawd rhagorau,—myfyr
Nid ystyr distain gau;
Barned, weilch Cred, ced cerddau,
Bathwaith aur mwynwaith yw'r mau.

Bryntyn, ŵyr annyn, oer enau—truthain,
Gwrdd awsain gerdd eisau;
Paes briglaes, pyswrn broglau,
Pais corgi, piser, ffêr ffau.

Pryf waethwaeth ei faeth o fythau—Cilfái,
Pasgwch tai taeogau;
Pŵl cwta palf hocetau,
Pilcotyn, cleheryn clau.

Ni thycia, gnwd chwa chwiwaid,—i fryntyn
A’i berthyn a’i borthaid,
Cilyn’ yn rhedyn yn rhaid,
Rhwd gyrrith rhawd o gorraid.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, $234^{r}$ B—J 111, 1340 C—LlGC 4973B, $335^{v}$ D—LlGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], $93^{r}$ E—Pen 118, 239

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i’r holl lawysgrifau eraill un ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau’r llawysgrif*

15 deuat. 27 ci ffissel. 29 asseth. 38 vinorngastyl. 41 digrif v6ch. 65 dochnach. 96 ffir ffeu. 103 killyn.

## *Dychan i Gasnodyn*

Ym mhresenoldeb wyth tylwyth talar cas ddisgynnydd anifail,
Cynnyrch cesail waharddus,
Nid iawn yw cymell [enw] bardd anrhydeddus
Ar fudrogyn [sydd megis] pryfyn derwen.

Nid unwerth [a] chyfwerth yw cyw iâr ag eryr
[Sy’n] wrol frenin adar;
Nid o’r un radd yw milwr troed gwan mwyn
Â marchog arfog ffyrnig mewn brwydr;

Fel nad [yr] un yw pen arglwydd buan o fardd
Â bradychwr cerdd ddychan.
Tra bo rhodd daear yn ffrwythlon,
Darpar hael [sydd] ar wyneb tir disglair Clâr.

Ar dir Morgannwg mae cynnyrch mawr anrhydeddus,
Lle y porthir adloniant,
Nid arferol yw gan drefn [yr] Arglwydd
Na bo ffyddlondeb ffydd yn cael ei gadw.

Ym marn milwyr brwydr gwych hardd ddaear Meisgyn
A Senghennydd deg ei maes,
Barddoniaeth gras [o] iaith farw ddifywyd [ydyw],
Gwag fydd meddwl gwael aflawen.

Nid cyfreithiol yw canmol yn ystod dydd prifardd
Lle bynnag y profir bardd,
Rhechwr ar hyd gwlad rhoddwr hael,
Rhagorfraint difyrrwch nychlyd budrogyn o brydydd.

[Un o] atgasrwydd budrogyn yw dyn diwerth ei gerdd
Nad yw o’r un plethiad â barddoniaeth urddasol;
[O] gyff isel mae crefft gwenieithwr [o] wobr,
Boed iddo gyffesu, ef a gaiff wialen [gosb].

Cymar saeth [y] gelyn [â] gosgedd syth [megis] saeth
Cost … bol tethog,
Cyw dryw drewllyd [ei] bregeth,
Cwdyn manus gwyn yw[’r] corrach maldodus methedig.

Cenau cardotyn [â] thrwyn twrch daear [a] gwaedd dryw ar helfa,
O'r cwd budreddi y tardd,
[Un â] barf llwynog yn cnoi ei wâl, gwael bryfyn,
[Ac â] barn waethwaeth hiliogaeth wedi ei magu ar ddinistr.

Bilwg o ran golwg, [un] chwantus am gyfoeth [a chanddo] blisgyn [o] wallt
[A'i] geg yn domen o fai afrywiog,
[Â] braint [yn ôl yr] un rheol [â] chaethion Cernyw,
Budrogyn, ysmotyn broch ydyw.

Tarw ffyrnig tir Clâr, ardal digrifwch [y] byd,
Bydded yn ddirmygedig gennych
Borchell yn pori'n ofalus, gwisgedig gyw [yr] hwch dew,
Mingoes, tra chelwydd[og ei] farn, anffodus.

Bwch soeglyd, ystrywgar [am] fwyd [a] hagr yw['r] budrogyn
Dan lanciau dellt cwch bychan;
Dianaf yw corrach sorllyd ffyrnigrwydd,
Dwy ysgwydd dryw unflwydd drwy'r plisgyn.

Ni chenmyl [yr un] arferol ddawn balchder fy mhennaeth
[Sef] Llywelyn fab Cynwrig,
Paladr Anjou, dychryn Bro Cynffig,
Pennaeth, lladdwr pobl, meithrinwr anrhydeddus.

Nid yw darpariaeth dawn yn hoffi [*sc*. moli] dyn o ddiffyg cyfoeth,
Prawf ffôl creadur unig;
Nid yw corrach, [y] baedd truenus [a] diwerth, yn haeddu
Elw [sy'n] arfer hael [yn] rhodd Nadolig.

Bwch bychan ac anghenus [a chanddo] gerdd salw [a] chwerw ei gân a chwennych
Dâl o fenig, [dyna] warth mawr;
[Y] budrogyn, morgrugyn mawr a chras [ei sŵn],
Braint [lle'r] rhagddor yw'r corrach pyglyd.

A'th gerdd gelwyddog, bas a thlawd [a] chwerwach na'r bustl,
Is pileri o fanus [mewn] cilfach,
Ceisia o hyn ymlaen ystyried yn awr,
Gasnodyn, [a chennyt] gala trychfilyn gwrach.

Mae arnat (yn ddiamheuol, nwyf sy’n cael ei ddogni heb gynnyrch,
Paid â chyrchu rhialtwch parod!)
Clod bwch, mynyddwr anffodus diddannedd,
Oen mingoes, anadl sach wedi ei sarnu.

Os edliw a wnawn, amlach ydyw, [y] budrogyn
Nad oes rhagorfraint i’th ymffrost,
Y sawl a chwyda am dy gerdd faldorddus
Nag a chwardd, ffieidd-dra bardd bach.

[Yr un â] breichiau epa âb, ymborth llo corres,
[Mewn] lle crintachlyd y’th wnaethpwyd,
Rhagorfraint gymaint [â] gwg newynog,
Budrogyn, llygoden eglwys wyt.

Os lleddir gwesteiwr anghyfiawn [ac] ysgeler dryw,
Cyw caeth, cenau casglwr cnau,
Cnepyn saeth … heliwr ŷd,
Bugail caethion, ni bu [unrhyw] farwolaeth [yn] llai.

Gwatwar ci’n bytheirio, câr lleidryn methiant,
Preblan rhan fethiant taith negesydd serch,
Gelyn mân dwyll, un hoff o gaws bythynnod,
Conglau pileri Cilfái.

Och i fyddin y winwlad yn cywir geisio rhodd
Lle caniateir llygoden,
Corrach caled uchafbwynt gwobr cacynen y meirch,
[Un] crintach o ran gwedd, dyn anfedrus.

Canu urddasol toredig araith rhagoriaethau, myfyrdod
Nad yw’n ystyried distain ffug;
Filwyr campus [y] byd Cristnogol, barned rhodd cerddau,
Llunwaith aur metelwaith yw’r eiddof.

Budrogyn [sy’n] ddisgynnydd adyn [ac iddo] enau trist gwenieithwr,
Cerdd lawn diffygion [sy’n] enllib cryf;
Macwy penisel, sibrwd cymysgryw,
Gwisg corgi, cunnog, gwâl grymus.

Gwaethwaeth [nag] anifail yw ei fagwraeth o fythynnod Cilfái,
Hwch dew tai gwŷr taeog;
Twp byr [yw'r un â] phalf ystrywiau,
100 Pysgodyn bychan, cacynen y meirch chwim.

Nid ydyw o les, [y] cnwd awel [o] fân wybed, i fudrogyn
Ei berthnasau a'i lond porth,
Byddent yn cilio i'[r] rhedyn yn [ôl] angen,
104 Gwaddod crintach mintai o gorachod.

## *14*
## *Dychan*

Unig dyrn trais gelyrn trwsgl
Anaf drwyn, dysged dwyn dysgl;
Anhaedd ar gyrraedd baedd basgl,
Ymladdgar ymysgar mwsgl.

Tad yw'r coch trawsglwyd foch tresgl,
Taer druthain esgeirfain osgl;
Lleidr crogfarn mingarn mangasgl,
Llawn drygwaed crindraed croendrwsgl.

*Ffynonellau*
A—Pen 86, 267  B—Pen 111, 362

(Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Darlleniadau'r llawysgrifau*
1 *AB* dilwyrn.  4 *AB* yni ysgar.

*Teitl*
*A* Gwaith trahayarn brydydd uawr.

*Dychan*

Unig droeon cryf gunogau [yr un] lletchwith
[Â] thrwyn anafus, dysged gario llestr;
Digyrraedd at ddod at faedd gwryw,
Am ymladdgar berfedd cragen las.

Tad yw’r cochyn â boch ?gramennog [fel] clwyd draws,
Taer wenieithwr [yn canu] coesfain gorn;
Lleidr condemniedig mangoes yn casglu mân bethau,
Llawn o waed drwg [a’i] draed wedi crino [a’i] groen yn ddi-siâp.

# *Nodiadau*

## *10*

Ymranna'r awdl hon yn ddau ganiad (llau. 1–40 a 41–60). Yn y caniad cyntaf, hyd at linell 18, cyfeirir at bedwar post, a'u disgrifio fesul un, gan gyrraedd y pedwerydd post sydd yn *Pennaf ac uchaf post Naf nef wlad* (ll. 18). Ymddengys mai symbolau o agweddau ar y Waredigaeth ydynt, ond nid yw'r symboliaeth yn glir nac yn dilyn gweithgareddau Crist fel y disgwylir. Yn gysylltiedig â phob post mae dihareb (llau. 7, 11, 15–16, 19; gw. y nodiadau isod) ac ymddengys mai'r rhinweddau a ddisgrifir yn y diarhebion hyn yw sylwedd y pyst, sef *pwyll* ('doethineb') a gweddïo ar Dduw. Pregethir am ddaioni'r Gwaredwr ac fel y dylem fod yn effro erbyn Ei ailddyfodiad ar Ddydd y Farn. Sonnir hefyd amdano fel *Câr anant* (ll. 29) a symudir i gyfeirio at Dduw Dad y Creawdr (ll. 32), y Barnwr (ll. 35). Cenir am yr *Agnus* (ll. 35) a *Cristus* sy'n barhaol ffyddlon i bob un a ddaw dan awdurdod Ei gynorthwywr fel *Neirthiad*, */ Pôr … Gwarediad* (llau. 37–8). Cloir y caniad, sy'n dilyn themâu cerddi crefyddol ei ragflaenwyr, gyda'r weddi *Trugar Dduw*, *baniar fo ein Herbyniad* (ll. 40).

Molir yr Arglwydd yn yr ail ganiad, gan ddilyn confensiynau cerddi crefyddol y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r cyfnod blaenorol, a gellir honni'n ddigon teg mai canu yn ôl ffasiwn y *genre* a wna'r bardd yma. Ceir rhai geiriau ac ymadroddion Lladin, a gall fod rhai ohonynt yn atseinio rhan o wasanaeth yr Offeren.

Mae'r gerdd yn anodd iawn ei dehongli, ac yn aml, er llwyddo i ddeall y geiriau a'r gystrawen, erys arwyddocâd yr ystyr yn ansicr. Ar wahân i awgrymu'r posibilrwydd mai dan nawdd Hywel o Landingad yr oedd Trahaearn pan ganodd yr awdl hon,[1] nid oes dim ynddi a allai fod o gymorth inni i'w dyddio.

Canwyd yr awdl ar fesur gwawdodyn, sef cwpledi o gyhydedd naw ban am yn ail â thoddeidiau.[2] Cynhelir yr odl *-ad* yn y caniad cyntaf ac *-i* yn yr ail ganiad. Sylwer nad yw'r brifodl yn cael ei chynnal yn llinell 51. Ceir cymeriad llythrennol, cynganeddol neu synhwyrol yn cysylltu llawer o'r llinellau. Gwelir mai'r gynghanedd sain a geir yn y mwyafrif o'r llinellau, gyda nifer ohonynt yn bengoll.

7 **gwell yw pwyll nog aur** Cf. J 111, 1065 *Gwell pwyll noc* [diwyg.] *eur* (William Hay, *Diarhebion Cymru* (Lerpwl, [dim dyddiad]), 125).

[1] Gw. y rhagymadrodd a hefyd ei farwnad (cerdd 11 isod).
[2] Gw. J. Morris-Jones: CD 340–1.

9 **cynnail** Fe'i deellir yn e. yn golygu 'adail, fframwaith', gw. GPC 794, yn hytrach nag yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *cynnal* yn golygu 'dal' fel yr awgrymir am yr enghraifft hon yn G 253.

10 **gwir lludw** Deellir *lludw* yma yn symbol o edifeirwch, gw. GPC 2218. Ar y calediad *l* > *ll* yma yn dilyn gair yn diweddu ag *-r*, gw. Treigladau 27–8. Posibilrwydd arall yw ei ddiwygio yn *llydw* 'llu, mintai, cymuned', gw. GPC 2252.

11 **teg a gannwyll pwyll … i ddyn** Dilynir G 3 a chymryd bod yma enghraifft o'r gystrawen 'mawr a beth'; cf. isod 11.2 *dygn a dreiswaith*. Am y ddihareb, cf. R 1032.29 *tec agann6yll p6yll y dyn* a hefyd William Hay, *op.cit*. 109, *Gorau cannwyll*, *pwyll i ddyn* a *Gorau cannwyll*, *goleuni pwyll*.

13 **yw ein** Cywesgir er mwyn hyd y ll., cf. isod llau. 38, 40, 47, 51.

14 **clywitor** Llsgr. B *clech6ittior*. Dilynir G 144 ynglŷn â'r diwygiad a'i ddeall yn ffurf amhrs.pres./dyf.myn. y f. *clybod* 'clywed', cf. *ib*. 151.

15–16 Cymerir mai dyfynnu dihareb arall a wneir yn y cwpled hwn, ond ni chafwyd hyd i ddihareb i gyfateb.

16 **eiriol** Llsgr. B *eiryoel* a allai fod yn ffurf dreigledig *Geiryoel* 'Gregori Bab' yn ôl G 525 (cf. uchod 4.63n); ond awgrymir yn G *l.c*. mai a. yw *geirioel* yma, er na roddir ystyr i'r ffurf. Ni restrir *geirioel* yn GPC 1388. Fe'i diwygir yn hytrach i *eirya6l* 'eiriol, eiriolaeth'.

19 **tad—hirbla** Ymddengys fod hwn yn gyfeiriad at Satan sy'n achosi pla neu drafferth yn ddi-baid.

**Nid edy hirbwyll … hirbla** Am y ddihareb, cf. R 1031.29 *nyt edeu hirbwyll hirbla* a hefyd William Hay, *op.cit*. 201.

20 **cyn nid** Llsgr. B *kynnyt*. Derbynnir dehongliad G 119 a'i ddeall yn golygu 'er nad'.

**y'm bwyad** Am y ffurf *bwyad* yn golygu 'byddai', gw. G 65 dan *bot*. Cymerir mai'r ystyr yma yw 'gras a fyddai i mi'; cf. isod 11.65 *poen y'm bwyad*.

23 **gloesir** Dilynir awgrym petrus G 534 i'w ddeall yn gyfuniad o *gloes* + *hir*. Nid amhosibl ychwaith fyddai ffurf amhrs.pres.myn. y f. *gloesi*, gw. GPC 1409, er mai i ddiwedd y 15g. y perthyn yr enghraifft gynharaf a roddir o'r f. yno.

25 **mal cynt** Am yr ystyr 'er hynny', gw. GMW 203 a GPC 2326.

30 **coron athrawon** Digwydd yr un cyfuniad isod ll. 49.

35 ***Agnus*** Lladin, yn golygu 'oen', yma yn ffigurol am Iesu Grist.

37 **Llyw** Fe'i deellir yma i olygu 'Rheolwr', gw. GPC 2287, ond gan fod y ffurf wedi ei threiglo mae'n bosibl mai *glyw* yn golygu 'pennaeth, arglwydd, arweinydd' ydyw, gw. G 537 a GPC 1415 d.g. *glyw*[1].

38 **yw ein** Cf. uchod ll. 13n.

40 **fo ein** Cf. uchod ll. 13n.

43 **yn *nom'ni*** Cymerir bod y ffurf wedi ei chywasgu er mwyn hyd y ll. Sylwer mai *in nom'ne* a ddisgwylid.

44 **croes dadeni** Cyfeiriad at groeshoelio Crist ar Ddydd Gwener a oedd yn baratoad i'w atgyfodiad ar Ddydd Sul y Pasg, gw. Math xxvii.2–50, xxviii.1–15.

47 **yw ein** Cf. uchod ll. 13n.

50 **rhag** Llsgr. B *kynn rac* a rôi l. ry hir o ddwy sillaf. Fe'i diwygiwyd gan ddilyn John Davies yn llsgr. C gan hepgor *kynn* er mwyn mydr ac ystyr, ond mae'r ll. yn parhau i fod yn rhy hir o sillaf.

51 **yw ein** Cf. uchod ll. 13n.

**prif—Amherawdr** Sylwer bod yr odl yn cael ei cholli yma.

53 **berth** Cymerir mai 'drud' yw'r ystyr yma, gw. G 55; nid yw GPC 274 yn cynnwys yr ystyr hon.

54 **pumoes** Sef pum oes y byd cyn dyfodiad Crist, gw. GCBM ii, 16.170n.

56 **pläu** Ar y be. hwn a ddeellir yma i olygu 'achosi pla [i]', gw. GPC (i ymddangos).

**plant caeth Cäi** Am *plant Cäi* '*the children of Cain*, *the wicked*', gw. GPC (i ymddangos d.g. *plant*), a Bl BGCC 135.

58 **a ddigawn, o'i ddawn** Deellir *digawn* yma'n ffurf 3 un.pres.myn. y f. *digoni* 'gwneuthur, gweithredu, llafurio', gan ddilyn G 347. Gellid hefyd ei ddeall yn e. ac aralleirio 'digon o'i ras', cf. GDB 24.83 *A diga6n o da6n y eiduna6—reen* (Dafydd Benfras) lle deellir 'digon o allu'.

## *11*

Gŵr o'r enw Hywel yw gwrthrych y farwnad hon, ac wrth ymyl ei gopi ef o'r gerdd yn LlGC 4973B cyfeiria John Davies ato fel 'Hywel o Landingad' a hynny, yn ôl pob tebyg, oherwydd y cyfeiriad at *Blwyf Dingad* ar ddiwedd y gerdd (ll. 72). Plwyf yw Llandingad yn Hirfryn, cwmwd gogleddol y Cantref Bychan yn Ystrad Tywi. Cyfeirir hefyd at Fyddfai (ll. 25) ym Mherfedd, sef cwmwd canol y Cantref Bychan ac at gwmwd Caeo (ll. 23) yn y Cantref Mawr yn Ystrad Tywi. Ymddengys fod awdurdod Hywel yn ymestyn dros Ystrad Tywi—*tau Tywi Ystrad* (ll. 64) ac eto *Llawr Tywi* (ll. 12).

Awgryma *llwyth Tewdwr* (ll. 19) fod Hywel yn hanfod o linach Deheubarth, ac ymhlith yr olaf o'r llinach y mae tystiolaeth ddogfennol amdanynt yn y drydedd ganrif ar ddeg yr oedd Hywel ap Rhys, sef un o dri mab Rhys

Fychan (*ob.* 1271).[1] Yr oedd y tri, Rhys Wyndod, Llywelyn a Hywel, ymhlith y tywysogion a roes dystiolaeth i John Pecham, Archesgob Caergaint, pan ddaeth i Gymru i geisio cyfryngu rhwng y brenin a Llywelyn ap Gruffudd ym mis Tachwedd 1282.[2] Cwynodd Rhys Wyndod am y modd yr amddifadodd John Giffard ef o gwmwd Hirfryn, sef rhan o'i etifeddiaeth, ac am y difrod a wnaed i eglwysi Llangadog, Dingad a Llanwrda. Hwyrach i'r difrod hwn gael ei gyflawni yn ystod rhyfel 1282, neu, yn debycach, yn ystod rhyfel 1277.[3] Y pryd hwnnw, cyfarfu dwy fyddin frenhinol yn y Cantref Bychan: daeth y naill o dan arweiniad Payn de Chaworth yno o Gaerfyrddin, a'r llall o dan arweiniad Henry de Bray a John Giffard, o'r Fenni drwy arglwyddiaeth Brycheiniog, ar hyd y ffordd drwy Aberhonddu a Defynnog. Fe all y cyfeiriad yn y gerdd at wrhydri Hywel, *Diofryd ddôr gryd grym arwriaith*, / *Dewr Hywel* … (llau. 1–2) adlewyrchu ei ddewrder yn ystod y frwydr galed yn y cyffiniau hynny yn 1277, sef ardal Llandingad, Myddfai a Hirfryn a enwir gan Drahaearn.

Mae'n bosibl fod Hywel wedi gorfod ffoi o Ystrad Tywi y pryd hwnnw. Fe all mai ef yw'r Hywel ap Rhys y rhoddwyd ei dir yn Llanddarog yn Is Cennen, cwmwd deheuol y Cantref Bychan, i Richard de la Mote, yn 1280. Disgrifiwyd Hywel fel ffelon ac fel ffoadur a herwr.[4] Yn yr achosion a ddug John Giffard gerbron ustusiaid y brenin yn 1279–81, yn hawlio cymydau Hirfryn a Pherfedd, Rhys Wyndod a enwir yn ddiffynnydd.[5] Nid oes sôn yn yr achosion am Lywelyn na Hywel. Mae'n bosibl, felly, i Hywel gael lloches yng Ngwynedd ac aros yno tan 1282. Yn sicr fe gymerodd ran yn rhyfel 1282–3. Yr oedd yn aelod o'r fintai fechan, a oedd yn cynnwys nifer o dywysogion alltud y Deheubarth, a gynhaliodd wrthwynebiad Dafydd ap Gruffudd hyd haf 1283. Cipiwyd Rhys Wyndod a Hywel ap Rhys a'u harwain i Gaernarfon ac o'r fan honno i Dŵr Llundain tua diwedd Gorffennaf 1283.[6] Cafodd Llywelyn hefyd ei gipio a'i garcharu yn y Tŵr. Bu Rhys farw yn 1302,[7] ond yr oedd Llywelyn yn dal yn gaeth yno yn 1306 ac o bosibl am beth amser wedyn.[8] Ni wyddys ar hyn o bryd pryd y bu Hywel farw, ond fe allai fod rywbryd rhwng 1283 a blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar ddeg; awgrymir yn y gerdd iddo gael ei ladd drwy

[1] Diolchir yn arbennig i'r Athro J.B. Smith am gymorth wrth ysgrifennu'r nodyn cefndir hwn.

[2] *Registrum Epistolarum Fratris Johannis Peckham*, iii, ed. C.T. Martin (London, Rolls Series, 1884), 451–3 a gw. hefyd sylwadau J.B Smith: LlaG 154n104.

[3] Gw. J.B. Smith: LlaG 295–6, 298–9.

[4] *Calendar of Chancery Rolls Various*, *1277–1306* (London, 1912), 185; M. Rhys, *Ministers' Accounts for West Wales 1277–1306* (London, 1936), 31–3.

[5] *The Welsh Assize Roll*, *1277–84*, ed. J.C. Davies (Cardiff, 1940), 261–2, 268–90, 316–17, 321, 327–8, 331, 338–40.

[6] PRO, E 101/351/9; BL, Cotton Vespasian B xi, f. 28; Nicholas Trevet, *Annales Sex Regum Angliae*, *1136–1307*, ed. T. Hogg (London, English Historical Society, 1845), 307–8; *Annales Monastici*, iii (Dunstable), ed. H.R. Luard (London, Rolls Series, 1866), 293.

[7] J.G. Edwards, *Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales* (Cardiff, 1935), 161–2.

[8] *Ib.* 98–9.

orthrwm, *A gollais i drais drosedd ffysgiad* (ll. 66), ond ni wyddys pa bryd na chan bwy.

Marwnad draddodiadol yw hon, wedi ei chanu yn null Beirdd y Tywysogion. Lleisir yma nifer o themâu a glywir yn gyffredin yng nghanu beirdd y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg, megis y gŵyn fod diffeithwch yn dilyn marwolaeth yr arglwydd: gelwir Ystrad Tywi yn *lle diffaith—heb ri*, */ Llawr Tywi tewi llwrw nad hywaith* (llau. 11–12), ac eto *llys oesbaith—nad byw* (ll. 27). Disgrifir y galar, y llefain a'r ubain sydd i'w clywed yn sgil ei farwolaeth ac, yn ogystal â sôn am golled y genedl ar ei ôl, cyfeiria'r bardd at ei alar personol o golli noddwr a chyfaill (ll. 66). Cwyna am ei ystad adfydus o golli noddwr o arglwydd, *Gwae fy mryd ym myd 'y mod noswaith* (ll. 8), ac *Eisau synhwyrau mydr eiriau mad / Oedd ymi golli gwesti gwastad* (llau. 57–8). Cymherir Hywel â chymeriadau chwedlonol brodorol, megis Dylan (ll. 21), Llŷr Llediaith (ll. 24), Cai (ll. 25) a Nudd (ll. 31), ac mae nifer o'r epithetau a ddefnyddir i'w ddisgrifio yn dwyn i gof ganu beirdd y cyfnod blaenorol, megis *cad ddylaith* (ll. 23), *Pâr glyw* (ll. 28), *Pâr galon* (ll. 32). Cloir y caniad cyntaf drwy gyflwyno ei enaid i ofal Duw.

Dechreuir yr ail ganiad gan ofyn i Dduw, Mab Duw a Mab Mair am awen i ganu clod yr ymadawedig, *Arf creulawn camawn*, *Einiawn Ynad* (ll. 42). Eir ymlaen i foli haelioni a rhinweddau eraill Hywel, gan ddisgrifio'r croeso hael yn ei lys i bob un ac yn enwedig i'r beirdd.

Yn ogystal, ceir elfen grefyddol ymhleth drwy'r awdl, gan gynnwys y cyfeiriadau disgwyliedig at Dduw, y nefoedd, a'r Waredigaeth yn gyffredinol. Yn wahanol i'r farwnad draddodiadol, nid yw'r bardd yn gweddïo ar Dduw yn niweddglo'r gerdd. Yn hytrach, cloir gyda darlun o Hywel y pennaeth buddugoliaethus, … *eryr / Gwŷr bleiniad ongyr o Blwyf Dingad* (llau. 71–2).

Cenir y farwnad mewn dwy ran gyfartal, sef y caniad cyntaf—llinellau 1–36 gyda'r odl *-aith* drwyddo a'r ail 37–72 a'r odl yn *-ad*. Mae llinell 47 yn rhy hir o sillaf onid oes yno gywasgu. Cenir yr awdl yn gyfan ar fesur gwawdodyn.[9] Ceir cynghanedd sain ym mhob llinell o'r awdl, gyda chyfran helaeth ohonynt yn bengoll a cheir defnydd helaeth o gymeriad llythrennol drwyddi.

2 **dygn a dreiswaith** Am y gystrawen, gw. uchod 10.11 *teg a gannwyll* ac *ib.*n.

5 **argywaith** Unig enghraifft a ddosberthir fel e. yn golygu 'llafur, poen, gofid' yn GPC 202, cf. G 41.

8 **byd** Nid amhosibl fod iddo yma'r ystyron 'trafferth, helynt, cyffro, gofal, trwbl' a roddir yn GPC 361 (enghreifftiau o'r 15g.); fodd bynnag,

[9] Gw. J. Morris-Jones: CD 340–1.

topos yn y canu marwnad yw fod y bardd yn cwyno ei fod wedi ei adael ar ôl yn unig mewn byd anhyfryd ar ôl marw ei noddwr, cf. GBF 48.8 *Aghadyr y6 uy my6 uy mod hebda6* (Bleddyn Fardd ar ôl colli Owain Goch).

**‘y mod** Llsgr. B *ymot* y gellid ei ddehongli fel ‘ymod’, be. yn golygu ‘symud’, gw. PKM 245–6. Gwell er mwyn y gynghanedd, fodd bynnag, yw cymryd bod *mod* yn acennog.

9 **lletawd** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *lledu* gydag ystyr ddyfodol o bosibl, gw. GMW 119.

**bythawd** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *bod* gydag ystyr ddyfodol o bosibl. Cf. y nodyn blaenorol, a gw. hefyd G 64.

**paith** E. yn golygu ‘diffeithiad, anrhaith’, &c., gw. GPC 2670 ac ymhellach CLlH 205–6.

11 **lle diffaith—heb ri** Am y syniad cyffredin a leisir ym marddoniaeth Beirdd y Tywysogion, sef bod gwlad yn troi yn ddiffaith yn sgil colli ei brenin, gw. Rhian Andrews, ‘Rhai Agweddau ar Sofraniaeth yng Ngherddi’r Gogynfeirdd’, B xxvii (1976–8), 28–30, a cf. y disgrifiadau canlynol o Bowys gan Gynddelw ar ôl colli Madog ap Maredudd, GCBM i, 7.24 *Llyw Powys*, *peues diobeith*, ac eto ar ôl marw Llywelyn ap Madog, *ib*. 8.48 *Lladd Llywelyn*, *llwyr ddilyw!*

12 **llawr Tywi** Afon yn Nyfed yw *Tywi* sy’n llifo drwy Hirfryn, yn pennu’r ffin rhwng y Cantref Bychan a’r Cantref Mawr ac yn rhedeg drwy dref Caerfyrddin ac ymlaen i ymuno â’r môr. Mae Ystrad Tywi i’r gogledd o Gaerfyrddin. Nid amhosibl ychwaith fod i *llawr* yr ystyr ‘ceimiad’ yma, gw. GPC 2118 d.g. *llawr*[2] a cf. isod ll. 24.

**tewi** Ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *tewi*, gw. GMW 121.

13 **llinon ysgyrion** Ll. yr e. *ysgwr* yw *ysgyrion*, sef ‘cangen braff’, a ddefnyddir yn ffigurol yn y farddoniaeth am ‘bicell, gwaywffon’, gw. IGE[2] 387–8, GDG[3] 502 a cf. GDB 2.14 … *ysgyryon yg gnif* (Einion Wan). Ar *llinon* ‘onnen; o bren onn’, yn ogystal â ‘gwaywffon (gwaywffyn)’, gw. GPC 2184.

**gwyriaith** Derbynnir yr ystyr ‘cenedl drofaus’ a roddir ymhlith ei ystyron yn GPC 1785; gthg. G 748 sy’n rhoi’r ystyron ‘iaith anghywir, aflerw, ac anwastad’ yn unig.

16 **llwgrdwrf goddaith** Topos yn y canu arwrol yw cyffelybu trwst a dinistr rhyfelwr ar faes y gad i goelcerth yn llosgi yn ffyrnig, cf. disgrifiad Cynddelw o Fadog ap Maredudd, GCBM i, 7.9 *Twryf gruc yg gotuc*, *yg goteith* a gw. *ib*.n. am enghreifftiau pellach.

17 **Lleon** Arwr traddodiadol, a gysylltir yn ôl pob tebyg â Chaerllïon ar Wysg, gw. GMB 1.46n.

18 **Brynaich** ‘Gwŷr Bernicia i ddechrau, yna Saeson yn ddiwahaniaeth’, G 80. Digwydd y ffurf yn gyffredin am y Saeson yng ngwaith y Gogynfeirdd.

19 **llwyth Tewdwr** Ceir hanes y llwyth hwn yn J.E. Lloyd: HW$^3$ 331, 334–6; gw. *ib*. 392–9 am hanes Rhys ap Tewdwr.

21 **teiriaith** Gw. GDB 6.5n ar *teiror—Prydein*, lle sylwir bod Gruffudd Hiraethog yn yr 16g. yn synio am Brydain fel tair ynys neu dair cenedl, gan gyfeirio yn arbennig at GGH 71 (19.31), 82 (22.68). Dichon mai canmol Hywel fel amddiffynnwr (*tarian*) Prydain a wna Trahaearn, er nad yw’n amhosibl ychwaith mai at Bowys, Gwynedd a Deheubarth y cyfeirir.

**Dylan** Rhestrir yr enghraifft fel e.c. yn golygu ‘eigion, cefnfor, môr, ton’ yn G 420, ond gan fod y bardd mor hoff o gyfeiriadau chwedlonol cymerir mai e.p. ydyw, sef Dylan Ail Ton, mab Arianrhod, yr un un o bosibl â’r arwr y cofnodir yn ‘Englynion y Beddau’ iddo gael ei gladdu yn Llanfeuno. Gw. PKM 271–2, CLlH 50.7 ac ymhellach M. Haycock, ‘Dylan Ail Ton’, YB xiii (1985), 26–38.

23 **Caeaw** Sef cwmwd Caeo yn y Cantref Mawr yn Ystrad Tywi, gw. G 93 a cf. J. E. Lloyd: HW$^3$ 267.

24 **Llwdlaw** Sef *Ludlow*, tref a leolir ar yr hen ffin rhwng Cymru a Lloegr. Cymerir bod *Llwdlaw* yma yn ffurf amrywiol ar *Llwydlo*, ac o bosibl yn ffurf hŷn.

**Llŷr Llediaith** Arwr traddodiadol; arno, gw. TYP$^2$ 429 a GCBM i, 13.34n ac *ib*. ii, 9.50n.

25 **Cai** Sef Cai ap Cynyr Ceinarfog, gw. G 122–3, TYP$^2$ 303–7, a GCBM ii, 4.207n ac ymhellach R.M. Jones, ‘Cai fab Cynyr’, B xiv (1950–2), 119–23 a CO$^2$ 60–1.

**pyll** Sef ‘math o fantell neu doad’, benthyciad o’r Llad. *pallium*, gw. GmG 103; cymerir mai ‘pabell’ yw’r ystyr yma, cf. GDB 20.32 *A’e byll a’e bebyll ny beit* (anh.) a gw. *ib*.n. Fodd bynnag, gall mai e.p. ydyw yma, cf. *Pyll* a enwir yn ‘Englynion y Beddau’, gw. T. Jones, ‘The Stanzas of the Graves’, PBA liii (1967), 100. Dyna hefyd oedd enw’r mab aillt o Lansadwrn y canodd Cynddelw ei foliant, GCBM ii, cerdd 11. Gw. hefyd D.H. Evans yn YB xvii (1990), 84, lle cyfeirir at *wreic uab Pyll* gan yr Ustus Llwyd.

**Myddfai** Plwyf yng nghwmwd Perfedd yn y Cantref Bychan, gw. J.E. Lloyd: HW$^3$ 268, 649n a 190 a cf. WATU 161.

**meddfaith** Gw. GPC 2397 lle y’i rhestrir yn ffurf l. *meddfaeth* yn golygu ‘gwledd o fedd’.

26 **pyrth** Gall fod yn ffurf l. *porth* ‘cynhaliaeth’ neu ‘drws’, neu ynteu yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *porthi*. Credir mai’r f. sydd orau yma. O ran

cystrawen, cymerir bod *dawn ganhymddaith* yn wrthrych iddi, ond gellid hefyd gymryd bod iddi ystyr absoliwt (h.y. a'r gwrthrych yn ddealledig).

**piblfag** Fe'i deellir yn a. yn golygu 'wedi ei fagu ar y Beibl' (< *pibl* 'Beibl' + *mag* bôn y f. *magu*), yn enwol am Hywel. Posibilrwydd arall fyddai deall 'pyblfag' i olygu 'yn meithrin pobl, magiad pobl', eto yn enwol am Hywel; am *pybl*, ll. yr e. *pobl*, gw. GPC (i ymddangos).

30 **pan** Am yr ystyr 'cwpan, dysgl yfed, cawg, ?crochan', gw. GPC 2678; fe'i deellir yma'n ffigurol am Hywel. Posibilrwydd arall fyddai diwygio'n *pen* er bod darlleniad llsgr. B, *pann*, yn sicr yn erbyn hynny.

31 **Nudd** Sef Nudd ap Senyllt, un o'r Tri Hael, gw. TYP[3] 5–6, 476–7, 504–5. Defnyddir ei enw yn ffigurol am Hywel yma.

**udd** Llsgr. B *yd*. Rhydd diwygiad John Davies yn llsgr. C well ystyr i'r ll.

32 **gelyn oesgaith** Cf. GCBM i, 13.21 *oesgeith—y gynnygyn*.

42 **Einiawn Ynad** Dyma'r unig enghraifft a geir yn G 459 d.g. *Einyawn*[5]; am drafodaeth gyffredinol ar yr ynad yn y 13g., gw. J.B. Smith, 'Ynad Llys, Brawdwr Llys, *Iudex Curie*', a gyhoeddir yn *The Welsh King and His Court*, ed. T.M. Charles-Edwards, M.E. Owen and P. Russell (i'w gyhoeddi). Cymerir mai'r gystrawen yma yw *Gan wyrion ... Einiawn Ynad*, a'r tebyg yw fod *wyrion* i'w ddeall i olygu 'disgynyddion'.

44 **ardeml** Dilynir G 36 a rydd yr enghraifft yn eb. gyda'r ystyron 'adeilad, trigfan, annedd; gorchudd, nodded' yn hytrach na GPC 183 a rydd yr enghraifft yn golygu 'twr, tyrfa'.

45 **can wyf beirniad** Dyma enghraifft o'r cymhwylliad heb ei dreiglo ar ôl *can wyf*, gw. G 60 a Treigladau 293. Cyffredin yng nghanu Cynddelw Brydydd Mawr yw i'r bardd gyfeirio ato ei hun fel *beirniad*, ac at ei farddoniaeth fel *barn*, cf. GCBM ii, 9.196 *Gwynnuyd beirt*, *beirnyad wyf uinheu*, ac am enghreifftiau pellach yn y farddoniaeth, gw. *ib*. 2.50n.

46 **braisg** Llsgr. B *breist*; diwygiwyd er mwyn y gynghanedd. Gw. G 74 a rydd yr enghraifft d.g. *breisc*.

**dychaniad** Dilynir GPC 1115 (d.g. *dychaniad*[2]) a G 407 a'i ddeall i olygu 'ceiniad, prydydd'; nid yw GPC yn cydnabod yr ystyr ychwanegol 'caniad' a roddir yn G.

52 **Arglwydd Culwydd** Am enghraifft bellach o'r cyfuniad hwn yn golygu 'Arglwydd Bennaeth', gw. GMB 32.30 *Crist Argl6yd Kul6yd* (Meilyr ap Gwalchmai) ac ymhellach G 186.

53 **traethaf, treth** Petai *treth* yma i'w gymryd yn wrthrych *traethaf*, disgwylid iddo dreiglo'n feddal (gw. Treigladau 199, 201), ac mae'r gynghanedd yma o blaid cadw *treth*. Cymerir, felly, nad enghraifft o'r

cyfuniad cyffredin *traethu treth* a geir yma, fel yn GCBM ii, 16.122 *Caraf-y dreth a draethant geinyeit*, ond yn hytrach mai *eurchwedl* (ll. 54) yw gwrthrych y f.

56 **cennad** Dilynir GPC 464 d.g. *cennad*$^2$ yn golygu ‘caniatâd’ (er na restrir yr enghraifft hon); gthg. G 130 sy’n rhoi’r ystyr ‘cenadwri’ i’r ffurf hon.

59 **peiriau** Fe’i deellir yn ll. *pair* ‘crochan’ a gellid ei ddeall yn ffigurol am haelioni bwyd. Ond cofier y gallai *pair* hefyd olygu ‘arglwydd’, gw. GPC 2669–70.

63 **gwahoddion** Fe’i deellir yma yn ll. *gwahodd* yn golygu ‘gwledd’, gw. GPC 1562; ni roddir yr ystyr honno yn G 607. Gthg. uchod 10.24 lle rhoddir iddo’r ystyr ‘gwahoddedigion’.

64 **Tywi Ystrad** Ystrad Tywi, ardal sy’n cynnwys y Cantref Bychan a’r Cantref Mawr. Gw. J.E. Lloyd: HW$^3$ 266.

67 **Merfyn** Merfyn Frych, sylfaenydd ail linach frenhinol Gwynedd. Gw. TYP$^3$ 260–1 a J.E. Lloyd: HW$^3$ 323–4.

70 **Hirfryn** Cwmwd gogleddol y Cantref Bychan, Ystrad Tywi. Fe’i rhoddwyd i Faelgwn ap Rhys yn rhan o ddosbarthiad tiroedd Deheubarth yn 1216. Yn ystod y 13g. daeth i feddiant Rhys Gryg a’i ddisgynyddion, sef Rhys Mechyll (*ob*. 1246), Rhys Fychan (*ob*. 1271), a Rhys Wyndod. Mae’n bosibl fod Llywelyn a Rhys wedi cael ystadau y tu mewn i arglwyddiaeth Rhys Wyndod, ond Rhys ei hun sy’n amddiffyn ei hawl i’r etifeddiaeth adeg yr achos a ddug John Giffard gerbron ustusiaid y brenin, 1279–81, yn hawlio cymydau Hirfryn a Pherfedd. Gw. J.E. Lloyd: HW$^3$ 268, 649 a cf. WATU 92.

72 **bleiniad** Yn G 58 d.g. *bleinyat* yn golygu ‘blaenor, arweinydd, ymladdwr blaen’ wrth nodi’r enghraifft dan sylw ceir ‘Ansicr oherwydd y gynghanedd ydyw *bleinyat* … a gellir … darllen *bliuyat* neu *blueit* (: *blif* [yn golygu ‘*catapult*’])’, ond rhoddir yr enghraifft yn ddibetrus yn GPC 282 dan *blaeniad*, *bleiniad* yn golygu ‘arweinydd, tywysog, gŵr blaenllaw’.

**Plwyf Dingad** Gw. G 361 lle dangosir mai nawddsant Llandingad, Llanymddyfri oedd Dingad Brychan, a cf. LBS ii, 343 ac O. Jones: Cymru ii, 44 lle sonnir am Blwyf Llandingad a gw. WATU 92. Mae’n bosibl hefyd mai *plwyf* yn golygu ‘pobl’ sydd yma.

## *12*

Dychenir yma Gadwgawn Ficar, ei ferch a’i ddaw mewn cyfres o bum englyn. Mae’r rhaglith a ddaw o flaen y gerdd yn amwys, ond cesglir bod Trahaearn wedi dychanu Cadwgawn ar nos Nadolig, a bod tŷ Cadwgawn

wedi mynd ar dân ar y dydd Calan dilynol a bod y mab yng nghyfraith wedi cael ei ladd. O gofio fel y gall effaith dychan fod yn llethol, fe gyfyd y cwestiwn ai dychan Trahaearn a oedd yn gyfrifol am y tân a'r holl lanastr.[1] Sonnir yn y gerdd hefyd am ferch Cadwgawn (ll. 1), a'r tebyg yw mai hi yw'r Nest a ddychenir yn llinell 13 am ei hanlladrwydd.

Ni wyddys pwy oedd Cadwgawn Ficar, ond awgryma Lloyd-Jones yn betrus mai Cadwgan ap Cynwrig ydoedd,[2] sef un o gwmni o wyth a ddychanwyd yn ddifrifol gan Lywelyn Ddu ab y Pastard; ond ymddengys fod hwnnw yn un o'r Brodyr Llwyd.[3] Ymddengys i gerdd Llywelyn Ddu gael ei chanu yn fras yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg.[4]

Gwelir yn y gerdd fer hon fod Trahaearn yn feistr ar grefft dychan, a gwelir yma dipyn o hiwmor; sylwer, er enghraifft, ar y llinell *Mudfa oedd dda Dduw Calan* (ll. 7). Topos yn y canu mawl traddodiadol yw cyfeirio at luoedd yn tyrru i lys y noddwr ar ddydd Calan, ond gan fod tân yn llenwi tŷ Cadwgawn (ll. 8) a chan mai llymru tenau (*bwdran*, ll. 5) oedd y ddiod yno, mudo oddi yno oedd y peth gorau. Celfydd hefyd yw'r modd y dychana lais Cadwgawn yr offeiriad, y mae disgwyl iddo lefaru yn swynol ac awdurdodol: *Nid gweddaidd blaidd bloedd cigfran* (ll. 19); mae'r llinell ddilynol, *Nid iaith o geinwaith a gân* (ll. 20) yn awgrymu ymhellach y gallai fod yn fardd o ryw fath.

Cyfres o bum englyn unodl union sydd yma wedi eu canu ar yr un brifodl *-an*. Ceir cynghanedd sain drwyddi, gyda chyfran uchel ohonynt yn gynganeddion sain pengoll.

2 **marchddaw** Gw. GPC 2353 d.g. *march* lle esbonnir, 'digwydd mewn enwau lleoedd … hefyd mewn enwau planhigion, &c., i ddynodi mathau mawr neu arw neu gryf eu haroglau'.

**grabidan** Rhestrir y ffurf yn G 584 yn unig enghraifft; ni roddir iddo ystyr, ond ceir y sylw 'gthg. *rabi*, *rabire*'. (Am *rabire* 'rhygyngog, llamsachus', gw J. Lloyd-Jones, 're, rein … rabire', B iv (1927–9), 55 a GMB 13.17n.) Ni restrir y ffurf yn GPC 1518, ond sylwir yno fod *gr-* a *cr-* weithiau yn ymgyfnewid (cf. *crabys/grabys*), felly gellid tybio i *grabidan* fod yn ffurf amrywiol ar *crabidan*. Ceir yn GPC 573 *crabed*, *crabet* 'afrywiog, sarrug, drwg neu flin ei dymer', &c., ac er mai

[1] Yn Iwerddon yr oedd cred y gellid lladd drwy ddychanu, gw. J.E. Caerwyn Williams, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon* (Caerdydd, 1958), 46, 47, 147; *id*., *The Irish Literary Tradition* (Belmont, Mass., 1992), 31–2, 175–6. Cofier hefyd am y traddodiad fod Rhys Meigen wedi marw ar ôl clywed y gerdd ddychan a ganodd Dafydd ap Gwilym iddo, gw. GDG[3] xl.

[2] Gw. G 93 d.g. *Kadwgawn*[4].

[3] Gw. R 1353.30–1, 33–4 *Kadwga6n c6t ra6n reua6c kyllestric. kythreuluab kennwric derric dorra6c ... Keuynbant vrat tyfyant vra6t diuia6c troetnoeth*.

[4] Bydd golygiad Dylan Foster Evans o waith Llywelyn Ddu ab y Pastard yn ymddangos yn y gyfres hon.

ffurfiau o'r 17g. yw'r rhain, cymerir yn dra phetrus fod *grabidan* yn ffurf fachigol ar hwnnw.

5 **gwilo** Dilynir G 679 a GPC 1661 sy'n ei restru yn unig enghraifft, ac yn rhoi iddo yn betrus yr ystyr 'tin, cyfeistedd'. Mae'r tarddiad yn anhysbys.

**ef oedd fwdran llyn** Cymerir mai'r gystrawen yma yw berf (*ef oedd*) + dibeniad (*bwdran*) + goddrych (*llyn*). Am y treiglad meddal yma, i'r dibeniad ar ôl *ef oedd*, cf. Treigladau 304 lle ceir enghreifftiau cynnar o dreiglo'r dibeniad ar ôl *yd oedd* ac *yr oedd*.

6 **Llan Gynog fab Brychan** Ymhellach ar y sant Cynog ap Brychan, gw. G 244 a GLlF 26.52n (Gwynfardd Brycheiniog). Ceir o leiaf bedwar plwyf o'r enw Llangynog yng Nghymru (gw. *Rhestr o Enwau Lleoedd*, gol. E. Davies (Caerdydd, 1967), 66 a WATU 130–1), ond y tebyg yw mai at blwyf ym Mrycheiniog neu yng nghwmwd Penrhyn yn sir Gaerfyrddin y cyfeirir yma.

8 **tai** Gall *tai* yma gyfeirio at un llys y mae iddo nifer o adeiladau neu rannau, cf. CA 73–4 ar *mordei*, a gw. GSRh 13.35–6n.

9 **ulltach** Ceir enghraifft bellach o'r ffurf yn R 1344.16–17 *eithyr bocsach ulltach alldut / vlldach gwlat anllat enllys*, lle dychenir Trahaearn Brydydd Mawr ei hun gan Gasnodyn. Digon posibl yw'r ystyr '*an oaf, a changeling*' a roddir gan William Owen [Pughe] yn P (1794). Fodd bynnag, cynigir mai ffurf yn tarddu o'r Wyddeleg *Ultach* '*Ulsterman*' ydyw yma, yn cael ei ddefnyddio yn ddifrïol; cf. *Gwyddelyn*, yr enw a roddir ar y cymeriad a ddychenir gan Iolo Goch, gw. GIG 166 (cerdd XXXVII).

11 **secreulyd** Ni chafwyd unrhyw oleuni ar y ffurf hon, ac felly cynigir yr ystyr yn betrus iawn.

12 **albrwn** Fe'i hesbonnir yn GPC 75 yn fenthyciad o'r S.C. *alborn* (*auburn*) neu H. Ffrangeg *alborne*, gan roi iddo'r ystyron 'lwydwyn neu felynwyn' gan ddilyn G 19.

**gwlad gwlân** Tybed a oes cysylltiad rhwng *gwlad gwlân* ac Iwerddon? Cf. enghreifftiau G 690 d.g. *gwlân*, a cf. y nodyn uchod ar *ulltach*, ll. 8.

13 **Nest** Ni wyddys at bwy y cyfeirir yma onid at ferch Cadwgawn ei hun y cyfeirir ati yn ll. gyntaf y gerdd.

**celfi** Sef 'colofnau', cf. isod 13.62, 84 ac ar y ffurf, gw. GPC 456.

14 **raci** Neu *rhaci*, o bosibl. Ni chafwyd enghraifft arall o'r ffurf ac ni chynhwysir hi yn GPC (i ymddangos). Ymddengys o'r cyd-destun mai e.ll. ydyw yma. Rhestrir ffurfiau megis *rak* (S.Diw. *rack*), *rAke* ('rhaca') yn MED. Cynigir yr ystyr 'taclau' yma gyda chryn betruster.

**rocian'** Gw. GPC (i ymddangos) lle rhestrir hon yn enghraifft gynharaf o'r f. *rociaf*: *rocio* 'siglo', &c., o'r S. *rock*. Tybed ai fel 'yn ei r(h)ocian' y dylid darllen *ny rockyan* llsgr. B.

18 **braint** Llsgr. B *maint*. Derbynnir y diwygiad a gynigir yn G 114 d.g. *cartvarch* er mwyn cytseinedd â'r gair cyrch.

**llewyrchan'** Llsgr. B *levyrchan*, a ddeellir yn ffurf 3 ll.pres.myn. y f. *llewyrchu*. Petrus iawn yw'r dehongliad hwn oherwydd, yn ogystal â pheri i'r ll. fod yn rhy hir o sillaf, anarferol braidd fyddai sillgolli'r *a* perthynol, a sylwir yn GPC 2172 mai diweddar yw'r f. *llewyrchu* o'i chymharu â'r f. *llewychu*, *ib*. 2170. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw oleuni ar ffurfiau megis *llefrchan/llefrthan*.

20 **o geinwaith** Llsgr. B *o geinueit*. Derbynnir awgrym petrus G 124 ynglŷn â'r diwygiad er mwyn y gynghanedd. Sylwer bod John Davies wedi diwygio'r ffurf yn *geiniaith* yn llsgr. C, a bod golygyddion y *Myvyrian* wedi ei ddilyn (gw. MA$^{2}$ 332$^{b}$).

## *13*

Mae'r gyfres hir hon o englynion yn bwysig am ei bod yn taflu goleuni ar fywyd y bardd ei hun a gwrthrych ei ddychan, Casnodyn, a flodeuai yn ystod chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg.[1] Credir i'r gyfres gael ei chanu pan oedd Trahaearn dan nawdd Llywelyn ap Cynwrig o Forgannwg, bod Casnodyn wedi ei wneud yn gyff clêr mewn gwledd yng nghartref Llywelyn, a bod Casnodyn wedyn wedi canu cerdd ddychan i'w ateb.[2]

Cenir yr englynion 'yn null enllibus a chras y goganwr' yn ôl D. Myrddin Lloyd,[3] a thrwyddynt dibrisir gwerth barddol Casnodyn, gan alw ar drosiadau trawiadol i'r perwyl hwn (e.e. llau. 3–10). Priodolir iddo *Awen arw iaith farw ferydd* (ll. 19), a chyfeirir at ei grefft fel *dielwbeth—o gerdd / Ag urddwawd nid unbleth* (llau. 25–6) a *trutheingerdd* (ll. 27); dibrisir ei farddoniaeth ymhellach drwy ei galw yn *Gwrdd awsain gerdd eisau* (ll. 94). Gelwir Casnodyn yn *fryntyn* ddeg gwaith ac ar ôl nodi bod ei dylwyth yn hanfod o'r caeau yn yr englyn cyntaf, fe'i cyffelybir i nifer o anifeiliaid o'r radd isaf o ran eu maint a'u parch, megis *torogyn* (ll. 4, sef '*tick*'), *cyw iâr* (ll. 5), *gwadd* (ll. 33), *cadno* (ll. 35), *cnyw* ('porchell') (ll. 43), *bwch* (llau. 57, 67), *morgrugyn* (ll. 59), *llygodyn* (llau. 76, 86), *cleheryn* (ll. 87). Gellir gwrthgyferbynnu'r gerdd ddychan a ganodd Casnodyn i Drahaearn, lle cyffelybir Trahaearn i nifer o anifeiliaid mawr eu maint, megis eidion, tarw, ci mawr.[4] Portreedir Casnodyn drwyddi fel person gwan, twyllodrus, ffiaidd ac

[1] Gw. ACDC 69.
[2] Trafodwyd dilysrwydd yr englynion hyn yn y rhagymadrodd uchod.
[3] ByCy 916.
[4] Trafodir y gerdd hon yn y rhagymadrodd uchod.

aflan ei arferion.

Cadwyn o chwech ar hugain o englynion unodl union rheolaidd sydd yn y gerdd. Fe'i cynganeddwyd bron yn llwyr a cheir canran uchel o gynganeddion sain (nifer ohonynt yn bengoll) ynddi. Ceir cymeriad llythrennol, cynganeddol neu synhwyrol yn cysylltu dwy linell y paladr â'i gilydd, ac estynnir hyn yn aml i gynnwys llinell gyntaf yr esgyll (e.e. llau. 17–20, 29–32, 33–6, 37–40, 45–8, &c.)

1 **wyth tylwyth talar** Ystyr lythrennol *talar* yw '*headland in a ploughed field*', gw. GMWL 271. Cyfeiria Trahaearn yma yn ddifrïol at dylwyth Casnodyn fel creaduriaid o'r maes. Ni wyddys union arwyddocâd y rhifol *wyth* yma, ond cf. R 1353.10–12 *kann ydi6 hedi6 hydewa6c uanyar. wyth dil6yth dalar annwar ennwa6c* (Llywelyn Ddu ab y Pastard mewn cerdd ddychan); dichon hefyd fod *wyth* yn cynrychioli 'amlder' fel y gwna yn gyffredin yng nghanu'r Cywyddwyr.

4 **bryntyn** Sef 'un budr, gwrthun' (< *brwnt*), gw. G 81, cf. GPC 340. Digwydd y ffurf 10 gwaith yng nghorff y gerdd, a diddorol sylwi mai dyma'r unig enghreifftiau o'r ffurf tan yr 16g., yn ôl tystiolaeth GPC.

**torogyn** Fe'i deellir yn amrywiad ar *torogen*; am y ffurf honno, gw. I. Williams, 'torogen, Trogog', B xi (1940–4), 140 lle rhoddir iddo'r ystyr '*tick*', sef pryfyn sy'n 'glynu yng nghroen dyn ac anifail, gan dyllu i mewn iddo, a sugno'r gwaed'. Cymhleth braidd yw'r gystrawen yma, ond cymerir mai'r ystyr lythrennol yw 'ar bryfyn derwen o fudrogyn'.

5 **Nid unwerth cywerth cyw iâr—ag eryr** Cf. uchod 12.19 am yr un math o goegni, *Nid gweddaidd blaidd bloedd cigfran*.

9 **pen-cun cynnar—o brydydd** Gwelir yma'r un gystrawen â 10.11 *Teg a gannwyll ...*, ond gyda'r ardd. *o* yn lle *a*.

12 **clawr gloyw-wlad Glâr** Cyfeiriad at deulu de Clare. Am hanes ieirll de Clare a'u disgynyddion gw. DWB 75–7 a GCH iii, 45–72.

15 **defawd** Llsgr. B *deuat*. Diwygiwyd er mwyn y gynghanedd a'r ystyr, gan ddilyn G 305–6.

17 **Meisgyn** Cwmwd yng nghantref Penychen ym Morgannwg, gw. WATU 155.

18 **Seinghennydd** Sef Senghennydd, 'Cantref Breiniol' yn nwyrain Morgannwg, gw. WATU 197.

24 **bradwy** Mae'r ll. fel y saif yn rhy hir o sillaf. Dyma'r unig enghraifft o'r ffurf a nodir yn G 71 a dywed GPC 304 mai ffurf ddiweddar ar *bradw* ydyw. O ddiwygio'n *bradw* (unsill), ceid ll. reolaidd o ran hyd.

27 **cyff isel** Llsgr. B *ci ffissel*. Dilynir John Davies yn llsgr. C o ran rhaniad geiriau yma, gan ddeall *cyff* yn ffigurol am '[d]ylwyth neu

wehelyth; tras, llinach', &c., GPC 727. Mynegir ansicrwydd yn G 506 sy'n rhestru *ffissel* ond gan dybio y dylid diwygio *trutheingerdd* yn *trutheingel* er mwyn cael odl, neu ynteu ddiwygio *ffissel* i odli â *trutheingerdd*.

29 **asgeth** Llsgr. B *asseth*. Derbynnir y diwygiad a awgrymir yn G 45 (cf. GPC d.g. *ateth*) er mwyn y gynghanedd. Ymddengys *asgeth* yn ffurf amrywiol ar *ysgeth*, gair prin ac ansicr ei ystyr. Mewn slip a godwyd o law J. Lloyd-Jones yn Uned Geiriadur Prifysgol Cymru, rhoddir iddo'r ystyron '?*lance*, *spear*', ond gwrthodwyd yr ystyr hon yn CA 76–7, lle cynigir yn hytrach yr ystyron 'pryd, llun, gosgedd', er cydnabod y byddai 'gwaywffon' yn rhoi gwell ystyr yn yr enghreifftiau. Gw. hefyd, R.D. Fulk, 'ysgeth', B xxviii (1978–80), 401–2. Gellid felly aralleirio *syth asgeth—hobel* un ai yn 'gwaywffon syth [megis] saeth', neu 'gosgedd syth hebog bychan' (ar *hobel* 'gwalch neu hebog bychan' neu 'saeth', gw. GDG[3] 530, GPC 1880).

30 **etel** Ni wyddys beth yw'r ffurf hon. Fe'i rhestrir yn G 494 heb roi ystyr; nis ceir yn GPC 1252. Cf. hefyd isod ll. 79n ar *gatel*.

**ateth** Dilynir GPC 227 ynglŷn ag ystyr y ffurf; gthg. G 46 lle cynigir diwygio un ai yn *a theth* neu gymryd bod *ateth* yn adffurfiad o *atethol* 'peth dirmygedig, gwrthodedig, neu a. dirmygedig'.

34 **O'r halcwd pan hanyw** Derbynnir awgrym petrus G 763 d.g. *hal*[2] i ddeall *halc6d* yn gyfuniad o *hâl* ('tom tail; budreddi, aflendid') a *cwd*. Ni restrir y ffurf yn GPC 1815. Am y gystrawen *o ... pan*, gw. GMW 79–80.

36 **rhewinfaeth** Gellid hefyd ddeall 'wedi ei fagu mewn adfail'. Ar *rhewin*, o'r Llad. *ruIna*, gw. EL 46.

37 **bilwg** Ynglŷn â'r defnydd o'r erfyn mewn perthynas ag enw bardd, cf. Ieuan Du'r Bilwg o Forgannwg; arno, gw. D.H. Evans, 'Ieuan Du'r Bilwg (*fl*. *c*. 1470)', B xxxiii (1986), 101–32.

**anghelyw** Dilynir GPC 52 sy'n ei restru yn unig enghraifft o a. 'chwantus am gyfoeth', o *anc* (fel yn *crafanc*) + *elyf* 'cyfoeth'. Fe'i rhestrir hefyd yn G 16 ond heb roi ystyr.

38 **min orngasgl** Llsgr. B *vinorngastyl*. Fe'i diwygiwyd er mwyn cynghanedd â'r gair cyrch (cf. G 115 lle rhestrir y ffurf dan *kasg*(*y*)*l*[1]).

39 **caith Cernyw** Ni wyddys beth yw arwyddocâd y cyfeiriad hwn, na phaham y mae'r bardd yn cymharu ystad Casnodyn â gwŷr caeth o Gernyw yn arbennig.

40 **brychewyn** Ffurf unigol, gyda'r terfyniad unigol -*yn* wedi ei ychwanegu at y ffurf l. *brycheu*, gw. G 80. Yn WG 121 rhoddir enghreifftiau o -*ew*- ac -*eu*- yn ymgyfnewid.

41 **Clâr** Gw. ll. 12n uchod.

43 **mangasgl** Unig enghraifft, a derbynnir yr ystyr a roddir yn GPC 2341.

**pasgwch** Sef cyfuniad o *pasg* (bôn y f. *pesgi*) + *hwch*, gw. GPC 2698 a cf. isod ll. 98.

45 **seigfurn** Ar wahanol ystyron *murn*, gw. GPC 2504.

46 **Is bechgyn ais bachgwch** Rhoddwyd aralleiriad llythrennol, gan na wyddys beth yw arwyddocâd y gyffelybiaeth hon. Gw. ACDC 323 am ddehongliad posibl.

49 **Nis canmol … llyw** Mae'r gystrawen yma yn amwys. Cymerir mai *deddfol ddawn* yw'r goddrych ('[yr un] cywir') ac mai *rhyfyg—fy llyw* yw'r gwrthrych, a bod y rhagenw mewnol *-s* (yn *nis*) yn achub y blaen ar y gwrthrych hwn.

49–60 Ni wahaniaethid rhwng *-ig* ac *-yg* ddiacen o safbwynt yr odl yn y cyfnod hwn, gw. J. Morris-Jones: CD 247–8 lle nodir ymhellach, 'fe geidw'r *y* ei sain mewn unsillafion fel *plyg*, *cryg*, ac mewn cyfansoddeiriau ohonynt'. Cymerir felly mai grym tafodiaith sy'n caniatáu odli *myg* (ll. 52), *gwŷg* (ll. 55) a *pyg* (ll. 60) gyda gweddill y prifodlau.

50 **Llywelyn fab Cynwrig** Arglwydd Llantriddyd a Radur, gw. TLlM 7 ac ymhellach y rhagymadrodd uchod i waith y bardd.

51 **llafn Angaw** Dosberthir *Angaw* yma yn betrus yn G 28 fel yr e. lle Anjou yn Ffrainc. Mae'n bosibl y cyfeirir at Lywelyn fel ymladdwr ffyrnig yn Anjou, hwyrach fel cefnogwr i Edward II. Posibilrwydd arall yw mai cyfeirio a wneir at fath o lafn arbennig a wnaethpwyd yn Anjou, neu yn ôl dull Anjou. Cofier hefyd fod llinach frenhinol Lloegr yn tarddu o linach Anjou—gw. J.B. Smith: LlaG 11—a gellir awgrymu mai gair am Frenin Lloegr yw *Angaw*: '[un megis] llafn [ym myddin] Brenin Lloegr'.

**Bro Gynffig** Plwyf a bwrdeistref yng nghantref Gorfynydd, ym Morgannwg; gw. G 248 a WATU 54 a 97.

53 **dawn daffar** Mae'r aralleiriad 'darpariaeth dawn' yn gofyn am dreiglad meddal i'r ail elfen, ond am galediad *-n dd-* > *-n d-*, gw. Treigladau 26–7 a cf. isod 15.19n.

56 **rhodd Nadolig** Cyfeirir yma at yr arfer o ddosbarthu rhoddion i'r beirdd ar un o'r tair gŵyl arbennig, cf. GCBM ii, 4.158 *Hart y uart y u6rt Nadolyc* a hefyd GLlF 22.53 (Seisyll Bryffwrch).

61 **bystlach—no'r geri** Mae'n bosibl fod y bardd yma yn dyfynnu cymhariaeth draddodiadol, cf. *Cyn chwerwed a'r geri*, D d.g. *geri*.

62 **Is celfi us cilfach** Ar *celfi* yn golygu 'colofnau' yn benodol yn y cyfnod hwn, gw. 12.13n uchod. Cymerir mai dweud a wna'r bardd fod Casnodyn yn datgan ei gerddi israddol wrth droed colofnau llychlyd yng

nghilfachau'r neuadd yn hytrach nag wrth y ford dâl, lle câi'r beirdd o statws ddatgan eu cerddi hwy.

64 **Casnodyn** Fe'i dosberthir yn G 115–16 fel e.c.; ond gw. TLlM 7n17, lle ceir tystiolaeth i Lloyd-Jones newid ei feddwl a chymryd mai at Gasnodyn, y bardd, y cyfeirir.

**gwreinyn** Sef 'trychfilyn'; gw. GPC 1699 lle'r esbonnir ef yn ffurf un.g. o *gwreint* (cf. hefyd G 704 d.g. *gwre*).

67 **muntur** Ffurf anhysbys ac unig enghraifft. Cynigir yn betrus iawn ei fod yn gyfuniad o *munt* a'r terfyniad enwol prin *-ur* fel a welir yn *llodur* (GPC 2198). Deellir *munt* yn amrywiad ar *mwnd*, *mwnt*[1] 'mynydd, bryn', &c. (GPC 2510, er na restrir y ffurf yno), cf. *munt* sy'n amrywiad ar *mwnt*[2], *l.c.*

69–72 Y gystrawen yma yw … *ys amlach … / A chwŷd am dy gerdd chwidach / Nog a chwardd …* Adleisir y geiriau hyn mewn englyn a ddyfynnir yn nhestun Peniarth 20 o Ramadegau'r Penceirddiaid wrth gyfarch Trahaearn, *Ys amlach am dy semlgerd / O'r byt a chwyt noc a chward*, GP 53. (Gw. ymhellach y rhagymadrodd uchod.)

76 **llygodyn** Mae'n werth cadw mewn cof, hwyrach, ymateb Cigfa, fel uchelwraig, o weld y cyfryw anifail yn llaw Manawydan, *Pryf a welaf i'th law di ual llygoden. A drwc y gueda y wr kyuurd a thidi*, *ymodi pryf kyfryw a hwnnw. Gellwg e ymdeith ef*, PKM 62 (llau. 4–6). Gw. hefyd ymhellach y nodyn gan D.H. Evans yn YB xvii (1990), 82 ar *yn rwyt llygot*.

**llygodyn llog** Dilynir GPC 2266 a'i ddeall yn golygu 'llygoden eglwys', sydd o bosibl yn gyfeiriad at dlodi Casnodyn; gthg. ACDC 325 lle aralleirir '*profiteering rat*', o ddeall *llog* i olygu 'elw', &c.

78 **cneuai** Sef 'casglwr cnau', gw. G 153 a GPC 519 lle rhestrir hon fel yr unig enghraifft.

79 **gatel** Ffurf anhysbys. Fe'i rhestrir yn betrus yn G 523, ond gan gymharu o bosibl *ettel*, sef y ffurf a geir uchod ll. 30n. Sylwer bod y ll. yn rhy hir o sillaf.

**ytai** Cymerir mai 'heliwr ŷd' yw ei ystyr, ar lun *cneuai* yn golygu 'casglwr cnau' y ll. flaenorol a gw. GDG[3] 606 'cardotwr ŷd'. Gw. hefyd GBDd 66 ar arfer y beirdd o fynd ar deithiau yta.

81 **ciprothai** Unig enghraifft; derbynnir awgrymiadau G 141 (gyda gofynnod) a GPC 484.

83 **câr** Gwrthodir awgrym petrus G 113 ynglŷn â'r dehongliad yma, sy'n cymryd mai *car* 'ffrâm', &c. yw'r ffurf, felly hefyd GPC 421–2. Mae darlleniad llsgr. B, *car* yn hytrach na *carr*, yn awgrymu mai 'câr' yw'r ynganiad, a chymerir *câr caws mandai* 'un hoff o gaws bythynnod', yn ddisgrifiad difrïol o Gasnodyn, fel un tlawd ac israddol ei fwyd.

84 **Cilfái** Maenor yn arglwyddiaeth Gŵyr, gw. WATU 43 a GCH iii, *passim* (d.g. 'Kilvey' yn y mynegai).

87 **hur** Ansicr yw ei ystyr yma. Rhestrir dau air yn GPC 1925, sef *hur*[1] 'tâl penodol … cyflog … gwobr', &c., a *hur*[2] '?penwisg; gwallt'.

89 **rhagorau** Nid amhosibl fod i *rhagor* yma yr ystyr 'blaen byddin', gw. CA 381.

95 **paes** Derbynnir awgrym GPC 2668 d.g. *paets* a'i ddeall yn fenthyciad o'r S. *page* 'macwy, gwas'.

**pyswrn broglau** Derbynnir awgrym a wneir ar slip yn Uned Geiriadur Prifysgol Cymru i ddeall *pyswrn* yn gytras â'r H.Wydd. *pisarnach* '*whispering*', DIL d.g. Gthg. ACDC 327, 631–2 sy'n ei ddehongli yn gyfuniad o *pys* + *swrn*, ac yn dehongli *broglau* yn gyfuniad o *broc* + *llau* 'chwain', gan gyfieithu '*worthless bunch of badger's fleas*'. Dilynir yn hytrach GPC 332 yma.

96 **ffêr ffau** Llsgr. B *ffir ffeu*, a ddehonglir yn llsgr. C fel *ffi'r ffau*. Dilynir G 505 (d.g. *ffer*[2]) a diwygio yn *ffêr*, er mwyn adfer y gynghanedd.

97 **Cilfái** Gw. ll. 84n uchod.

99 **hocetau** Gw. GPC 1881 lle dosberthir y ffurf fel ll. *hoced* 'twyll', &c. (o'r S. *hoket*); cedwir y gytsain *t* yma (llsgr. B *hocketteu*) er mwyn cytseinedd, cf. *pilcotyn* y ll. ddilynol.

101–2 **Ni thycia, gnwd … / … borthaid** Cymerir mai *a'i berthyn a'i borthaid* yw goddrych y f. *tycia* yma, a bod *gnwd chwa chwiwaid* i'w ddeall yn ddisgrifiad ohonynt, wedi ei leoli mewn cyfosodiad i'r f., ac felly yn treiglo'n feddal.

103 **cilyn'** Llsgr. B *killyn*. Dilynir G 140 d.g. *kil·lyn* a chymryd mai 3 un.amhff.myn. (neu ail ddyf.) y f. *cilio* ydyw.

## *14*

Dau englyn proest dalgron a geir yma, ac mae'n debyg eu bod yn rhan o gerdd hwy. Nid oes yma unrhyw gyfeiriad at noddwr na lleoliad. Mae'r cyfeiriad at *druthain*, llinell 6, yn awgrymu mai bardd yw'r gwrthrych (cf. uchod 13.27, 93). Ceir cynghanedd sain ym mhob llinell a chymeriad llythrennol yn cysylltu'r cwpledi â'i gilydd.

1 **celyrn** Llsgrau. AB *dilwyrn*, sy'n ffurf anhysbys. Diwygiwyd yn dra phetrus yn *celyrn*, ffurf l. *celwrn;* ar y ffurf honno, gw. G 127 a GPC 458.

4 **ymysgar** Llsgrau. AB *yni ysgar*; ymddengys fod *yni* yn ffrwyth camddarllen *ym*.

**mwsgl** Derbynnir yr ystyr a gynigir yn betrus yn G 2513, sef ‘cragen las; *mussel*’.

5 **trawsglwyd foch tresgl** Gall *foch* fod yn ffurf dreigledig *boch* neu *moch*. Ceir planhigyn o’r enw *tresgl y moch*, sef *Potentilla erecta*, llwyn â blodau melyn o deulu’r rhosynnod (S. *tormentil*), gw. D. Davies ac A. Jones, *Enwau Cymraeg ar Blanhigion* (Caerdydd, 1995), 94. Fodd bynnag, disgwylid darllen *moch dresgl* oherwydd y trawsosod, ac mae angen cadw’r *tr-* yn *tresgl* i gytseinio â *traws* (oni bai fod hwnnw i’w dreiglo). Tybed a gafwyd calediad *d* > *t* ar ôl y gytsain *ch?*
Ceir dwy enghraifft bellach o’r ffurf *tresgl* mewn dychan anhysbys yn y Llyfr Coch, R 1346.9, 34 *min tresgylu6ch ... Gora6c troscla6c tresgyl gynnif*. Mewn slip yn Uned Geiriadur Prifysgol Cymru mae Lloyd-Jones yn cynnig mai ffurf f. yr a. *trysgl* ‘*scabby*’ a geir yn yr enghraifft gyntaf a chyfeiria ymhellach at *trysgli* [< *trwsgl*] sy’n digwydd mewn testunau meddyginiaethol yn golygu ‘garwedd, *rash*, *putresence*, *?exzema*’. Am *trwsgl/trysgl*, gellid cymharu o bosibl *dwfn/dyfn*. Derbynnir yr ystyr honno yma; am y diffyg treiglad meddal, gw. uchod.

O gymryd bod *foch* yn dreiglad o *moch*, gellid cystrawennu *foch* gyda *trawsglwyd*, a chyda *clwyd foch* gymharu *giât mochyn*, GPC 2469. Posibilrwydd arall fyddai darllen *trawsglwydd* ‘bwriad, ymgymeriad’, gw. GSRh 9.43n.

Fodd bynnag, anodd yw cael ystyr o hyn oll ac erys union ystyr y ll. yn ansicr.

# *Mynegai*


**âb** 13.73
**addon** 10.3
***Agnus*** 10.35n
**anghelyw** 13.37n
**anghraith** 11.18
**ais** 13.46n
**albrwn** 12.12n
**amherawdr** 10.51n
**amwyll** 10.15
**anergryw** 13.38
**anhaedd** 14.3
**anlloeth** 13.53
**anorraith** 11.17
**anrhegiad** 10.22
**anrheithiad** 11.47
**arawd** 13.89
**ardeml** 11.44n
**arddwrn: erddyrn** 11.60
**arglwydd** 11.52n
**argywaith** 11.5n
**arwriaith** 11.1
**aseth** 13.28
**asgeth** 13.29n
**ateth** 13.30n
**athro: athrawon** 10.30n
**awenydd** 11.40
**awrddwl** 13.20
**awsain** 13.94
**bachgen: bechgyn** 13.46n
**bachgwch** 13.46n
**bad** 10.39
**balchryw** 11.3
**balchwawd** 13.89
**baniar** 10.40
**basgl** 13.37, 14.3
**bastlawd** 13.61
**bathwaith** 13.92
**bawdro** 12.5
**beirddfaeth** 11.20
**beirniad** 11.45n
**berth** 10.53n
**bilwg** 13.37n
**bleiniad** 11.72n
**blwch** 13.48
**bocsach** 13.70
**bod** 11.8n **wyf** 11.45n; **yw** 10.13n, 38n, 47n, 51n; **bythawd** 11.9n; **bwyad** 10.20n, 11.65; **oedd** 12.5n; **bo** 10.40n; **bai** 12.8
**bogel** 13.79
**bradwy** 13.24n
**braint** 12.18n
**braisg** 11.46n
**breimiad** 12.12, 13.23
**briglaes** 13.95
**brithair** 13.81
**broglau** 13.95n
**brychewyn** 13.40n
**Brynaich** 11.18n
**bryntyn** 13.4n, 24, 25, 40, 45, 59, 69, 76, 93, 101
**bwdran** 12.5n
**bwrddfaith** 11.20
**bwth: bythau** 13.97
**byd** 11.8n
**bystl: bystlach** 13.61n
**caeth** 10.56n; **caith** 13.39n, 80
**can** 11.45n
**cannwyll** 10.11n
**canon** 11.54
**câr** 13.83n
**carddwawd** 13.57
**cartfarch** 12.18
**castr** 13.64

**cawad** 10.10
**ceinwaith** 12.20n
**celfi** 12.13n, 13.62n; **celfïau** 13.84
**celwrn: celyrn** 14.1n
**cennad** 11.56n
**cerddwyg** 13.57
**ceseilgnwd** 13.2
**cest** 12.13
**cilfach** 13.62n
**cilio: cilyn'** 13.103n
**ciprothai** 13.81n
**clawr** 13.12n
**cleheryn** 13.87, 100
**clywed**: **clywitor** 10.14n
**cneuai** 13.78n
**cnwd** 13.101n
**cnyw** 13.43, 78
**colwyn** 13.33
**coron** 10.30n
**crindraed** 14.8
**croendrwsgl** 14.8
**croes** 10.44n
**crogfarn** 14.7
**cronwledd** 12.4
**culwydd** 10.48, 11.52n
**cunllaith** 11.3
**cwblraith** 11.28
**cydogan** 12.1
**cyfoesi** 10.54
**cyfrestr** 13.7
**cyff** 13.27n
**cyffredinrodd** 11.50
**cymynad** 11.70
**cyn** 10.20
**cynhaig** 12.13
**cynnail** 10.9n
**cynnar** 13.9n
**cynt** gw. **mal cynt**
**cyrchiad** 11.50
**cyrrith** 13.74, 88, 104
**cytbar** 13.29
**cywerth** 13.5n
**cyw iâr** 13.5n
**chwidach** 13.71
**chwiwaid** 13.101
**dadeni** 10.44
**daffar** 13.53n
**dawn** 10.58n, 13.53n
**dawnwith** 13.88
**defawd** 13.15n
**diffaith** 11.11n
**digoni: digawn** 10.58n
**digroniad** 11.41
**diofryd** 11.1
**diwad** 10.5
**doethfab** 11.38
**dognach** 13.65
**drewedig** 13.31
**dychaniad** 11.46n
**dygn** 11.2n
**dysgl** 14.2
**ebwyd** 13.73
**ef** 12.5n
**effeiriad** 11.48, 12.17
**eilgnyw** 13.1
**ein** 10.13n, 40n
**eiriol** 10.16n
**elfydd** 13.17
**erddyrn** gw. **arddwrn**
**eryr** 13.5n
**esgeirfain** 14.6
**etel** 13.30n
**ewingrach** 12.9
**ffalstwawd** 13.61
**ffau** 13.96
**ffelaig** 10.45
**ffêr** 11.17, 13.96n
**ffraethwlad** 11.59
**ffrwyth** 11.59
**ffwyr** 11.17
**ffysgiad** 11.66
**gallu** 11.67
**garrwch** 13.47
**gatel** 13.79n
**gelyn** 11.32
**geri** 13.61n

**gloesir** 10.23n
**gloyw-wlad** 13.12n
**gobryn** 10.12
**goddaith** 11.16n
**gosymddaith** 11.29
**grabidan** 12.2n
**gwaelgnyw** 13.35
**gwahodd: gwahoddion** 10.24, 11.63n
**gwalgno** 13.35
**gwerth** 13.58
**gwestyn** 10.12
**gwilo** 12.5n
**gwinllad** 10.3, 11.61
**gwir** 10.10n
**gwlad** 12.12n
**gwlân** 12.12n
**gwrab** 13.73
**gwreinyn** 13.64n
**gwrthlys** 13.25, 72
**gwŷg** 13.20, 55
**gwynnus** 13.32
**gwyriaith** 11.13n
**halcwd** 13.34n
**hanfod: hanyw** 13.34n
**heb** 11.11n
**helcud** 13.33
**hirbla** 10.19n
**hirwad** 11.40
**hobel** 13.29, 79
**hocet: hocetau** 13.99n
**hur** 13.87n
**is** 13.46n, 62n
**isel** 13.27n
**llafn** 13.51n
**llafurgwyn** 11.10
**lläin** 11.18
**llaith** 13.80
**llatai** 13.82
**llawchwethan** 12.17
**llawffraeth** 11.20
**llawr¹** 11.12n
**llawr²** 11.24
**lle** 11.11n
**lledfeth** 13.82
**lledu: lletawd** 11.9n
**llewyrchu: llewyrchan’** 12.18n
**llinon** 11.13n
**lliwed** 10.41
**lliwiad** 11.55
**llog** 13.76n
**llu Bedydd** 10.27
**lluchynt** 10.25
**lludw** 10.10n
**llwgrdwrf** 11.16n
**llwyth** 11.19n
**llygodyn** 13.76n, 86
**llyn** 11.68, 12.5n
**llyw** 10.37n, 13.49n
**mal cynt** 10.25n
**mandai** 13.83
**mandwyll** 13.83
**maneg: menyg** 13.58
**mangasgl** 13.43n, 14.7
**mantach** 13.67
**marchddaw** 12.2n
**mawrgryg** 13.59
**meddfaeth: meddfaith** 11.25n
**min** 13.38
**mingarn** 13.44, 68, 14.7
**moch** 14.5n
**morgrugyn** 13.59
**môr-gymlawdd** 11.15
**mudfa** 12.7
**muntur** 13.67n
**mwsgl** 14.4n
**mwynwaith** 13.92
**myg** 13.52
**mygrwawr** 10.42
**Nadolig** 13.56n
**nawdd** 10.43
**neuadd: neuaddawr** 10.3
**ni: nid** 10.20n **nis** 13.49n
**no: no’r** 13.61n
***nom’ni*** 10.43n
**o** 12.20n; 13.9n, 34n; **o’i** 10.58n; **o’r** 13.34n

**oesbaith** 11.27
**oesgaeth: oesgaith** 11.32n
**ongyr** 11.72
**orngasgl** 13.38
**paes** 13.95n
**pair: peiriau** 11.59n
**paith** 11.9n
**paladr: peleidr** 11.7
**palf** 13.99
**pall** 11.25
**pan** 13.34n
**parawdrodd** 11.35
**parhau: parhaawd** 11.29
**pasgwch** 13.43n, 98
**peddestr** 13.7
**pegor** 13.55, 60
**peisgyw** 13.43
**pen-cun** 10.55, 13.9n
**penial** 11.43
**peniar** 10.57
**perthyn** 13.102n
**perydd** 10.7, 11.36
**piblfag** 11.26n
**pilcotyn** 13.100
**plant … Cäi** 10.56n
**pläu** 10.56n
**plwyfogaeth** 10.56
**pôr** 11.25, 27
**porthad, porthiad** 10.29, 11.44; **porthaid** 13.102n
**porthi: pyrth** 11.26n
**porthiad** gw. **porthad**
**post** 10.2, 13, 17, 18; **pyst** 10.5, 9, 17
**pregeth** 13.31
**prif** 10.51n
**prydiad** 11.54
**pumoes** 10.54n
**purffydd** 11.36
**pŵl** 13.99
**pwyll** 10.7, 11
**pyd** 10.39
**pyg** 13.60
**pyll** 11.25n
**pyswrn** 13.95n
**raci** 12.14n
**rocio: rocian’** 12.14n
**rhaeadr: rheeidr** 11.7
**rhag** 10.50n
**rhagddor** 13.60
**rhag llaw** 13.63
**rhagor: rhagorau** 13.89n
**rhewinfaeth** 13.36n
**rhi** 11.11n
**rhodd** 13.56n
**rhoddiad** 10.17, 11.6, 63, 13.23
**rhwyddnawd** 13.56
**rhyferthi** 10.58
**sach** 13.68
**sarn** 13.68
**sawdd** 11.16
**secreulyd** 12.11n
**seigfurn** 13.45n
**soegfwch** 13.45
**tad** 10.19n
**tadwys** 11.34
**talaith** 11.31
**talar** 13.1n
**teg** 10.11n
**teiriaith** 11.21n
**tewi: tewi** 11.12n
**torogyn** 13.4n
**trachelwydd** 13.44
**traethu: traethaf** 11.53n
**traul** 10.10
**trawsglwyd** 14.5n
**treiswaith** 11.2n
**tresgl** 14.5n
**treth** 11.53n, 13.27
**truthain** 13.93, 14.6
**trutheingerdd** 13.27
**trwch** 13.44
**tŷ: tai** 12.8n
**tycio: tycia** 13.101n
**tylwyth** 13.1n
**tyrn** 14.1

**udd** 11.31n
**ufyddiad** 10.28
**ulltach** 12.9n
**unbeirniad** 10.35
**unbleth** 13.26
**ungad** 10.21
**ungel** 10.21
**ungryd** 10.39
**unrhodd** 11.35
**unwerth** 13.5n
**urddwawd** 13.26
**us** 13.62n
**wyth** 13.1n
**y: y'm** 10.20n
**ymladdgar** 14.4
**ymysgar** 14.4n
**yn** 10.43n
**ysgain** 11.22
**ysgarlad** 11.68
**ysgeirloyw** 11.68
**ysgwr: ysgyrion** 11.13n
**ytai** 13.79n

*Enwau personol*

**Cadwgawn** 12.1
**Cai** 11.25n
**Cäi** 10.56n (yn y cyfuniad **plant Cäi**)
**Casnodyn** 13.64n
**Clâr** teulu *de Clare* 13.12n, 41
**Crist** 10.52
***Cristus*** 10.36, 44
**Cynog fab Brychan** gw. **Llan Gynog fab Brychan**
**Dofydd** 13.15
**Duw** 10.40 **Duw Celi** 10.48
**Dylan** 11.21n
**Einiawn Ynad** 11.42n
**Hywel** 11.2
***Iesu Sanctus*** 10.46
**Lleon** 11.17n
**Llŷr Llediaith** 11.24n
**Llywelyn fab Cynwrig** 13.50n
**Mair** 11.38
**Mari** 10.42
**Merfyn** 11.67n
**Nest** 12.13n
**Nudd** 11.31n
**Tewdwr** 11.19n

*Enwau lleoedd*

**Angaw** 13.51n
**Bro Gynffig** 13.51n
**Caeaw** 11.23n
**Cernyw** 13.39n
**Cilfái** 13.84n, 97
**Deau** 11.28
**Hirfryn** 11.70n
**Llan Gynog fab Brychan** 12.6n
**Llwdlaw** 11.24n
**Meisgyn** 13.17n
**Morgannwg** 13.3
**Myddfai** 11.25n
**Plwyf Dingad** 11.72n
**Seinghennydd** 13.18n
**Tywi** 11.12n
**Tywi Ystrad** 11.64n

# GWAITH IORWERTH BELI

golygwyd gan

R. IESTYN DANIEL

# *Rhagymadrodd*

Hyd y gwyddys, ni cheir sôn am Iorwerth Beli mewn unrhyw ddogfennau cyfoes nac yn yr achau, a'r unig gerdd o'i eiddo a gadwyd yw holl sail yr hyn y gellir ei gasglu amdano.[1] Ar bwys cyfeiriadau'r bardd at Arfon (ll. 5) ac Esgob Bangor (ll. 41) mae'n dra phosibl mai un o Arfon neu Fôn ydoedd. Gellir tybio hefyd ei fod ymhlith y penceirddiaid a fu yn canu ar aelwyd yr esgob cyn i hwnnw eu gwrthod a derbyn cerddorion Seisnig yn eu lle. Dengys ei farn bendant am dras, urddas a blaenoriaeth ei briod urdd a'i ddirmyg at y cerddorion Seisnig mai bardd hanfodol geidwadol ei fryd ydoedd.

Er mai un gerdd yn unig o waith Iorwerth Beli sydd ar glawr,[2] eto fe berthyn iddi bwysigrwydd a diddordeb anghyffredin. Achwyn yn dost a wna'r bardd am fod Esgob Bangor wedi estyn ei nawdd i gerddorion Seisnig iselradd ar draul beirdd yr hen draddodiad penceirddaidd Cymreig urddasol y perthynai ef iddo. Awgrymodd D. Myrddin Lloyd[3] mai Anian Sais, Esgob Bangor o 1309 hyd ei farw yn 1327, oedd y gŵr hwn,[4] ac er na rydd ei resymau, mae lle i dybio mai cywir ei farn: gallai gweithred *rwyf Bangor gôr* (ll. 41) yn cau ei ddrws ar y beirdd fod wedi digwydd yn hawdd yng Nghymru'r cyfnod 1309–27, a barhâi i fod yn gyfnod o ansicrwydd i'r beirdd wedi iddynt golli nawdd y tywysogion. Gwelir hefyd gyfatebiaeth amlwg rhwng y ffaith mai Saeson a groesawyd gan yr esgob hwn (ll. 54) a'i gyfenw, *Sais*. Ni wyddys pa ystyriaethau yn union a ysgogodd yr esgob i groesawu'r cerddorion hyn, ond bu ei benderfyniad yn ergyd drom i Iorwerth Beli a'i gyd-feirdd, ac mae'r gerdd yn taflu golau uniongyrchol a llachar ar beth o hynt y beirdd yn ystod y degawdau tywyll a thyngedfennol hynny wedi 1282 pan oedd eu nawdd yn ansicr a phan oeddynt hefyd, yn ddiau, yn gorfod cystadlu â charfanau eraill megis y cerddorion Seisnig er mwyn ennill eu bywoliaeth. Nid llai trawiadol yw'r nodyn personol hyglyw sy'n rhedeg trwy'r gerdd. Megis Gwilym Ddu o Arfon, yntau o'r un cyfnod, dyma fardd sy'n codi uwchlaw celfyddyd amhersonol noeth am ei fod yn siarad o ganol argyfwng a siglodd seiliau ei fywyd. Tebyg hefyd i eiddo Gwilym Ddu yw ei gyfeiriadau edmygus a hiraethus at rai o feirdd mawr y

[1] Fe'i henwir yn rhestr John Davies, Mallwyd, o awduron Cymraeg ar ddiwedd D lle rhoddir 1380 fel dyddiad ei flodau.

[2] Ceir testun golygedig yn Bl B XIV 24–6.

[3] ByCy 392.

[4] Ar Anian Sais, gw. Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Caerdydd, 1962), 66, Browne Willis, *A Survey of the Cathedral Church of Bangor* (London, 1721), 73–4. Sylwer bod gŵr o'r enw Anian Sais yn cael ei restru fel abad mynachlog Ystrad Fflur yn 1280–94, gw. D.H. Williams, *The Welsh Cistercians* (Caldey, 1984), i, Atodiad I.

ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg, megis Cynddelw a Dafydd Benfras (llau. 15–18).[5]

Mae un rhan o'r awdl sy'n teilyngu sylw arbennig, sef y stori ddiddorol am Faelgwn Gwynedd yn gorfodi ei feirdd a'i gerddorion i nofio dros Afon Menai gan ddangos ffafr wedyn i'r beirdd (llau. 29–36). Ceir ffurfiau amrywiol ar y stori hon ar fydr mewn llawysgrifau eraill megis Peniarth 147, llawysgrif o'r unfed ganrif ar bymtheg:

> Pan aeth Gwallawc hir y dir mab Don
> a dau amrafael o gerδorion
> a gwedy nofiaw draw drwy r afon
> dimai nys talai y telynorion
> nyd gwaeth y prydai y prydyδion
> nag y prydyssynt gynt helynt haylion.[6]

Ceir un arall, llawer hwy, yn LlGC 37B, 130 mewn cerdd a briodolir i Daliesin.[7] Fel yr awgryma Dr B.F. Roberts,[8] mae'n rhaid fod y stori wedi mynd yn rhan o draddodiad llafar.

O ran ei chelfyddyd gyffredinol mae'r gerdd yn bur gywrain, a'i brawddegau yn hir ac amlgymalog. Clir yw'r meddwl, er hynny, wrth i'r bardd symud yn hamddenol ac eang o un syniad i'r llall.

Ceir yn y gerdd hon gyfres o ddeg toddaid ar hugain,[9] gyda phob llinell yn rheolaidd o ran hyd ac eithrio llinellau 29 a 60 (gw. y nodiadau). Y gynghanedd sain a welir fynychaf, gyda nifer o gynganeddion sain bengoll; ceir hefyd nifer sylweddol o gynganeddion braidd gyffwrdd.

Digwydd yr awdl, yn gyfan gan amlaf a heb unrhyw amrywio yn nhrefn y llinellau, mewn pedair ar bymtheg o lawysgrifau sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd y ddeunawfed ganrif neu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

[5] Cf. uchod 8.11–28.
[6] Dyfynnir o T. Gwynn Jones, 'Cerdd Dant' B i (1921–3), 153.
[7] Gw. AH 321n5.
[8] *L.c.*
[9] Ar yr arfer anghyffredin o linynnu toddeidiau, gw. y rhagymadrodd uchod i waith Gwilym Ddu.

*15*

## *Cwyn yn erbyn Esgob Bangor*

Arglwydd Grist, Culwydd calon—gyflawnrad,
Argleidriad, Neirthiad nerth angylion,
Erglyw fi, fy Llyw, Pen llywodron—Cred,
Eurgrair gogoned, gwared gwirion.
Erwan fu gennyf, Arfon—fu seithug,
Athrist y’m gorug athro canon
Pan wisgodd, urddodd arddelwon—tannau,
Dwrdd clustiau cerddau cerdd ymryson,
A gadael, gafael gofion—diannoeth,
Y gwŷr digrifddoeth yn rhynoethion.
A rhyfedd gennyf, gan arwyddion—plaid
Ein rhên (rhy danbaid eniweidion!)
Pan na roddai Dduw ddialon—parawd
Lle rhoed ar ddifrawd barddawd beirddion.
Tra fu Lywarch, parch perchenogion—elw,
A Chynddelw, arddelw urdd ddledogion,
A Gwilym Rhyfel, rhif anfon—urddas,
A Dafydd Benfras ym mawrblas Môn,
Ni wnâi arglwydd rhwydd, rhoddion—digroniad,
Neb ryw gonglad brad ar brydyddion.
Tra fu’r prifeirdd heirdd, hardd weision—cerddiawn,
Cyflawn o dryddawn ymadroddion,
Nid ef a berchid berchyllson—debig
Grwth helig terrig, tor goluddion.
Wrth glywed teced tôn englynion—maith
O waith prif deddfiaith y prydyddion,
Agarw oedd glybod eigion—telynau
O gau wisg fleiddiau, tannau tynion.
Pan aeth Maelgwn hir o dir mab Dôn—duedd
I wledd gwalch gorsedd hyd Gaer Seion,
A dwyn gydag ef, gofion—dan orchest,
Oedd o gerdd arwest ar gerddorion,
A pheri uddunt, ffyrfeiddion—llawer,
I bawb o’r nifer nofio’r afon;
Pan ddoethant i’r tir, terfyn Môn,— ar drai,
Dimai nis talai’r telynorion!

Tyst yw Duw ar hyn, tystion—a'i gwybydd:
Herwydd hardd gynnydd, gynneddf doethion,
Cystal y prydai'r prydyddion—â chynt
Er a nofiesynt, helynt haelion.
Gan rwyf Bangor gôr, goron—urddedig,
Pendefig, gwledig gwlad y Brython,
Gwisgoedd a gafas gosgorddion—diffrwyth,
Gosgryn dylwyth, llwyth llethedigion.
Tudur Wion lon, lun eidion—myngus,
Rheidus, ys digus ei ostegion:
Am wybod Saesneg Seisnig dôn—drygwas,
Gwisg a gafas las laes odreon;
Cafas, costog cas (nid cyson—damwain),
Ysgymun filain gog brain breision,
Yn dwyllor, cornor ceirnion—drwg araith
Yn dullio breithiaith, dillad brithion.
Gwehelyth nis câr gwehilion—cerddau
Tabyrddau, swysau iangwyr Saeson:
Truan oedd gweled, gwaelddynion—gwrthfun,
Rhoi dillad uddun ni bai'n dyllion!
Pani wyddiad penrhad, canon—dyrcyn,
Nad mal cerdd Dutgyn, sain erfyn sôn,
Ydd âi (nod anghlod) englynion—digudd
Gŵr prudd o Fôr Udd hyd Fôr Iwerddon?

*Ffynonellau*

A—BL 14867, 184$^{v}$ B—BL 14934, 115$^{r}$ C—BL 14936, 42$^{r}$ D—BL 14940, 61$^{v}$ E—BL 15000, 205$^{v}$ F—BL 31056, 37$^{v}$ G—Card 4.10, 131 H—LlGC 37B, 132 I—LlGC 169C, 157 (llau. 42–8) J—LlGC 2025B [= Pant 58], 198$^{v}$ K—LlGC 2032B [= Pant 66], 25$^{v}$ L—LlGC 3049D [= Mos 146], 442 M—LlGC 8497B, 2$^{r}$ N—Llst 118, 299 O—Llst 120, 144 P—Llst 122, 203 Q—Pen 111, 316 R—Pen 113, iii, 17 S—Wy 1, 79

Gellir rhannu'r llawysgrifau yn ddau brif ddosbarth, sef A–EGIK a FHJL–S. Tardda'r rhan fwyaf o'r cyntaf, yn uniongyrchol neu anuniongyrchol, o'r ail: A o H, BCD o P, E o H neu fel arall, G o F, a K o Q. Anodd gwybod i ba ddosbarth y perthyn I gan mai dryll o saith llinell yn unig ydyw a'r rheini heb fod yn cynnwys unrhyw ddarlleniadau arwyddocaol. Copïau annibynnol yw FHJL–S. Pur debyg ydynt i'w gilydd ond gellir eu rhannu ymhellach, yn ôl rhai darlleniadau sy'n gyffredin i rai ohonynt yn unig, yn FJLORS a HMNPQ. Nodwyd amrywiadau isod o lawysgrifau FHJL–S.

Mae nifer o ddarlleniadau yn nhestun llawysgrifau M ac S yn anghyflawn neu'n rhy anodd eu darllen oherwydd traul; ni nodir hynny isod, oni bai fod

posibilrwydd y byddai'r darlleniad hwnnw, petai'n gyflawn, yn wahanol i'r darlleniad a roddir yn y testun. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 167–9.)

*Amrywiadau*
1–32 [*M*]. 1 *F* kelvydd. 2 *L* ar gleiddrad, *P* ar glidriad; *L* feirthiad, *R* neiṭiad; *L* ferth; *L* ogynon, *S* angelion. 3 *L* eurglyw; *HOPR* llywodreon, *L* llewodreon. 4 *H* Eurged. 5 [*J*]; *N* arwan, *R* arnon; *F* v ssevthvg. 6 *FHLO–R* A thrist; *J* yn. 7 *PQ* penn; *J* dannau. 8 *L* dwrd; *FP* glvsdiav; *JOS* cardd. 9 *F* gyvion; *NO* diamoeth. 10 *H* ddigrivddoeth, *LS* digrif doeth; *F* ry noethon, *O* rhy naethion. 11 *L* [A]; *LRS* [plaid]. 12 *L* yn rhan y ddevbar [eniweidion]; *R* ran; *FR* ry; *FNOQR* aniweidion, *H* ainweiddien (aniweidion), *P* ainweiddon *neu* amweiddon. 13 *FO* Pan fu coddi, *J* pan im codes, S pam ni codes; *L* roe, *N* koddai; *FHJNOQS* duw; *H* ddialedd, *FGNOQ* dialon; *L* parodd, *R* paraụd *ac* a *uwchben* aụ. 14 *JP* llei rhoid; *FS* roid; *L* byrddwawd, *R* barḍwaụd. 15 *L* na, *R* [Tra]; *Q* llowarch; *N* pchenogion. 16 *FHJLOPRS* arddelw vrddedicion, *N* arddelw heirdd ddledogion; Q vrddeledogion. 17 *HNPQ* ryfic anfon. 20 *H* gonglad *a'r ail lythyren wedi ei thanlinellu ac* e *uwchben*, *L* goglad. 21 *H* cudawn, *L* kerddawn, *NPQ* kyddawn. 22 *FLQ* dridawn, *HJNOPRS* driddawn. 23 *LS* berchyl son. 24 *FHLP* gwrth. 25 *J* weled; *L* tybied; *FJLNOPR* to; *H* to engyon (têg Englynion); *P* engyion; *Q* [maith]. 26 *F* ddeddiaith, *H* deivr caith, *JNOR* deddfiaith, *L* deddfaith, *PQ* deifriaith; *H* Pryddion. 27 *FLOPQ* a garw, *RS* A garwr; *L* digion delynav. 28 *FHJOPQS* gwisg; *L* bleidiav. 29 *H* i, *P* [o]; *N* dir mon duedd; *JLRS* [duedd], *O* duoedd. 30 *F* o wledd; *F* galch; *P* Saer Seion; *JLRS* Sion. 31 *FQR* dwyn i gydag ef, *L* dwyn gyda a gef; *F* gyfion; *H* dôn, *L* fav. 32 *L* o gerddorion, *OR* ar cerddorion. 33 *LR* ffvryfeiddion; *HJ* lawer. 35 *FJLRS* ddoethan, *M–O* ddaethant, *HP* ddoethon; *J* i dir; *S* mor; *N* a thrai. 36 *M* talu'r. 37 *F* trist, *S* test; *FJLMORS* duw ai gwyr tystion; *F* a gwybydd. 38 *J* hyrwydd oedd, *L* herwydd krist, *S* hyrwydd cardd. 39 *H* ae hynt. 41 *MP* pan; *P* gangor; *JLORS* cor; *FJLORS* coron. 43 *N* gosgellion; *S* diofrwyth. 44 *FJLNQR* gosgeryn, *HP* gosgeyrn, *M* gwasarn, *O* Goseryn; *M* twylwyth, *S* dwylwyth; *F* lleddedigion, *S* llethdicion. 45 *FHJLMOPRS* Wiawn lawn, *Q* Wion lan *ac* o *uwchben yr* a; *J* edion; *JLRS* mygus. 46 *N* digws. 47 *M* saesnaec; *L* son. 48 *S* gwisg las a. 49 *FHJM–P* ddamwain. 50 *FLQR* ystyfyn, *O* Yscifyn; *M* milain; *FO* cog, *JS* cod; *L* kogfrain. 51 *H* cernawr, *J* corfawr; *J* ceirfion; *JRS* dryg artaith, *FLO* drwg artaith. 52 *F* dilion, *LOS* dulio, *NQ* dryllio; *H* breithiaeth; *FL* ddillad. 53 *H* Gwehelyn. 54 *NQ* swyddav, *M* sowsau. 55 *P* Trvain; *M* weled; *S* gwaeldynion; *HJMOPS* Gwrthun. 56 *O* iddynt; *H* bai'n yn dyllion, *JLORS* bai dyllyon. 57 *HLMNPQ* pan na; *F* pen kad cennad canon, *HP* pen rhad cenad Canon dvrcyn, *JNOQRS* penn rhad cennad canon, *L* kvrad kenad kanon, *M* cuniad penn canon dyrcyn. 58 *Q* mal nad; *FMOP* duclvn, *H* dudyn, *JLRS* dukvn; *L* erwin. 59–60 [*L*]. 59 *M* yr ai; *R* y ḍarfod

anglod; *JS* [anghlod]; *JMRS* [digudd]. 60 *M* eb gudd o; *M* yd vor yron, *N* hyd ywerddon; *P* Werddon.

*Teitl neu raglith*
*HP* Owdl i Esgob Bangor am ysglvso prydydd a mawrhav crwth trithant ffidler, *J* I Esgob Bangor, *L* owdwl o arall, *Q* Owdl foliant i esgob Bangor ac ymliwiad ac ef am esklysso yr Beirdd a mawrhav yr kerddorion, *R* Oụdyl i esgob Bangor yr hụnn oeḍ yn caru cerḍorion cerḍ danneu yn fụy no çerḍorion cerḍ dafoḍ (*sic*) ac yn haelaç uḍunt or aâos y canoḍ y Barḍ iḍo, gan adroḍ nad oeḍ gerḍ danneu iụ çyfflybu i gerḍ dafaụd, a bod cerḍ dafod yn fụy gorçestol no çerḍ danneu.

*Olnod*
*F* Jer boli Jer beli medd rai, *H* Iorwerth Beli 1380 medd Will.[ms] but Qu., *J* Jorwerth Beli ai cant, *MR* Jerwerth Beli, *O* Jerwerth boly medd rhai ai cant *a'i ddilyn mewn llaw wahanol gan* Jorwerth Beli i Esgob Bangor, *PQ* Jerwerth Beli ai kant, *S* Jor Bely.

*Cwyn yn erbyn Esgob Bangor*

Arglwydd Grist, [y] Pennaeth [â] chalon raslon,
Cynhaliwr, Cadarnhawr llu angylion,
Clyw fi, f’Arglwydd, Pennaeth llywodraethwyr Byd Cred,
Gwych drysor gogoniant, gwaredigaeth ddi-fai.
Gwewyr fu arnaf, di-les fu Arfon,
Trist iawn y’m gwnaeth meistr dysg
Pan arwisgodd [ac] urddodd bleidwyr tannau,
Dadwrdd [i] glustiau [wedi arfer â] cherddi ymryson barddoniaeth,
A gadael, meddyliau sobr [sy’n] gafael,
Y gwŷr diddanus a dysgedig yn noethlwm.
A rhyfedd gennyf, oherwydd arwyddion ffafr
Ein harglwydd (colledion rhy danbaid [a fu]!),
Pan na fwriai Duw ddialau sydyn
[Ar y] lle y rhoed awen beirdd i ddinistr.
Tra bu Llywarch, [gwrthrych] parch perchnogion nawdd,
A Chynddelw, amddiffyniad [cerdd] pendefigion anrhydeddus,
A Gwilym Rhyfel, [gŵr o] urddas parch taenedig,
A Dafydd Benfras ym mhlas mawr Môn,
Ni pharai arglwydd hael, gwasgarwr rhoddion,
Unrhyw gorneliad [o] frad i brydyddion.
Tra bu’r prifeirdd gwych, gwych weision [y] gerdd union,
Yn llawn ymadroddion dawn gyflawn,
Ni pherchid crwth helyg anystwyth
Tebyg i sŵn perchyll, [a’i] berfeddion wedi torri.
Wrth wrando mor deg yw cân englynion maith
O brif waith iaith safonol y prydyddion,
Tost oedd clywed perfedd telynau
O groen gwag bleiddiaid [a’u] tannau tyn.
Pan aeth Maelgwn dal o dir ardal mab Dôn
I wledd gwron llys hyd Gaer Seion,
A dwyn gydag ef, meddyliau [h.y. bwriadau] dan gamp,
[Y cwbl a] oedd o gerddorion llinynnol,
A gwneud iddynt, gwŷr praff lluosog,
I bawb o’r fintai nofio [dros] yr afon;
Pan ddaethant i’r tir, [sef] goror Môn, [a’r môr] ar drai,
Nid oedd y telynorion yn werth dimai!
Mae Duw yn dyst i hyn, mae tystion yn ei wybod:
Yn unol [â’u] goruchafiaeth wiw, nodwedd dynion dysgedig,
Prydai’r prydyddion gystal â chynt

Er gwaethaf [yr hyn] a nofiasent, [ar] ffordd gwŷr bonheddig.
Gan arglwydd cangell Bangor, [gŵr] wedi ei urddo â choron,
Pendefig, pennaeth gwlad y Brython,
Cafodd minteioedd diffaith wisgoedd,
Ciwed ymwthgar, llwyth [o] bobl ormesol.
Tudur Wion siriol, [un â] dull eidion myngus,
[Un] anghenus, cas yw ei gyfres [o] benillion:
Am wybod Saesneg acen Saesneg dihiryn,
Cafodd wisg las laes ei godreon;
Cafodd, [y] cerlyn cas (nid gweddus oedd [y] digwyddiad),
[Y] cogydd brain breision o daeog atgas,
[Ac yntau]'n dwyllwr, pennaeth cyrn drwg [eu] mynegiant
Yn llurgunio cymysgiaith, [do, cafodd] ddillad amryliw.
Nid yw gwehilion cerddau tabyrddau,
Cyneddfau taeogion Saeson, yn caru bonedd:
[Gan hynny] truenus oedd gweld, [yn achos] dynion isel [a] gwrthun,
Roi dillad iddynt na fyddent yn dyllog!
Oni wyddai [ei] uchaf gras, dysg …,
Nad fel cerdd Tutgyn, sain [sy'n] gofyn enwogrwydd,
Yr ymledai (arwydd [o] anfri [oedd y sain hwnnw]) englynion croyw
[Y] gŵr doeth o Fôr y Gogledd hyd Fôr Iwerddon?

# *Nodiadau*

2 **nerth** Am yr ystyr 'llu, byddin', &c., gw. GPC 2572.

5 Ar y gyfatebiaeth rhwng *w/f* yn *erwan/Arfon*, gw. J. Morris-Jones: CD 200.

6 **canon** Ar wahanol ystyron *canon*, a ddynodai gyfraith ganon yn wreiddiol, yna 'cyfraith, rheol, safon', &c., gw. GPC 416, GDG[3] 453, 482, GCBM iii, 277. Â'r enghraifft hon, cf. GLlLl 4.11 *Doeth vu*, *o'r Trioeth treit canon*. Yr oedd dysg yn un o'r pethau y disgwyliai'r beirdd i esgob ei feddu, gw. G.J. FitzGerald, 'The Religious Background of the Classical Welsh Poets (1435–1535)' (M.A., Liverpool, 1964), 27–8.

7 **arddelwon** Ar ddefnyddio *arddelw* fel e. gweithredydd, gw. GPC 186. Gellid deall yr ystyr 'hawliau' hefyd, gw. *l.c.*, ond mae'n fwy tebygol mai pobl a arwisgwyd.

12 **eniweidion** Gall *aniweidion*, a geir yn y rhan fwyaf o'r llsgrau., fod yn amrywiad ar *eniweidion*, sef ll. *eniwed*, gw. GPC 1217, neu gynrychioli *a 'niweidion* gydag *a* yn golygu 'o' (gw. GMW 37) a *'niweidion* yn dalfyriad o *eniweidion*/*anniweidion* (sylwer mai diweddar yw'r ffurf *niwed*, gw. GPC 2585); ond mae'r llsgrau. yn unfryd o blaid ei ddeall yn un gair.

15 **Llywarch** Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch', bardd o'r 12g./13g., gw. uchod 8.17n.

16 **Cynddelw** Cynddelw Brydydd Mawr, bardd o'r 12g., gw. uchod 8.14n.

**urdd ddledogion** Darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. yw *vrddedicion*, ond awgryma *heirdd ddledogion* llsgr. N a *vrddeledogion* llsgr. Q, dwy lsgr. gynnar, mai dau air a oedd yn wreiddiol, a diwygiwyd yn unol â hynny. Ar *urdd* 'urddas, anrhydedd', gw. GDG[3] 604 ac ar ei ddefnydd fel a., gw. GLlLl 1.146n a cf. GCBM ii, 4.94.

17 **Gwilym Rhyfel** Bardd o'r 12g. nad erys ond ychydig iawn o'i waith. Mae'n debyg iddo fod yn rhyfelwr, fel yr awgrymir gan ei gyfenw. Mae'r ffaith fod Iorwerth Beli wedi dewis ei enwi ochr yn ochr â'r cewri Llywarch ap Llywelyn, Cynddelw, a Dafydd Benfras yn deyrnged drawiadol iawn iddo. Gw. ByCy 306, CLC 246, J.E. Caerwyn Williams, 'Barddoniaeth Gwilym Ryfel', YB x (1977), 106–23, GLlF 497–531.

**rhif** Am yr ystyr 'parch, anrhydedd', gw. GIG 309, GLlLl 338, a cf. CA 73, 272, PKM 138 am y f. *rhifo*.

18 **Dafydd Benfras** Gw. uchod 8.18n.

**mawrblas Môn** Ymddengys mai bardd o Fôn oedd Dafydd Benfras, gw. G 289, GDB 363–8. Ai cyfeiriad sydd yma at lys Aberffro lle buasai'n canu?

19 **rhoddion—digroniad** Mae tystiolaeth y llsgrau. o blaid darllen *digroniad* yn hytrach na *ddigroniad* yma; ar galediad *-n dd-* > *-n d-*, gw. Treigladau 26–7.

21 **cerddiawn** Gwell dilyn darlleniad llsgrau. FJORS yma, gan fod darlleniadau HLNPQ yn golygu ailadrodd yr ail elfen *dawn* yn *tryddawn* y ll. nesaf.

22 **tryddawn** O ddau ddarlleniad y llsgrau., *dridawn* a *driddawn*, mae'r cyntaf yn gywir o ran ffurf, gw. G 303 ac, e.e., GBDd 5.16 *llawn o'r tridawn, llyma'r trydydd*; GGl² 245 (XCIV.15–16) *Tŷ'r gŵr a'i bantri, a'i gog, / Yw'r tri-dawn, gwrtiwr oediog*, a gellid ei ddehongli yn gyfeiriad at 'Dri Chof Ynys Prydain', gw. GPC 536; ond gwell yw'r ail o ran cytseinedd. (Gan fod y rhifolyn *tri* yn cymryd y ffurf *try* hefyd pan fo'n elfen gyntaf cyfansoddair, gw. GSRh 10.60n, hawdd y gallai'r rhagddodiad *try-* fod wedi ei gamgymryd am y rhifolyn.)

24 Ar y crwth Cymreig, gw. A.O.H. Jarman, 'Telyn a Chrwth', LlCy vi (1960–1), 171–3, B.E. Miles, 'Swyddogaeth a Chelfyddyd y Crythor' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1983).

25 **tôn** Yn llsgrau. QS yn unig y ceir y darlleniad hwn ond dyma ddwy o'r llsgrau. cynharaf, a rhydd well synnwyr o lawer na *to* y lleill. Awgryma fod yr englynion yn cael eu datgan i gyfeiliant cerddoriaeth.

26 **gwaith prif** Ar leoli *prif* ar ôl yr e. y mae'n ei oleddfu, cf. GDG³ 389 (147.16) *A fydd yn y prydydd prif*.

27–8 **eigion / … tynion** Cyfeiriad, mae'n debyg, at y delyn ledr rhagor y delyn rawn gynharach, gw. A.O.H. Jarman, *art.cit*. 163–4. Cf. hefyd gywydd Iolo Goch 'Cywydd Moliant i'r Delyn Rawn a Dychan i'r Delyn Ledr', GIG 143–4. Ar y delyn Gymreig yn gyffredinol yn yr Oesoedd Canol, gw. O. Ellis, *The Story of the Harp in Wales* (Cardiff, 1991), 3–11. Gellid hefyd ddeall *eigion* yn amrywiad ar *igian*, gw. GPC 1190.

29–40 Ar y stori hon am Faelgwn Gwynedd a'i feirdd a'i gerddorion yn croesi'r dŵr, gw. uchod y sylwadau rhagarweiniol a PKM 193. Edrydd y bardd hi er mwyn dangos rhagoriaeth prydydd ar gerddor.

29 **o dir mab Dôn—duedd** Mae'r rhan fwyaf o'r llsgrau. yn gytûn yn dweud mai o Arfon (*tir mab Dôn*, gw. TYP² 402, a D.H. Evans yn LlCy xviii (1994–5), 381) y cychwynnodd Maelgwn a'i lu ar eu hynt. Dylid sylwi, er hynny, ar ddarlleniadau llsgrau. H *i dir* a P *dir* sydd, fel y safant, yn awgrymu mai o Fôn y cychwynnwyd. Mae'n berffaith bosibl

mai'r hen gystrawen lle dynodir cyrchfan gan dreiglad yn unig, gw. Treigladau 227–8, sydd yn P ac mai 'diweddariad' ohoni sydd yn H, cf. GIG 204n1. Diddorol sylwi ar ddarlleniad llsgr. N *o dir mon duedd* gan fod hwn yn cyd-fynd â synnwyr HP, ond nid yw'n debyg o fod yn gywir gan mai dyma'r unig enghraifft yn y llsgrau. o *Môn* am *mab Dôn*, a phe dadleuid mai *dir* (heb yr arddodiad) oedd y darlleniad gwreiddiol, byddai'n gwneud y ll. yn rhy fyr o sill. Os o Fôn y dechreuwyd ar y daith, naturiol tybio mai yn rhywle ar y tir mawr yr oedd Caer Seion ll. 30 (ymhellach gw. *ib*.n) ac mai ar ôl bod yno, nid wrth fynd yno, y croesodd y cwmni Afon Menai (llau. 34–5). Er mai yn Negannwy y gosodir llys Maelgwn Gwynedd mewn llên gwerin, â Môn y'i cysylltir yn y ffynonellau cynharaf, gw. B.F. Roberts yn AH 322.

30 **gwalch gorsedd** Ni wyddys pwy oedd hwn.

**Caer Seion** Yn I. Williams: BWP 179 awgrymir yn betrus mai ar fynydd Conwy yr oedd y gaer hon, a dyna'r farn a fynegir yn W.E. Griffiths ac A.H.A. Hogg, 'The Hill-fort on Conway Mountain, Caernarvonshire', Arch Camb cv (1956), 49; ond mae amrywiadau ar enw'r gaer, sy'n cynnwys hefyd y ffurf *Caer Lleion*, mewn ffynonellau o'r 17g. a'r 18g., yn peri gofyn pa mor hen a dilys ydynt, gw. B.F. Roberts yn AH 320n4. Yn C xvii bernir mai Caer Seiont/Saint, sef Caernarfon, yw Caer Seion, a lledawgrymir yr un peth yn G 96. Dadleua B.F. Roberts, *ib*. 320, yn erbyn tarddu *Seion* o *Seiont* (< *Segontium*) ar y sail y rhoddai hynny odl drom â Dôn yn y ll. flaenorol, eithr erbyn y cyfnod hwn ni wahaniaethid rhwng sillafau trwm ac ysgafn mewn sillafau diacen, gw. WG 73–4 a J. Morris-Jones: CD 233–4. Y trydydd lleoliad a gynigiwyd yw eiddo B.F. Roberts yn AH 322, sy'n dadlau, ar bwys y cyfeiriad at Fôn yn ll. 35 a chyfeiriad posibl at Gaer Seion yn y gerdd 'Echrys Ynys', cerdd gynnar yn ymwneud â Môn (gw. I. Williams: BWP 172–80), mai ym Môn, Aberffro o bosibl, yr oedd Caer Seion. Yn sicr, os o Arfon y dechreuodd Maelgwn a'i ddilynwyr (gw. uchod ll. 29n), byddai'r lleoliad hwn yn gweddu. O'r tri lleoliad hyn, efallai mai Caer Saint yw'r mwyaf tebygol, cf. uchod ll. 29n.

32 **oedd o gerdd arwest** Cf. yr hyn a ddywedir am Fendigeidfran yn PKM 39 (llau. 12–14) *Ac yna y kerdwys ef ac a oed o gerd arwest ar y geuyn e hun, a chyrchu tir Iwerdon*.

33 **llawer** Ar galediad *l*- > *ll*- yn dilyn -*n*, gw. Treigladau 27–9.

36 Oherwydd bod y cerddorion wedi gwlychu tannau eu telynau, gw. PKM 193.

41 **coron** Sef meitr yr esgob, gw. GPC 565 dan 1(b).

44 **llethedigion** Ystyr oddefol a roddir i *llethedig* yn GPC 2165, 'wedi ei lethu', &c. Ond gall y terfyniad -*edig* fod yn weithredol hefyd, gw.

GMW 166, a bernir, ar bwys y geiriau *gosgryn dylwyth* yn yr un ll., mai'r ystyr honno sy'n gweddu orau yma.

45 **Tudur Wion** Enw anarferol braidd ar gymeriad anhysbys. Gellir casglu oddi wrth lau. 45–52 mai cerddor Cymraeg gwael ydoedd a gafodd ei ddyrchafu gan yr esgob a'i wneud yn bennaeth y cerddorion Seisnig.

46 **gostegion** Tebyg mai penillion cerdd dant a olygir, gw. GPC 1514.

49 **cyson damwain** *ddamwain* a geir yn llsgr. N a'r rhan fwyaf o'r llsgrau. ond dewiswyd deall y cymal yn frawddeg enwol er nad oes unrhyw wahaniaeth ystyr o bwys o wneud hynny. Gallai'r *d* ar ddechrau'r darlleniad *damwain*, wrth gwrs, fod wedi caledu ar ôl *-n*, gw. Treigladau 26–7.

51 **twyllor** Dyma'r unig enghraifft o'r gair yn slipiau Uned Geiriadur Prifysgol Cymru. Fe'i deellir yn gyfuniad o *twyll* + y terfyniad enwol -*awr* megis yn *canghellor*, &c., gw. GPC 242 d.g. *-awr*[3].

52 **dullio** Llsgrau. NQ *dryllio*, ond ni rydd gystal synnwyr ac mae'r gynghanedd o blaid *dullio*.

**dillad** Ped atebid y *d*, ceid cynghanedd groes gyflawn.

53–4 **cerddau / Tabyrddau … Saeson** Mae'n bwysig cofio, wrth gwrs, i feirdd gwyno'n weddol gyson ar hyd y canrifoedd am y cam a gaent *vis à vis* y cerddorion yn nhai eu noddwyr. Er enghraifft ceir gan Dafydd Benwyn (*fl. c.* 1560– *c.* 1600) englyn ac iddo'r coloffon hwn yn Pen 122, 125, 'Tho [*sic*] Benwyn ai cant ymhlas gwr bonneddic y deuai a Chywydd adref iddaw ac ef eb gael i ddatcan gan ddadwrdd dau wr wrth gerdd, un ar Viol ar llall ar Tabwrdd'

Och y'r faiold goch, a'r gwr ddoe y kanai:
kwynaf hyd ymylfwrdd,
oerchwedl y'r mab a'r tabwrdd,
o vewn ty, da vaint y dwrdd.

Gw. ymhellach D. Huw Evans, 'The life and work of Dafydd Benwyn' (D.Phil., Oxon, 1981), 625.

54 **swysau** Ll. *_swys_, o bosibl o'r Llad. *sēnsus* (cf. Gwydd. *séis*), gw. GLlLl 4.13n.

56 **dillad … ni bai** Ar f. un. mewn cymal negyddol rhywiog ac iddi ragflaenydd ll., gw. Thomas Jones, 'Rhai Sylwadau Gramadegol a Thestunol', LlCy vii (1962–3), 112–15. Mae'n bosibl hefyd fod *dillad* yma'n e. torfol (ac felly'n cael ei drin fel e.un.) yn hytrach nag yn e.ll., gw. GPC 1017.

**tyllion** Ar *twll* yn golygu 'tyllog', gw. CLlH 70. Gall hefyd, wrth gwrs, mai ll. yr e. sydd yma.

57 **gwyddiad** Ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *gwybod*, gw. 6.59n uchod.

**penrhad, canon—dyrcyn** Ymranna darlleniadau'r llsgrau. yn rhai sy'n rhoi deg sillaf ond heb air cyrch, a rhai sy'n rhoi deuddeg sillaf (un ar ddeg yn llsgr. M). Diwygiwyd, felly, trwy hepgor y gair sy'n dilyn *penrhad*, &c., yn y llsgrau. er mwyn cael y nifer iawn o sillafau a derbyn darlleniad llsgrau. HP *Canon dvrcyn* a llsgr. M *canon dyrcyn* er mwyn cael odl â *Tutgyn* y ll. nesaf. Ni wyddys beth yw ystyr *dvrcyn/dyrcyn* ond dichon mai bai ydyw am *tyrchyn*, sef 'porchell', mewn ystyr ddifrïol, cf. D d.g. *porculus* a hefyd Myrddin Fardd, *Cynfeirdd Lleyn* (Pwllheli, 1905), 219 *Tyrchyn tir Llŷn a'r llost—yn llipa* (Gruffydd Bodwrdda). Golyga'r diwygiad mai odl yn unig a geir yn y ll., ond gellid darllen *cuniad* 'arglwydd' yn hytrach na *penrhad*, gan ddilyn llsgr. M, i roi cytseinedd hefyd. Tebyg mai genidol yw *canon* yn dibynnu ar y gair sy'n ei ddilyn.

58 **Tutgyn** Cymerir mai ffurf ddifrïol ar enw'r cerddor *Tudur* a enwir yn ll. 45 uchod a geir yma, a bod y bardd, yn llau. 57–60, yn dweud nad fel cerdd israddol Tutgyn yr ymledai englynion hysbys y bardd doeth, *englynion—digudd / Gŵr prudd ...* (Am ail elfen yr enw, cf. ffurfiau megis *Watgyn*, &c.).

**sain erfyn sôn** Gwrthgyferbynna â *nod anghlod* yn y ll. nesaf.

60 **o Fôr Udd hyd Fôr Iwerddon** Fformwla cyffredin yn dynodi pegynau eithaf dwyrain a gorllewin Prydain, cf. BrM$^3$ 9.1–2 *A hitheu a nodes ynys Prydein y'6 that, o Vor Rud hyt ym mor Iwerdon*; GCBM ii, 4.248–9 *Nyd geir geu, ef goreu g6on / O Uor Ut hyd Uor Iwerton;* GLlLl 4.25–6 *Vyn tafa6d yn ura6d ar Urython / O Uor Ut hyd Uor Iwerdon*. Gellir cywasgu *Fôr Iwerddon* yn *Fôr 'Werddon* er mwyn cael ll. nawsill.

# *Mynegai*


**anfon** 15.17
**araith** 15.51
**arddelw: arddelwon** 15.7n
**ar ddifrawd** 15.14
**argleidriad** 15.2
**arwest** 15.32n
**athro** 15.6
**bardd: beirddion** 15.14
**barddawd** 15.14
**bod: oedd** 15.32n **bai** 15.56n
**breithiaith** 15.52
**cael: cafas** 15.43, 48
**canon** 15.6n, 57n
**carn: ceirnion** 15.51
**cerdd** 15.32n **cerddau** 15.53n
**cerddiawn** 15.21n
**conglad** 15.20
**côr** 15.41
**coron** 15.41n
**culwydd** 15.1
**cuniad** 15.57n
**cyflawnrad** 15.1
**cyson** 15.49n
**damwain** 15.49n
**deddfiaith** 15.26
**diannoeth** 15.9
**difrawd** gw. **ar ddifrawd**
**digrifddoeth** 15.10
**digudd** 15.59
**digus** 15.46
**dillad** 15.52n, 15.56n
**dledog: dledogion** 15.16n
**dullio** 15.52
**dwrdd** 15.8
**englyn: englynion** 15.59
**eigion** 15.27n
**eniwed: eniweidion** 15.12n
**erfyn** 15.58n
**erwan** 15.5
**eurgrair** 15.4
**ffyrfaidd: ffyrfeiddion** 15.33
**gogoned** 15.4
**gorchest** 15.31
**gorsedd** 15.30n
**gosteg: gostegion** 15.46n
**gwaith** 15.26n
**gwalch** 15.30n
**gwehelyth** 15.53
**llawer** 15.33n
**llethedig: llethedigion** 15.44n
**llywawdr: llywodron** 15.3
**mab** 15.29n
**mawrblas** 15.18n
**môr** 15.60n
**neirthiad** 15.2
**nerth** 15.2n
**penrhad** 15.57n
**perchyllson** 15.23
**plaid** 15.11
**prif** 15.26n
**rhên** 15.12
**rhif** 15.17n
**rhwyf** 15.41
**rhynoeth: rhynoethion** 15.10
**Saeson** 15.54n
**sain** 15.58n
**sôn** 15.58n
***swys: swysau** 15.54n
**tabwrdd: tabyrddau** 15.54n
**terrig** 15.24
**tir** 15.29n
**tôn** 15.25n

**tryddawn** 15.22n
**tuedd** 15.29n
**twll: tyllion** 15.56n
**twyllor** 15.51n
**tyn: tynion** 15.28n
**tyrcyn** 15.57n
**urdd** 15.16n
**urddedig** 15.41

## *Enwau personol*

**Crist** 15.1
**Cynddelw** 15.16n
**Dafydd Benfras** 15.18n
**Dôn** 15.29n
**Duw** 15.13, 37
**Gwilym Rhyfel** 15.17n
**Llywarch** 15.15n
**Maelgwn** 15.29
**Tudur Wion** 15.45n
**Tutgyn** 15.58n

## *Enwau lleoedd*

**Arfon** 15.5
**Bangor** 15.41
**Caer Seion** 15.30n
**Môn** 15.18n
**Môr Iwerddon** 15.60n
**Môr Udd** 15.60n

# *Llawysgrifau*

*Llawysgrif Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain*

**BL Add 14867 [= RWM 54]**: William Morris, 1758, gw. RWM ii, 1151–6.

**BL Add 14934**: Lewis Morris (1701–65), gw. CAMBM 1844, 36–7.

**BL Add 14936**: Richard Morris, gw. *ib*. 39.

**BL Add 14940**: William Morris, 1752–6, gw. *ib*. 40–1.

**BL Add 14970**: Edward Williams 'Iolo Morganwg', 1800–1, gw. *ib*. 48–9.

**BL Add 14990**: Hugh Maurice, 18/19g., gw. *ib*. 57.

**BL Add 14979**: John Fowk, *c*. 1590 (*ex inf*. Daniel Huws), gw. *ib*. 53–4.

**BL Add 15000**: Owen Jones 'Owain Myfyr', ail hanner y 18g., gw. *ib*. 60–1.

**BL Add 15001**: John Walters, *a*. 1792, gw. *ib*. 61–2.

**BL Add 15003**: Edward Williams 'Iolo Morganwg', ail hanner y 18g., gw. *ib*. 62–3.

**BL Add 15034**: Owen Jones 'Owain Myfyr', 1769–1804, gw. *ib*. 62–3.

**BL Add 31056**: llaw anh., ail hanner yr 17g., gw. CAMBM 1876–81, 154; *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal*, gol. G.A. Williams (Caerdydd, 1986), xxiv.

*Llawysgrifau yn Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd*

**Card 4.10 [= RWM 84]**: Dafydd Jones, Trefriw, ail hanner y 18g., gw. RWM ii, 790–3.

*Llawysgrif yng nghasgliad Gwyneddon Davies yn Llyfrgell Prifysgol Cymru Bangor*

**Gwyn 19**: David Ellis (1736–95), gw. GSCMB 31.

*Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen*

**J 111, 'Llyfr Coch Hergest' [= RWM 1]**: Hywel Fychan a 'Peniarth 32', c. 1400, gw. RWM ii, 1–29; G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LlGC xxi (1979–80), 246–56.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**LlGC 37B**: William Jones, Llangadfan (1726–95), gw. NLWCM 81–4.

**LlGC 169C**: Edward Jones ‘Bardd y Brenin’, 18/19g., gw. *ib*. 138–9.

**LlGC 1984B [= Pant 15]**: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 1757, gw. RWM ii, 823–4.

**LlGC 2008B [= Pant 40]**: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 1758–66, gw. *ib*. 847–51.

**LlGC 2021B [= Pant 53]**: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, canol y 18g., gw. *ib*. 859–61.

**LlGC 2025B [= Pant 58]**: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 18g., gw. *ib*. 864.

**LlGC 2032B [= Pant 66]**: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, ?1759–66, gw. *ib*. 866.

**LlGC 3049D [= Mos 146]**: llaw anh., 17g., gw. *ib*. i, 168–79 eithr gthg. y dyddiad a roddir yno.

**LlGC 4973B**: John Davies o Fallwyd, c. 1631, gw. HMNLW ii, 59.

**LlGC 8497B**: Thomas Wiliems, *c*. 1570–90 (*ex inf*. Daniel Huws), gw. *ib*. iii, 54.

**LlGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1]**: Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, gw. Rh.F. Roberts, ‘A List of Manuscripts from the collection of Iolo Morganwg among the Family Papers presented by Mr. Iolo Aneurin Williams and Miss H. Ursula Williams, London, 1953–4’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1978).

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llanstephan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Llst 118**: Humphrey Davies, *c*. 1600–20, gw. RWM ii, 579–92; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh Manuscripts’, Cylchg LlGC v (1947–8), 234.

**Llst 120**: Jaspar Gryffyth, *c*. 1607, gw. *ib*. 603–9.

**Llst 122**: Wiliam Bodwrda, *c*. 1648, gw. RWM ii, 609–20; R.G. Gruffydd, ‘Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)’, Cylchg LlGC viii (1953–4), 350; D. Ifans, ‘Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron’ (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1974), 384–98.

**Llst 133**: Samuel Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 664–94; G.H. Hughes, *Iaco ab Dewi* (Caerdydd, 1953), 37–40.

**Llst 145**: Samuel Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 721–5; G.H. Hughes, *op.cit*. 22, 53.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Pen 86**: Simwnt Fychan (*c*. 1530–1606), gw. RWM i, 550–6; E.J. Jones, ‘Martial’s Epigram on the Happy Life’, B iii (1926–7), 290.

**Pen 111**: John Jones, Gellilyfdy, *c*. 1610, gw. RWM i, 664–71.

**Pen 113**: John Jones, Gellilyfdy, 1640, gw. *ib*. 686–89.

**Pen 118**: Siôn Dafydd Rhys a'i gylch, *c*. 1600, gw. *ib*. 718–25.

**Pen 197**: David Ellis (1736–95), gw. *ib*. 1026.

*Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, *Aberystwyth*

**Wy 1**: Thomas Wiliems, *c*. 1570–90 (*ex inf*. Daniel Huws), gw. 'Schedule of the Wynnstay Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru), 1–2.

# *Mynegai i'r llinellau cyntaf*


*Td.*

Arglwydd Grist, Culwydd calon—gyflawnrad ........................................ 151
Aur a main, coelfain eu cael,—cae melyn ................................................ 13
Diofryd ddôr gryd grym arwriaith .......................................................... 103
Diwyd yw, i'm bryd, Brawd hedd—pur uncof ............................................ 64
Dug gwledig Cedig o du coedydd—Rhos ..................................................... 7
Duw a wnaeth o ffraeth ffrwyth adeilad .................................................... 99
Erfid newid nwyf, arfer clêr a'm clwyf ......................................................... 9
Ffrwythlawn a chyfiawn â chyfoeth—ei gerdd ........................................... 61
Gŵyl fun a dry hun drwy hud,—cur ortho .................................................. 16
I'm naf a garaf, a fedr gwyriaw—glaif ....................................................... 28
Neud cynechrau Mai, mau anhunedd ......................................................... 57
Nid lle ym geisiaw, llafur brwyngur braw .................................................. 24
Rhên Trindawd, arawd eirf yng nghystudd ................................................. 51
Saith fu oed Iesu, n'ad Ei sail—i'th rif ....................................................... 66
Trallawn Gadwgawn gydogan—a'i ferch ................................................... 108
Unig dyrn trais gelyrn trwsgl ................................................................... 118
Yng ngŵydd wyth tylwyth talar—cas eilgnyw ........................................... 110

# *Mynegai i’r noddwyr a’r gwrthrychau*

*Cerdd*


Cadwgawn Ficar a’i ferch a’i ddaw ........................................................ 12
Casnodyn ........................................................................................ 13
Cedig Sant ....................................................................................... 1
Duw ................................................................................................ 10
Edward II ........................................................................... Atodiad II
Esgob Bangor .................................................................................. 15
Hywel o Landingad yn Ystrad Tywi ..................................................... 11
Iesu .................................................................................................. 9
Syr Gruffudd Llwyd ap Rhys ap Gruffudd o Dregarnedd ........................ 6, 7
Trahaearn Brydydd Mawr ...................................................................... 8